# Adroddiad Astudiaeth



# Agweddau tuag at Imiwneiddio rhag COVID-19 a’r Ffliw ymhlith Pobl Ifanc a Rhieni

**Paratowyd ar gyfer: Iechyd Cyhoeddus Cymru**
**Paratowyd gan: BMG**

**Agweddau tuag at Imiwneiddio rhag COVID-19 a'r Ffliw ymhlith Pobl Ifanc a Rhieni**
**Paratowyd ar gyfer: Iechyd Cyhoeddus Cymru**
**Paratowyd gan: BMG**
**Dyddiad: Mawrth 2022**

**Cynhyrchwyd gan BMG Research**
**© BMG Research Ltd, 2022**
**www.bmgresearch.co.uk**

Prosiect: 2242

Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 2841970
Swyddfa gofrestredig:
BMG Research
Beech House
Greenfield Crescent
Edgbaston
Birmingham
B15 3BE
Y DU
Ffôn: +44(0)121 333 6006

Rhif Cofrestru TAW y DU 580 6606 32
Rhif Aelodaeth Siambr Fasnach Birmingham B4626
Partner Cwmni Cymdeithas Ymchwil y Farchnad
Darparu Gwasanaethau Ymchwil i'r Farchnad yn unol ag ISO 20252:2012
Darparu Gwasanaethau Ymchwil i'r Farchnad yn unol ag ISO 9001:2015
Y Safon Ryngwladol ar gyfer Rheoli Diogelwch Gwybodaeth ISO 27001:2013
Cwmni Aelod Cynllun Rheoli Ansawdd Cyfwelydd (IQCS)
Cofrestrwyd o dan y Ddeddf Diogelu Data - Rhif Cofrestru Z5081943
Sefydliad Data Teg
Ardystiad Cyber Essentials

Mae logo BMG Research yn nod masnach o BMG Research Ltd.

## Tabl Cynnwys


1. Cyflwyniad ............................................................... Error! Bookmark not defined.

1.1 Cefndir ............................................................... Error! Bookmark not defined.

1.2 Amcanion yr astudiaeth ........................................ Error! Bookmark not defined.

1.3 Methodoleg ........................................................... Error! Bookmark not defined.

1.4 Ynglŷn â’r adroddiad hwn....................................... Error! Bookmark not defined.

2. Crynodeb gweithredol .................................................. Error! Bookmark not defined.

2.1 Ymwybyddiaeth o frechu........................................ Error! Bookmark not defined.

2.2 Agweddau tuag at frechu ....................................... Error! Bookmark not defined.

2.3 Cael gwybodaeth a gwneud penderfyniad ............... Error! Bookmark not defined.

2.4 Manteisio ar y brechlyn, rhwystrau a chymhellion .... Error! Bookmark not defined.

2.5 Ymwybyddiaeth a safbwyntiau ar gyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus CymruError! Bookmark not defined.

3. Argymhellion ............................................................... Error! Bookmark not defined.

4. Ymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd am iechyd pobl ifancError! Bookmark not defined.

4.1 Cyflwyniad ........................................................... Error! Bookmark not defined.

4.2 Cofio gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd ar gyfer pobl ifanc... Error! Bookmark not defined.

4.3 Cofio cyhoeddusrwydd yn ymwneud â brechu i bobl ifanc ......Error! Bookmark not defined.

5. Ymwybyddiaeth wedi'i hysgogi o'r holl frechiadau sydd ar gael......Error! Bookmark not defined.

5.1 Cyflwyniad ........................................................... Error! Bookmark not defined.

5.2 Ymwybyddiaeth o'r brechiadau sydd ar gael i bobl ifanc .........Error! Bookmark not defined.

6. Agweddau cyffredinol tuag at frechu ............................. Error! Bookmark not defined.

6.1 Cyflwyniad ........................................................... Error! Bookmark not defined.

6.2 Difrifoldeb canfyddedig clefydau ............................ Error! Bookmark not defined.

6.3 Barn ar ddiogelwch brechiadau i bobl ifanc............. Error! Bookmark not defined.

7. Y brechlyn ffliw............................................................. Error! Bookmark not defined.

7.1 Cyflwyniad ........................................................... Error! Bookmark not defined.

7.2 Ymwybyddiaeth o'r brechlyn ffliw ............................ Error! Bookmark not defined.

7.3 Gwybodaeth am y brechlyn ffliw.............................. Error! Bookmark not defined.

7.4 Manteisio ar y brechlyn ffliw .................................... Error! Bookmark not defined.

7.5 Lleoliadau a ffefrir i gael y brechlyn ffliw.................. Error! Bookmark not defined.

7.6 Rhwystrau a chymhellion i fanteisio ar y brechlyn ffliw ............ **Error! Bookmark not defined.**

7.7 Agweddau tuag at y brechlyn ffliw ............................ **Error! Bookmark not defined.**

8. Brechlyn COVID-19 ...................................................... **Error! Bookmark not defined.**

8.1 Cyflwyniad ............................................................. **Error! Bookmark not defined.**

8.2 Ymwybyddiaeth o'r brechlyn COVID-19 ................... **Error! Bookmark not defined.**

8.3 Gwybodaeth am y brechlyn COVID-19 .................... **Error! Bookmark not defined.**

8.4 Manteisio ar y brechlyn COVID-19........................... **Error! Bookmark not defined.**

8.5 Lleoliadau a ffefrir i gael y brechlyn COVID-19......... **Error! Bookmark not defined.**

8.6 Rhwystrau a chymhellion i fanteisio ar y brechlyn COVID-19..**Error! Bookmark not defined.**

8.7 Agweddau tuag at y brechlyn COVID-19.................. **Error! Bookmark not defined.**

9. Barn ar gyd-weinyddu .................................................... **Error! Bookmark not defined.**

9.1 Cyflwyniad ............................................................. **Error! Bookmark not defined.**

9.2 Barn ar gyd-weinyddu ............................................. **Error! Bookmark not defined.**

10. Prosesau gwneud penderfyniadau ............................. **Error! Bookmark not defined.**

10.1 Cyflwyniad ............................................................. **Error! Bookmark not defined.**

10.2 Gallu pobl ifanc wrth ddod i benderfyniad am frechlynnau COVID-19 a ffliw ... **Error! Bookmark not defined.**

10.3 Caniatâd ar gyfer brechiadau i bobl ifanc 13 mlwydd oed a hŷn.... **Error! Bookmark not defined.**

10.4 Anghytuno ar frechu ymhlith pobl ifanc a rhieni........ **Error! Bookmark not defined.**

11. Ffynonellau gwybodaeth i gael gwybod am COVID-19 a brechlynnau ffliw......... **Error! Bookmark not defined.**

11.1 Cyflwyniad ............................................................. **Error! Bookmark not defined.**

11.2 Ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd................. **Error! Bookmark not defined.**

11.3 Ymddiriedaeth mewn ffynonellau gwybodaeth ......... **Error! Bookmark not defined.**

11.4 Ffynonellau gwybodaeth mae ymatebwyr yn debygol o'u defnyddio yn y dyfodol **Error! Bookmark not defined.**

12. Ymwybyddiaeth a safbwyntiau ar gyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru .. **Error! Bookmark not defined.**

12.1 Cyflwyniad ............................................................. **Error! Bookmark not defined.**

12.2 Ymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru .... **Error! Bookmark not defined.**

12.3 Safbwyntiau ar gyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru...**Error! Bookmark not defined.**

12.4 Awgrymiadau ar gyfer cyfleu gwybodaeth am frechu i bobl ifanc .. **Error! Bookmark not defined.**

12.5 Barn ar gyd-gynhyrchu deunyddiau cyhoeddusrwydd ............**Error! Bookmark not defined.**

Atodiad 1: Proffil sampl meintiol ............................................ **Error! Bookmark not defined.**

Atodiad2: Proffil sampl ansoddol........................................... **Error! Bookmark not defined.**

Atodiad 3: Datganiad o Delerau ............................................ **Error! Bookmark not defined.**

## Tabl o Ffigurau

Ffigur 1: Ydych chi wedi gweld, clywed neu ddarllen unrhyw beth am iechyd pobl ifanc yn ystod y 12 mis diwethaf?........................................................ **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 2: Ac am beth oedd hyn? ............................................ **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 3: Ydych chi wedi gweld, clywed neu ddarllen unrhyw beth am frechu i bobl ifanc yn ystod y 12 mis diwethaf? Drwy 'frechu' rydym yn golygu bod pobl ifanc yn cael brechiad i'w hamddiffyn rhag salwch.. ...................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 4: Am ba frechiad oedd y wybodaeth? ......................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 5: A beth ydych chi'n ei gofio fwyaf am yr hyn y gwnaethoch chi ei weld neu ei glywed? Beth oedd yn ei ddweud/beth wnaethoch chi ei ddysgu amdano?. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 6: Yn gyffredinol, oedd y wybodaeth a welsoch chi...?? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 7: A ble wnaethoch chi weld neu glywed hyn? ............. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 8: Pa frechiadau ydych chi’n meddwl sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer pobl ifanc 11-16 mlwydd oed? / Pa frechiadau ydych chi’n meddwl sydd ar gael ar hyn o bryd i bobl ifanc 11-25 mlwydd oed?.............................................................. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 9: Pa mor ddifrifol ydych chi’n meddwl y byddai i'ch plentyn/ plant chi pe baent yn cael y clefydau canlynol? (Rhieni) ................................................ **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 10: Pa mor ddifrifol ydych chi’n meddwl y byddai i chi pe byddech chi’n cael y clefydau canlynol? (Pobl Ifanc)............................................................ **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 11: A pha mor ddifrifol ydych chi'n meddwl y byddai i gymdeithas pe bai eich plentyn/plant yn cael y clefydau canlynol?............................. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 12: Pa mor ddifrifol ydych chi’n meddwl y byddai i gymdeithas pe byddech chi’n cael y clefydau canlynol? (Pobl Ifanc) ............................................. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 13: Pa mor ddifrifol ydych chi’n meddwl y byddai.... pe byddech chi’n cael y clefydau canlynol?.................................................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 14: Pa mor ddiogel ydych chi'n teimlo'n bersonol yw pob un o'r brechlynnau hyn? ............................................................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 15: Ydych chi'n meddwl bod unrhyw frechlynnau sy'n waeth i'ch plentyn/plant na'r salwch/clefyd gwirioneddol? Os felly, pa rai? Ydych chi'n meddwl bod unrhyw frechlynnau sy'n waeth i chi na'r salwch/clefyd gwirioneddol? Os felly, pa rai?.........**Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 16: Mae pob plentyn (o 2 flwydd oed) a phobl ifanc hyd at (ac yn cynnwys) y rhai ym mlwyddyn ysgol 11 bellach yn gymwys i gael brechlyn ffliw am ddim. Cyn heddiw, a oeddech chi’n ymwybodol o hyn? / Mae pobl ifanc rhwng 17 a 25 mlwydd oed yn gymwys i gael brechlyn ffliw am ddim os oes ganddynt rai cyflyrau iechyd hirdymor, os ydynt yn ofalwyr, yn feichiog, yn gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol neu'n byw gyda rhywun sydd â system imiwnedd sydd wedi'i pheryglu. Cyn heddiw, a oeddech chi’n ymwybodol o hyn?? ............................................................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 17: Cynigir y brechlyn ffliw i blant a phobl ifanc (hyd at flwyddyn ysgol 11) yng Nghymru fel chwistrell trwyn (nid pigiad). Cyn heddiw, a oeddech chi'n ymwybodol o hyn? ........................................................................................ **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 18: Allwch chi ddweud wrthym ni i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol?................................................ **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 19: A yw eich plentyn/plant wedi cael brechlyn ffliw am ddim? / Ydych chi wedi cael brechlyn ffliw am ddim?......................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 20: Fe wnaethoch chi ddweud nad yw eich plentyn/plant wedi cael brechlyn ffliw am ddim. A ydych chi'n bwriadu iddynt gael y brechiad hwn yn y dyfodol? / Fe wnaethoch chi ddweud nad ydych chi wedi cael brechlyn ffliw am ddim. Ydych chi'n bwriadu cael y brechiad hwn yn y dyfodol neu ar ôl i chi ddod yn gymwys? ................. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 21: Ble cafodd eich plentyn/plant eu brechlyn ffliw? / Ble gawsoch chi eich brechlyn ffliw? ......................................................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 22: Ac os gallech chi ddewis, ble fyddai'n well gennych chi i'ch plentyn/plant gael brechlyn ffliw? / Ac os gallech chi ddewis, ble fyddai'n well gennych chi gael brechlyn ffliw? ........................................................................................ **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 23: Rydych chi wedi dweud nad yw eich plentyn/plant wedi cael y brechlyn ffliw ac nad ydych yn bwriadu iddynt ei gael. A allech chi ddweud wrthym ni pam y gwnaethoch chi benderfynu na ddylai eich plentyn/plant gael y brechlyn? / Rydych wedi dweud nad ydych chi wedi cael y brechlyn ffliw ac nad ydych yn bwriadu gwneud hynny. A allech chi ddweud wrthym ni pam y gwnaethoch chi benderfynu peidio â chael y brechiad?.... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 24: Beth fyddai'n eich annog i gael brechlyn ffliw ar gyfer eich plentyn/plant? / Beth fyddai'n eich annog chi i gael brechlyn ffliw?.......................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 25: Pam wnaethoch chi benderfynu cael y brechlyn ffliw / Pam ydych chi'n bwriadu cael y brechlyn ffliw?............................................................. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 26: Allwch chi ddweud wrthym ni i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol? (Rhieni) .................................. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 27: Allwch chi ddweud wrthym ni i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol?  (Pobl Ifanc)............................ **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 28: Mae plant 5 i 11 mlwydd oed mewn grwpiau risg a phob plentyn 12 mlwydd oed a throsodd yng Nghymru bellach yn cael cynnig brechlyn COVID-19 am ddim. Cyn heddiw, a oeddech chi'n ymwybodol o hyn?.......................................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 29: Allwch chi ddweud wrthym ni i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol?................................................ **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 30: A yw eich plentyn/plant wedi cael brechlyn COVID-19 am ddim? / Ydych chi wedi cael brechlyn COVID-19 am ddim?....................................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 31: Fe wnaethoch chi ddweud nad yw eich plentyn/plant wedi cael brechlyn COVID-19 am ddim. Ydych chi'n bwriadu i'ch plentyn/plant gael y brechiad hwn yn y dyfodol neu ar ôl iddynt ddod yn gymwys? / Fe wnaethoch chi ddweud nad ydych chi wedi cael brechlyn COVID-19 am ddim. Ydych chi'n bwriadu cael y brechiad hwn yn y dyfodol neu ar ôl i chi ddod yn gymwys? ................................................................. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 32: Ble cafodd eich plentyn/plant eu brechlyn COVID-19? / Ble cawsoch chi eich brechlyn COVID-19? ............................................................ **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 33: Ac os gallech chi ddewis, ble fyddai'n well gennych chi i'ch plentyn/plant gael brechlyn COVID-19? / Ac os gallech chi ddewis, ble fyddai'n well gennych chi gael brechlyn COVID-19? ............................................................................ **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 34: Rydych chi wedi dweud nad yw eich plentyn/plant wedi cael y brechlyn COVID-19 ac nad ydych yn bwriadu iddynt ei gael. A allech chi ddweud wrthym ni pam y gwnaethoch chi benderfynu na ddylai eich plentyn/plant gael y brechlyn? / Rydych wedi dweud nad ydych chi wedi cael y brechlyn COVID-19 ac nad ydych yn bwriadu gwneud hynny. A allech chi ddweud wrthym ni pam y gwnaethoch chi benderfynu peidio â chael y brechiad? ........ **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 35: Pam wnaethoch chi benderfynu cael y brechlyn COVID-19? / Pam ydych chi'n bwriadu cael y brechlyn COVID-19? ..................................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 36: Allwch chi ddweud wrthym ni i ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno gyda’r datganiadau canlynol? (Rhieni) .................................. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 25: Allwch chi ddweud wrthym ni i ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno gyda’r datganiadau canlynol? (Pobl Ifanc)............................. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 38: Pe gallai pobl ddewis p’un a ydynt am gael brechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw ar yr un pryd neu ar ddyddiadau gwahanol, beth fyddai orau gennych chi ar gyfer eich plentyn/plant? / Pe gallai pobl ddewis p’un a ydynt am gael brechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw ar yr un pryd neu ar ddyddiadau gwahanol, beth fyddai orau gennych chi? ........... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 39: Allwch chi ddweud wrthym ni i ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno gyda’r datganiadau canlynol?................................................ **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 40: A ydych chi’n ymwybodol y gall plant a phobl ifanc 13 mlwydd oed a hŷn roi caniatâd ar gyfer y brechlyn os oes problem wrth geisio cael caniatâd gan eu rhieni neu warcheidwaid? / Ydych chi'n ymwybodol, os ydych chi'n 13 mlwydd oed neu'n hŷn, y gallwch chi roi caniatâd ar gyfer y brechlyn os oes problem wrth geisio cael caniatâd gan eich rhieni neu warcheidwaid? ............................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 41: A meddwl am y brechlynnau mae eich plentyn/plant wedi cael eu cynnig yn y gorffennol, pa un o'r canlynol sydd fwyaf perthnasol i chi? / A meddwl am y brechlynnau rydych chi wedi cael eu cynnig yn y gorffennol, pa un o'r canlynol sydd fwyaf perthnasol i chi? ........................................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 42: A sut y byddech chi’n ffafrio gwneud penderfyniad ynghylch a ddylech chi gael eich brechu ai peidio? (Pobl Ifanc) ........................................ **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 43: A ydych chi a/neu'r rhiant/gwarcheidwad arall erioed wedi anghytuno â'ch plentyn/plant ynghylch a ddylent gael brechlyn? / Ydych chi a'r naill neu'r llall o'ch rhieni/gwarcheidwaid erioed wedi anghytuno ynghylch a ddylech chi gael brechlyn?.... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 44: Pa frechlyn/brechlynnau wnaethoch chi anghytuno yn eu cylch? **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 45: Pa un o'r canlynol ydych chi wedi'i ddefnyddio cyn heddiw i gael gwybodaeth am frechlyn COVID-19 neu’r brechlyn ffliw ar gyfer eich plentyn/plant? / Pa un o'r canlynol ydych chi wedi'i ddefnyddio cyn heddiw i gael gwybodaeth am frechlyn COVID-19 neu'r brechlyn ffliw? ........................................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 46: A faint ydych chi'n ymddiried yn y wybodaeth a roddir i chi o'r ffynonellau hyn? (Rhieni) ....................................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 47: A faint ydych chi'n ymddiried yn y wybodaeth a roddir i chi o'r ffynonellau hyn? (Pobl Ifance) .................................................................. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 48: Os oeddech chi eisiau gwybod mwy am frechlyn COVID-19 neu’r brech;yn ffliw ar gyfer eich plentyn/plant, ble fyddech chi'n chwilio am ragor o wybodaeth? / Os oeddech chi eisiau gwybod mwy am frechlyn COVID-19 neu’r brechlyn ffliw, ble fyddech chi'n chwilio am ragor o wybodaeth? ............................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 49: Taflenni a negeseuon cyfryngau cymdeithasol a ddangoswyd i ymatebwyr .. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 50: Ydych chi wedi gweld unrhyw un o'r taflenni neu'r negeseuon cyfryngau cymdeithasol hyn cyn heddiw?............................................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 51: Ble wnaethoch chi weld hyn? ................................. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 52: Yn gyffredinol, pa mor dda neu wael yw'r elfennau canlynol o'r taflenni/negeseuon cyfryngau cymdeithasol?........................................................ **Error! Bookmark not defined.**

## Tabl o Dablau

Tabl 1: Yn gyffredinol, oedd y wybodaeth wnaethoch chi ei gweld/ei chlywed....yn ôl ffynhonnell (Rhieni) ................................................................ **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 2: Yn gyffredinol, oedd y wybodaeth wnaethoch chi ei gweld/ei chlywed....yn ôl ffynhonnell (Pobl Ifanc) .......................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 3: Proffil sampl o bobl ifanc a gymerodd ran yn yr arolwg meintiol **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 4: Proffil sampl o rieni a gymerodd ran yn yr arolwg meintiol .........**Error! Bookmark not defined.**

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys canfyddiadau o raglen o gasglu data meintiol ac ansoddol sy'n archwilio agweddau, canfyddiadau ac ymwybyddiaeth o COVID-19 a brechlynnau ffliw ymhlith pobl ifanc 11 i 25 mlwydd oed a rhieni pobl ifanc 11 i 16 mlwydd oed. Cynhaliwyd yr astudiaeth gan BMG Research ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru.


## 1.1 Cefndir

Imiwneiddio yw'r ffordd bwysicaf o amddiffyn unigolion a'r gymuned rhag rhai clefydau y gellir eu hatal drwy frechu. Mae rhaglen frechu genedlaethol sefydledig yng Nghymru, ac yn 2005 sefydlwyd y Rhaglen Clefydau y gellir eu Hatal drwy Frechu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi hyn.

Hyd at haf 2021, cynigiwyd pedwar brechlyn fel mater o drefn i bobl ifanc rhwng 12-16 mlwydd oed: MenACWY (i ddiogelu rhag llid yr ymennydd a septisemia), Td/IPV 'brechiad atgyfnerthu yn yr arddegau (i ddiogelu rhag tetanws, difftheria a polio)'; HPV (a gynigir i ferched cyn blwyddyn ysgol 2019/20 yn unig, i ddiogelu rhag y feirws Papiloma Dynol, sy'n gallu achosi dafadennau gwenerol, canser ceg y groth, canser yr rhefr a rhai mathau o ganser y pen a'r gwddf); a hefyd MMR (i amddiffyn rhag y frech goch, clwy'r pennau a rwbela) i'r rhai nad ydynt wedi cael dau ddos o'r blaen.

Mae'r ffigur isod yn dangos bod dros 8 o bob 10 o bobl ifanc wedi derbyn pob un o'r brechiadau a amlinellwyd uchod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2021.

**Ffigur 0: Pobl ifanc yn eu harddegau sydd wedi manteisio ar y brechlyn yng Nghymru**




Ffynhonnell: Crynodeb o'r cyfraddau brechu ymhlith plant preswyl rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2021, Iechyd Cyhoeddus Cymru. http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=457&pid=54144

O haf 2021 ymlaen, cafodd y rhaglen frechu yng Nghymru ei hymestyn: Dechreuodd GIG Cymru gynnig y brechlyn COVID-19 i bob plentyn a pherson ifanc 12 mlwydd oed a throsodd, yn ogystal ag ymestyn y rhaglen ffliw i ysgolion uwchradd 11-16 mlwydd oed.

Mae ymchwil blaenorol (Freeman et al., 2021) yn dangos bod pobl ifanc yn fwy tebygol o fod yn betrusgar o ran y brechlynnau hyn, yn rhannol oherwydd canfyddiad eu bod mewn llai o berygl o fynd yn ddifrifol wael o COVID-19 neu'r ffliw. Am y rheswm hwn, comisiynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru BMG i gynnal astudiaeth o ymwybyddiaeth, defnydd a chanfyddiadau o frechlynnau COVID-19 a ffliw i bobl ifanc.

## 1.2 Amcanion yr astudiaeth

Mae'r astudiaeth yn archwilio ymwybyddiaeth ymhlith rhieni a phobl ifanc am y brechlynnau COVID-19 a ffliw a gynigir i'r rhai rhwng 11 a 25 mlwydd oed, agweddau tuag at y brechiadau hyn, cyhoeddusrwydd a gwybodaeth am y brechiadau a gafwyd, a pha mor bell y gellir ymddiried yn y wybodaeth hon. Archwiliwyd hefyd farn ar ddeunyddiau cyfathrebu â brand Iechyd Cyhoeddus Cymru, a sut mae rhieni a phobl ifanc yn gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylai pobl ifanc gael eu brechu ai peidio.

Mae'r astudiaeth wedi'i chynllunio i wneud y canlynol:

- Llywio'r gwaith o gynllunio'r rhaglen frechu genedlaethol yng Nghymru
- Sicrhau bod cyfathrebu Iechyd Cyhoeddus Cymru â rhieni a phobl ifanc yn diwallu eu hanghenion gwybodaeth
- Canfod p’un a hoffai pobl ifanc gymryd rhan fel asiantau newid i'w cyfoedion ac mewn cyd-gynhyrchu deunyddiau sy'n darparu gwybodaeth am frechlynnau i bobl ifanc
- Datblygu dealltwriaeth ddyfnach o hyder mewn brechlynnau yng Nghymru.

## 1.3 Methodoleg

Mae dwy elfen i fethodoleg yr astudiaeth: arolwg meintiol a grwpiau ffocws ansoddol.

### 1.3.1 Arolwg meintiol

Cynhaliwyd cyfweliadau fel rhan o'r arolwg gan ddefnyddio Cyfweliadau â Chymorth Cyfrifiadur (CAWI). Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 11 Ionawr a 2 Chwefror 2022.

Roedd dwy fersiwn o'r arolwg, un ar gyfer rhieni pobl ifanc 11 i 16 mlwydd oed, ac un ar gyfer pobl ifanc 11 i 25 mlwydd oed. Roedd y ddau arolwg yn cynnwys cwestiynau tebyg iawn, gydag amrywiadau testun yn dibynnu ar p’un a oedd y cwestiynau’n cael eu gofyn i rieni neu bobl ifanc.

Bydd yn cymryd tua 15 munud i'w gwblhau.

Llenwodd cyfanswm o 230 o rieni a 457 o bobl ifanc yr arolwg. Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan ymatebwyr y panel tra bod lleiafrif wedi'u cwblhau drwy gyswllt agored a ddosbarthwyd gan gydlynwyr ysgolion iach:

| | Cyfanswm | Panel | Dolen agored |
|---|---|---|---|
| **Rhieni pobl ifanc 11-16 mlwydd oed** | 230 | 210 | 20 |
| **Pobl ifanc 11-25 mlwydd oed** | 457 | 403 | 54 |

Mae amlinelliad o broffil yr ymatebwyr a gymerodd ran yn yr arolwg meintiol ar gael yn yr atodiadau.

### 1.3.2 Grwpiau ffocws ansoddol

Cynhaliwyd grwpiau ffocws i archwilio themâu'r arolwg yn fanylach, gyda phwyslais ar ddatgelu'r rhesymeg y tu ôl i agweddau tuag at frechlynnau, yn ogystal ag anghenion gwybodaeth.

Cynhaliwyd cyfanswm o chwe grŵp ffocws gyda rhieni/gofalwyr a phobl ifanc i roi cipolwg pellach ar y canfyddiadau meintiol. Cynhaliwyd un o'r grwpiau hyn gyda rhieni, un â gofalwyr pobl ifanc ag anableddau dysgu, a phedwar gyda phobl ifanc eu hunain rhwng 11 a 25 mlwydd oed (gyda grwpiau wedi'u rhannu yn ôl ystod oedran)

Recriwtiwyd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr gan ddefnyddio recriwtwyr proffesiynol, a chafodd chyfranogwyr ag anableddau dysgu a'u gofalwyr gyswllt gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru ac optio i mewn drwy e-bost.

Cymerodd cyfanswm o 12 o bobl ifanc ran mewn grwpiau ffocws, yn ogystal â 6 rhiant a 2 ofalwr i bobl ifanc ag anableddau dysgu. Mae rhagor o wybodaeth am broffil cyfranogwyr a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws ansoddol yn yr atodiadau.

Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 14 Chwefror a 3 Mawrth 2022.

Cynhaliwyd y grwpiau ffocws ar-lein, gan ddefnyddio meddalwedd Visions Live i gynnal pob sesiwn yn ddiogel.

Fe wnaeth pob grŵp ffocws bara tua 1 awr. Derbyniodd ymatebwyr a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws ansoddol daleb rhodd fel diolch am eu hamser.

## 1.4 Ynglŷn â’r adroddiad hwn

### 1.4.1 Pwysoli

Mae data'r arolwg a ddefnyddir ar gyfer yr adroddiad hwn wedi cael ei bwysoli i sicrhau bod y data'n cynrychioli poblogaeth Cymru o bobl ifanc rhwng 11 a 25 mlwydd oed. Mae data'r arolwg pobl ifanc wedi cael ei bwysoli yn ôl oedran, rhyw, ethnigrwydd, bwrdd iechyd, a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WMD).

Cafodd data'r arolwg rhieni hefyd ei bwysoli i fod yn gynrychioliadol yn ôl oedran y plentyn/plant, y bwrdd iechyd, a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WMD).

### 1.4.2 Profion arwyddocâd

Drwy gydol yr adroddiad, trafodir y canlyniadau o ran gwahaniaethau rhwng is-grwpiau a’r canlyniad cyfan. Profwyd is-grwpiau am arwyddocâd gyda phrawf T dwy-gynffon ar gyfrannau colofnau. Ystyrir bod gwahaniaethau'n sylweddol ar y cyfwng hyder o 95%, sy'n golygu mai dim ond 5% o bosibilrwydd sydd i'r gwahaniaeth ddigwydd ar hap yn hytrach na thrwy fod yn wahaniaeth gwirioneddol. Mae hon yn lefel hyder a dderbynnir yn gyffredin.

Mae'r holl wahaniaethau a nodir yn yr adroddiad hwn yn ystadegol arwyddocaol oni nodir yn wahanol.

#### 1.4.3 Talgrynnu

Mae'r data a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn wedi'u talgrynnu i fyny neu i lawr i'r pwynt canran cyfan agosaf. Oherwydd hyn, ar adegau, gall tablau neu siartiau adio i 99% neu 101%.

#### 1.4.4 Confensiynau adrodd

Mae symbol *% yn dangos canran sy'n fwy na 0 ond yn is na 0.5%.

Er mwyn hwyluso darllen, defnyddir y gair *rhieni* drwy gydol yr adroddiad i gyfeirio at rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid a gymerodd ran yn yr arolwg meintiol neu grwpiau ffocws ansoddol.

Er hwylustod adrodd gweledol, mae enwau'r brechiadau isod wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

- Tetanws, difftheria, a polio Td/IPV (Brechiad atgyfnerthu ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau neu "3 mewn 1") →Brechiad atgyfnerthu i'r arddegau
- MenACWY (yn amddiffyn rhag Llid yr Ymennydd, clefyd meningococaidd, septisemia neu wenwyn gwaed) → MenACWY
- Brechlyn HPV (yn amddiffyn rhag canser ceg y groth) → HPV
- MMR (Y frech goch, Clwy'r pennau a Rwbela gyda'i gilydd) → MMR

## 2. Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau o raglen o gasglu data sy'n archwilio agweddau, canfyddiadau ac ymwybyddiaeth o COVID-19 a brechlynnau ffliw ymhlith pobl ifanc 11 i 25 mlwydd oed a rhieni pobl ifanc 11 i 16 mlwydd oed.

Mae'r canfyddiadau a gyflwynwyd yn deillio o'r dadansoddiad o arolwg meintiol gyda 230 o rieni a 457 o bobl yn ogystal â chwe grŵp ffocws ansoddol gyda rhieni a phobl ifanc. Cynhaliwyd yr astudiaeth gan BMG ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022.

### 2.1 Ymwybyddiaeth o frechu

Mae mwyafrif helaeth y rhieni (94%) a'r bobl ifanc (88%) a gafodd eu holi yn dweud eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am imiwneiddiadau i bobl ifanc yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, mae pobl ifanc nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn brif iaith iddynt yn llai tebygol o fod wedi dod ar draws gwybodaeth am frechu yn ystod y 12 mis diwethaf.

O ran ymwybyddiaeth o'r brechiadau sydd ar gael i bobl ifanc, y brechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw yw'r brechlynnau a gynigir i bobl ifanc y mae rhieni a phobl ifanc yn fwyaf tebygol o fod yn ymwybodol ohonynt. Mae dros 8 o bob 10 rhiant (85%) a phobl ifanc (86%) yn dweud eu bod nhw'n ymwybodol fod y brechlyn COVID-19 yn cael ei gynnig i bobl ifanc, ac mae tua 6 o bob 10 rhiant (66%) a phobl ifanc (57%) yn dweud hynny am y brechlyn ffliw.

At hynny, mae mwyafrif y rhieni (85%) a phobl ifanc 11 i 16 mlwydd oed (76%) yn ymwybodol bod y brechlyn ffliw yn cael ei gynnig i blant a phobl ifanc (hyd at flwyddyn ysgol 11) fel chwistrell trwyn yn hytrach na phigiad. Mae grwpiau ffocws ansoddol yn dangos bod chwistrell trwyn yn cael ei ffafrio fel dull gweinyddu dros bigiadau.

## 2.2 Agweddau tuag at frechu

Mae o leiaf 55% o rieni a 45% o bobl ifanc yn ystyried yr holl glefydau mae'r rhaglen frechu ar gyfer pobl ifanc yn eu hamddiffyn rhagddynt yn ddifrifol iawn neu'n weddol ddifrifol i'r person ifanc pe baent yn cael y rhain. Mae COVID-19 a'r ffliw yn cael eu hystyried ymhlith y clefydau lleiaf difrifol i bobl ifanc ymhlith rhieni a phobl ifanc. O ran difrifoldeb i gymdeithas pe bai'r person ifanc yn cael y clefydau hyn, ystyrir mai COVID-19 yw'r mwyaf difrifol i gymdeithas ymhlith rhieni a phobl ifanc, gyda thua 7 o bob 10 rhiant (76%) a phobl ifanc (77%) yn dweud y byddai'n ddifrifol iawn neu'n weddol ddifrifol i gymdeithas pe bydden nhw/eu plentyn yn cael COVID-19. Fodd bynnag, ystyrir bod y ffliw ychydig yn llai difrifol i gymdeithas na COVID-19, gyda 62% o rieni a 53% o bobl ifanc yn dweud y byddai'n ddifrifol iawn neu'n weddol ddifrifol i gymdeithas pe bydden nhw/eu plentyn yn cael y ffliw.

O ran barn am ddiogelwch brechiadau, mae'r rhan fwyaf o rieni a phobl ifanc (61% yn y drefn honno) yn cytuno bod pob brechiad yn peri risg is i unigolion na'r clefydau maen nhw’n amddiffyn rhagddynt. Ymhlith y lleiafrif sy'n credu'r gwrthwyneb, COVID-19 yw'r brechiad mwyaf tebygol o gael ei ystyried yn fwy peryglus na'r clefyd ei hun, gyda thua 1 o bob 5 rhiant (20%) a phobl ifanc (19%) yn dweud hyn. Mae llai nag 1 o bob 10 yn credu bod y brechlyn ffliw yn waeth na'r clefyd ei hun (6% o rieni a 5% o bobl ifanc).

Er bod y rhan fwyaf o rieni a phobl ifanc yn cytuno bod y brechlyn ffliw wedi'i brofi'n briodol a'u bod yn ymddiried yn y brechlyn (dros 7 o bob 10 rhiant a thros 6 o bob 10 o bobl ifanc), mae rhai pryderon ynghylch sgil-effeithiau'r brechlyn ffliw (29% o rieni a 30% o bobl ifanc). Er hynny, mae pryderon am sgil-effeithiau a chynhwysion yn fwy cyffredin pan ofynnir iddynt am y brechlyn COVID-19 o gymharu â'r brechlyn ffliw (40% o rieni ac yn pryderu am gynhwysion y brechlyn COVID-19 ac mae 61% yn poeni am sgil-effeithiau). Ymhlith pobl ifanc, mae 52% yn poeni am sgil-effeithiau'r brechlyn COVID-19 ac mae 32% yn pryderu am gynhwysion y brechlyn COVID-19). Yn ogystal â hyn, mae ymddiriedaeth a chytundeb bod y brechlyn COVID-19 wedi'i brofi'n briodol yn is na phan ofynnwyd iddynt am y brechlyn ffliw. Mae tua chwarter y bobl ifanc (24%) a rhieni (25%) yn anghytuno bod y brechlyn COVID-19 wedi cael ei brofi'n briodol. Ac mae tua 1 o bob 5 rhiant (22%) a phobl ifanc (20%) yn drwgdybio'r brechlyn COVID-19.

Mae'r agweddau hyn yn ymwneud â'r nifer sy'n manteisio ar y brechlyn, gyda rhieni nad yw eu plentyn wedi cael y brechlyn COVID-19 na'r ffliw ac nad ydynt yn bwriadu iddynt gael yr imiwneiddiadau hyn, a phobl ifanc nad ydynt wedi cael ac nad ydynt yn bwriadu cael y brechlynnau hyn, yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod yn pryderu am gynhwysion a sgil-effeithiau.

## 2.3 Cael gwybodaeth a gwneud penderfyniad

Mae gwefan y GIG, taflenni'r GIG a theledu ymhlith y ffynonellau gwybodaeth mwyaf cyffredin mae rhieni a phobl ifanc wedi'u defnyddio i gael gwybodaeth am frechlyn COVID-19 a’r brechlyn ffliw. I bobl ifanc, mae'r teulu hefyd yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth. Er mai ffynonellau rhyngrwyd, a ffynonellau sy'n ymwneud â darparwyr neu leoliadau gofal

iechyd yn gyffredinol, yw'r rhai a ddefnyddir amlaf gan rieni a phobl ifanc, mae'n amlwg bod y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio'n fwy cyffredin gan bobl ifanc na rhieni i gael gwybod am frechlynnau COVID-19 a brechlynnau ffliw (mae 38% o bobl ifanc yn dweud eu bod wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, o gymharu â 17% o rieni). Ymhlith pobl ifanc, y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a grybwyllir amlaf yw TikTok (14%), Facebook (14%), ac Instagram (14%). Mae dadansoddiad pellach yn dangos bod gwybodaeth a dderbynnir drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn llai tebygol na'r cyffredin o gyfleu negeseuon o blaid brechu ymhlith rhieni, ac yn fwy tebygol o gyfleu cymysgedd o negeseuon o blaid ac yn erbyn brechu ymhlith pobl ifanc.

Os oeddent am gael gwybodaeth am frechlynnau COVID-19 a ffliw i bobl ifanc, mae rhieni a phobl ifanc yn fwyaf tebygol o ddweud y byddent yn defnyddio gwefan y GIG a thaflenni'r GIG, yn ogystal â ffynonellau eraill sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Mae pobl ifanc hefyd yn dyfynnu teulu fel ffynhonnell wybodaeth os oeddent am gael gwybod mwy am y brechlynnau hyn. Er mai dim ond lleiafrif sy'n dweud y byddent yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, mae rhieni sy'n amheus ynghylch brechlynnau, rhieni anabl a rhieni sy'n cael eu hystyried yn glinigol agored i niwed yn fwy tebygol na'r cyffredin o ddweud y byddent yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ddysgu mwy am frechlynnau COVID-19 a ffliw i'w plant. Ymhlith pobl ifanc, mae'r rhai o gefndiroedd BAME a'r rhai nad y Gymraeg neu Saesneg yw eu prif iaith yn fwy tebygol o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gael gwybodaeth am frechu.

Gan symud ymlaen at wneud penderfyniadau, mae lefelau cymysg o ymwybyddiaeth am bobl ifanc 13 mlwydd oed a throsodd yn gallu rhoi eu caniatâd eu hunain ar gyfer brechu os oes problem cael caniatâd gan rieni. Mae tua 6 o bob 10 rhiant a pherson ifanc rhwng 13 a 17 mlwydd oed yn ymwybodol o hyn tra nad yw tua 4 o bob 10 yn ymwybodol.

Yn gyffredinol, mae 31% o bobl ifanc yn dweud eu bod wedi anghytuno â'u rhieni ar ryw adeg wrth wneud penderfyniad ar frechu, ac mae 16% o rieni'n dweud eu bod wedi anghytuno â'u plentyn.

Mae anghysondebau rhwng rhieni a phobl ifanc 13-19 mlwydd oed o ran barn pwy yw'r prif benderfynwr ynghylch a ddylai'r person ifanc gael ei frechu ai peidio, gyda rhieni'n llai tebygol na phobl ifanc o ystyried mai'r person ifanc yw'r prif benderfynwr. Mae 38% o bobl ifanc 13 i 19 mlwydd oed yn dweud mai nhw sydd bob amser wedi gwneud penderfyniad o ran p’un a ydynt yn cael eu brechu ai peidio, sy'n cymharu â 15% o rieni a ddywedodd mai’r person ifanc sydd wedi gwneud y penderfyniad hwnnw bob amser. Yn ogystal, mae 1 o bob 5 (21%) o bobl ifanc yn dweud bod y penderfyniad i gael eu brechu wedi bod yn un ar y cyd, o'i gymharu â 44% o rieni a ddywedodd fod hyn yn wir. Mae 1 o bob 3 (33%) o bobl ifanc yn dweud mai’r rhieni sydd bob amser wedi penderfynu p’un a ydynt yn cael eu brechu ai peidio (o gymharu â 40% o rieni a ddywedodd hyn).

Yr opsiwn lleiaf ffafriol i bobl ifanc 13 i 19 mlwydd oed yw mai rhieni yw'r unig rai sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylai'r person ifanc gael ei frechu ai peidio (19%), gyda chyfran y bobl ifanc y mae'n well ganddynt wneud eu penderfyniad eu hunain yn cynyddu gydag oedran.

## 2.4 Manteisio ar y brechlyn, rhwystrau a chymhellion

Mae mwyafrif y rhieni (57%) a'r bobl ifanc (72%) a gafodd eu holi yn dweud bod eu plentyn/eu bod nhw wedi cael brechlyn COVID-19 am ddim. Mae cyfran debyg o rieni (71%) yn dweud bod eu plentyn/plant wedi cael brechlyn ffliw. Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc 11 i 16

mlwydd oed hefyd yn dweud eu bod wedi cael brechlyn ffliw am ddim (64%), gyda'r nifer sy'n manteisio ar y brechlyn yn is ar gyfer grwpiau oedran hŷn nad yw'r brechlyn ffliw ar gael i bawb.

Dim ond lleiafrif bach o bobl ifanc nad ydynt wedi cael y brechlynnau hyn sy'n dweud nad ydynt yn bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol (dywedodd 19 o bobl ifanc 11-16 mlwydd oed nad ydynt wedi cael brechlyn ffliw am ddim yn dweud nad ydynt yn bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol, a dywedodd 55 o bobl ifanc rhwng 11 a 25 mlwydd oed nad ydynt wedi cael brechlyn COVID-19 am ddim yn dweud nad ydynt yn bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol neu unwaith y byddant yn dod yn gymwys).

Ymhlith rhieni a phobl ifanc sy'n dweud nad ydyn nhw/eu plentyn wedi cael y brechlyn COVID-19 ac nad ydynt yn bwriadu ei gael yn y dyfodol, mae pryderon nad yw'r brechlyn COVID-19 wedi cael ei brofi'n briodol a phryderon am sgil-effeithiau ymhlith y rhwystrau sy’n cael eu crybwyll amlaf. I'r gwrthwyneb, mae'r themâu hyn yn cael eu crybwyll yn llai cyffredin fel rhwystrau i gymryd y brechlyn ffliw, gydag ymddiriedaeth yn systemau imiwnedd pobl ifanc a chanfyddiad nad yw'r ffliw yn salwch digon difrifol fel y rhesymau mwyaf cyffredin dros beidio â bwriadu cael y brechlyn ffliw ymhlith rhieni a phobl ifanc.

O ran cymhellion, amddiffyn yr unigolyn ac eraill mewn cymdeithas yw'r rhesymau a nodwyd amlaf dros gael y brechlyn COVID-19 ymhlith rhieni a phobl ifanc, ac yna canfyddiad mai dyma'r peth iawn i'w wneud neu'r hyn sydd ei angen i drechu'r feirws. Y prif gymhellion hyn sy'n ymwneud ag amddiffyn neu’r peth iawn i'w wneud hefyd yw'r rhesymau mwyaf cyffredin dros gael y brechlyn ffliw.

## 2.5 Ymwybyddiaeth a safbwyntiau ar gyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae tua 6 o bob 10 rhiant (66%) a phobl ifanc (61%) yn dweud eu bod wedi gweld o leiaf un daflen Iechyd Cyhoeddus Cymru neu neges ar y cyfryngau cymdeithasol yn ymwneud â brechlynnau COVID-19 a'r ffliw i bobl ifanc, gyda Facebook a chanolfannau brechu y sianeli mwyaf cyffredin o ddod ar draws y cyhoeddusrwydd hwn.

Mae 67% o rieni a 61% o bobl ifanc yn dweud eu bod yn fodlon ar y cyfan â'r cyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru a ddangoswyd iddynt. Mae cyfrannau tebyg yn mynegi boddhad pan ofynnwyd iddynt am y dyluniad/cynllun, faint o wybodaeth a pha mor hawdd yw deall gwybodaeth o ddeunyddiau cyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru a ddangoswyd iddynt.

Cafwyd rhai awgrymiadau gan gyfranogwyr mewn grwpiau ffocws i wella taflenni Iechyd Cyhoeddus Cymru ar frechiadau COVID-19 a’r ffliw i bobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys: cael mwy nag un lliw, cael llinell stori o'r wybodaeth, a chael fideos gyda chymeriadau cartŵn i esbonio'r wybodaeth.

Mae grwpiau ffocws ansoddol yn dangos bod taflenni a phosteri yn bwysig ar gyfer rhoi gwybodaeth am frechiadau i bobl ifanc, yn enwedig mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr mewn grwpiau ffocws, yn enwedig y rhai 13+ mlwydd oed, hefyd yn cytuno y byddai'r cyfryngau cymdeithasol yn sianel effeithiol i gyfleu gwybodaeth am frechiadau i bobl ifanc eu hoedran nhw. Mae mewnwelediadau ansoddol yn dangos bod pobl ifanc yn dod ar draws gwybodaeth am frechu ar gyfryngau cymdeithasol hyd yn oed pan nad ydynt yn chwilio amdano.

O ran cyd-gynhyrchu, byddai'r rhan fwyaf o bobl ifanc a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws ansoddol yn fodlon cydweithio â Iechyd Cyhoeddus Cymru i greu deunyddiau i roi gwybodaeth i bobl ifanc am eu hoedran am frechlynnau, gyda sianelau ar-lein yn cael eu hystyried fel y rhai mwyaf cyfleus i wneud hyn.

## 3. Argymhellion

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adroddiad hwn, argymhellir bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystyried cymryd y camau canlynol i wella gweithrediad y rhaglen imiwneiddio a'r nifer sy'n manteisio ar frechiadau COVID-19 a brechiadau rhag y ffliw ymhlith pobl ifanc:

- **Rhoi sicrwydd i rieni a phobl ifanc am sgil-effeithiau a chynhwysion brechlynnau, yn enwedig brechlyn COVID-19.** Ystyrir mai'r brechlyn COVID-19 yw'r lleiaf diogel o'r holl frechlynnau a gynigir i bobl ifanc 11 mlwydd oed a hŷn ymhlith rhieni a phobl ifanc (gweler tudalen 32). At hynny, y brechlyn COVID-19 yw'r mwyaf tebygol o gael ei ystyried yn waeth i bobl ifanc na'r clefyd mae'n eu hamddiffyn rhagddo (gweler tudalen 34). Mae cyfran y rhieni a'r bobl ifanc sy'n cytuno eu bod yn pryderu am sgil-effeithiau a chynhwysion brechlyn COVID-19 yn fwy na'r cyfrannau sy'n anghytuno (gweler tudalennau 67-68). Mae rhai pryderon hefyd am hyn o ran y brechlyn ffliw, er i raddau llai (gweler tudalennau 50-52). Ar gyfer y brechlynnau ffliw a COVID-19, mae dadansoddiad[1] atchweliad yn cadarnhau bod y pryderon hyn yn sbardun i wrthod y brechlynnau hyn tra bod diffyg pryder am gynhwysion a sgil-effeithiau yn gysylltiedig â mwy o bobl yn manteisio ar yr imiwneiddiadau hyn. At hynny, mae grwpiau ffocws ansoddol yn dangos bod pobl ifanc yn credu ei bod yn bwysig cael gwybodaeth sy'n herio mythau ar frechlynnau, megis mythau ynghylch cynhwysion a sgil-effeithiau (gweler tudalen 94).
- **Cyfleu difrifoldeb clefydau, yn enwedig y ffliw.** Mae COVID-19 a'r ffliw yn dod ar waelod y rhestr o ran difrifoldeb canfyddedig pobl ifanc. Fodd bynnag, er bod COVID-19 yn dod tuag at frig y rhestr o ran difrifoldeb cymdeithas, mae 31% o rieni a 39% o bobl ifanc yn dweud na fyddai'n ddifrifol i gymdeithas pe bydden nhw/eu plentyn yn cael y ffliw.
- **Defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel sianel i gyfleu gwybodaeth am frechu i bobl ifanc a rhieni.** Mae data meintiol yn dangos bod y wybodaeth am frechu a gafwyd ar gyfryngau cymdeithasol yn fwy tebygol o gyfleu negeseuon cymysg o blaid ac yn erbyn brechu (gweler tudalen 22). At hynny, mae rhieni sy'n amheus ynghylch brechu yn fwy tebygol na'r cyffredin o ddweud y byddent yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol pe byddent am gael gwybod mwy am frechiadau ar gyfer eu plentyn/plant (21%). Felly, mae'n bwysig cael gwybodaeth wedi'i rheoleiddio ar gyfryngau cymdeithasol i wrthwynebu'r negeseuon cymysg hyn gyda gwybodaeth ffeithiol. Yn ogystal, mae data ansoddol yn dangos bod pobl ifanc yn ystyried bod y cyfryngau cymdeithasol yn sianel bwysig i roi gwybod i bobl eu hoedran nhw am frechiadau a bod hon yn sianel lle maen nhw'n dod ar draws gwybodaeth yn oddefol am frechu (gweler tudalen 93).
- **Ystyried partneriaeth â dylanwadwyr ac enwogion i roi gwybod i bobl ifanc am fanteision brechlynnau.** Efallai y bydd angen ymchwil neu ymgysylltu pellach â

[1] Mae dadansoddiad atchweliad yn fath o ddadansoddiad ystadegol a ddefnyddir i ddeall a oes perthynas rhwng gwahanol newidynnau ac i ba raddau mae perthynas.

phobl ifanc i sefydlu'r personoliaethau mwyaf dylanwadol mae pobl ifanc yn meddwl yn fawr ohonynt, ond mae rhai cyfranogwyr mewn grŵp ffocws ansoddol o'r farn y byddai dylanwadwyr ac enwogion yn llysgenhadon brechu effeithiol i bobl ifanc (gweler tudalen 93).

- **Bydd taflenni a phosteri yn dal i chwarae rhan bwysig, yn enwedig mewn ysgolion, i roi gwybod i bobl ifanc am y brechiadau sydd ar gael a rhoi gwybodaeth am y rhain.** Taflenni'r GIG yw'r ail ffynhonnell a nodwyd fwyaf y byddai rhieni a phobl ifanc yn ei defnyddio pe baent am gael gwybod mwy am frechlynnau COVID-19 a brechlynnau ffliw (gweler tudalen 86). At hynny, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc o oedran ysgol a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws ansoddol yn dweud y byddent yn defnyddio hysbysebion yn yr ysgol neu ychydig y tu allan i'r ysgol pe baent yn gyfrifol am roi gwybod i bobl eu hoedran nhw am frechu (gweler tudalen 93).
- **Sicrhau bod rhieni'n cael gwybodaeth gyfredol, o safon am frechiadau y gallant ei defnyddio wrth siarad â'u plant.** Mae mwyafrif (65%) o bobl ifanc o dan 16 mlwydd oed yn dweud, wrth wneud penderfyniad ar frechu, ei bod yn well ganddynt naill ai wneud penderfyniad ar y cyd â'u rhieni (43%), neu adael i'r rhiant wneud y penderfyniad (22%), gyda chyfran is (35%) o'r rhai o dan 16 mlwydd oed yn dweud y byddai'n well ganddynt wneud eu penderfyniad eu hunain. Felly, mae'n bwysig bod gwybodaeth ffeithiol o ansawdd uchel ar gael i rieni fel y gallant helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus. Gwefan y GIG, taflenni'r GIG a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yw'r ffynonellau mae rhieni yn fwyaf tebygol o ymgynghori â nhw os oeddent am gael gwybod mwy am frechiad COVID-19 a brechiad rhag y ffliw i'r plant. Mae hefyd yn bwysig bod rhieni'n gallu cael gafael ar gynnwys am frechiadau sy'n hygyrch ac yn ddeniadol fel y gallant ei rannu â'u plant.
- **Defnyddio optimeiddio peiriannau chwilio i sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i wybodaeth am frechu ar wefan y GIG.** Y ffynhonnell mae rhieni a phobl ifanc yn fwyaf tebygol o'i defnyddio os oeddent am gael gwybod mwy am frechlynnau COVID-19 a brechlynnau rhag y ffliw yw gwefan y GIG (49% o bobl ifanc a 60% o rieni). Mae rhieni a phobl ifanc sydd wedi gweld gwybodaeth am frechu ar y rhyngrwyd yn llai tebygol na'r cyfartaledd o ddweud bod y wybodaeth hon o blaid brechu (gweler tudalen 23), felly mae'n bwysig sicrhau bod gwybodaeth sy'n cael ei rheoleiddio o wefan y GIG yn dod ar frig y chwiliadau pan fydd rhieni a phobl ifanc yn pori am wybodaeth ar-lein.
- **Gwella a datblygu'r sianeli ar gyfer cyfathrebu pa frechiadau sydd ar gael (a manteision y rhain) i grwpiau o bobl ifanc sy'n anos eu cyrraedd.** Mae data meintiol ac ansoddol yn dangos bod pobl ifanc 16+ mlwydd oed nad ydynt mewn addysg na chyflogaeth a rhieni sy'n dysgu eu plant gartref yn fwy tebygol o fod yn anymwybodol am y brechiadau sydd ar gael. Felly, rydym yn argymell bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal ymchwil ychwanegol i ganfod y ffyrdd gorau o gyfleu'r brechiadau sydd ar gael i'r grwpiau hyn yn ogystal â rhoi gwybod iddynt sut i drefnu apwyntiadau brechu. Gallai'r rhain gynnwys drwy ganolfannau gwaith a chanolfannau cymunedol ar gyfer y rhai 16+ mlwydd oed nad ydynt mewn addysg a chyflogaeth, a thrwy gynghorau ar gyfer rhieni sy'n dysgu eu plant gartref.
- **Cael pobl ifanc i gymryd rhan fel asiantau dros newid i'w cyfoedion ac i gyd-gynhyrchu deunyddiau i roi gwybod i bobl ifanc am frechiadau.** Mae grwpiau ffocws ansoddol yn dangos y byddai'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn barod i gymryd rhan

yn y gwaith o gyd-gynhyrchu deunyddiau am frechu, gyda sianelau ar-lein yn cael eu hystyried fel y rhai mwyaf priodol ar gyfer hyn. I'r rhai sy'n fwy di-hidi, dylid ystyried cymhellion ariannol i annog pobl i gymryd rhan yn hyn (gweler tudalen 95).

# 4. Ymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd am iechyd pobl ifanc

## 4.1 Cyflwyniad


Cyn i ymatebwyr gael eu holi am eu canfyddiadau a'u gwybodaeth am y rhaglen imiwneiddio rhag y ffliw a COVID-19 ar gyfer pobl ifanc, gofynnwyd iddynt am eu hymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd ynghylch brechiadau yn gyffredinol ac ymwybyddiaeth gyffredinol o'r wybodaeth sydd ar gael am frechu. Ar yr adeg hon yn yr arolwg, nid oedd yr ymatebwyr yn gwybod bod yr astudiaeth yn ymwneud â brechiadau, ac mae hyn yn arwain at wir ddarlleniad ar ymwybyddiaeth. Mae'r adran hon yn edrych ar ymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd am frechiadau mewn cyd-destun iechyd ehangach, cyn canolbwyntio ar imiwneiddiadau penodol.

## 4.2 Cofio gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd ar gyfer pobl ifanc

Mae Ffigur 1 isod yn dangos y cyfrannau o rieni a phobl ifanc sy'n cofio eu bod wedi gweld, clywed neu ddarllen unrhyw beth am iechyd pobl ifanc yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae chwech o bob deg (62%) o rieni a phobl ifanc (63%) yn dweud eu bod wedi gweld, clywed neu ddarllen gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd pobl ifanc yn ystod y 12 mis diwethaf.

**Ffigur 1: Ydych chi wedi gweld, clywed neu ddarllen unrhyw beth am iechyd pobl ifanc yn ystod y 12 mis diwethaf?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
A1

Mae'r grwpiau canlynol o rieni yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi gweld gwybodaeth am iechyd pobl ifanc: rhieni 41 i 45 mlwydd oed (73%), a rhieni sydd â mwy nag un plentyn 11 i 16 mlwydd oed (72%). I'r gwrthwyneb, mae'r grwpiau canlynol o rieni yn llai tebygol o fod wedi gweld gwybodaeth am iechyd pobl ifanc yn ystod y 12 mis diwethaf: rhieni sy'n byw

ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (43%), a rhieni sydd ag un plentyn yn unig rhwng 11 ac 16 mlwydd oed (57%).


Ymhlith pobl ifanc, mae'r grwpiau canlynol yn fwy tebygol o fod wedi dod ar draws gwybodaeth am iechyd pobl ifanc yn ystod y 12 mis diwethaf: ymatebwyr sy'n byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (81%) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (77%), ymatebwyr crefyddol (71%), a'r rhai â'r Gymraeg neu Saesneg fel eu prif iaith (64%). Ar y llaw arall, mae'r grwpiau canlynol o bobl ifanc yn llai tebygol o fod wedi gweld neu glywed gwybodaeth am iechyd pobl ifanc: ymatebwyr nad y Gymraeg neu Saesneg yw eu prif iaith (42%), y rhai y bernir eu bod mewn cwintel amddifadedd 4 (48%), (y cwintel lleiaf difreintiedig yw 1 a'r mwyaf difreintiedig yw 5), y rhai sy'n byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (49%), ac ymatebwyr nad ydynt yn grefyddol (60%).

Yna gofynnwyd i'r rhai sy'n cofio dod ar draws gwybodaeth am iechyd pobl ifanc ddewis, o'r rhestr yn Ffigur 2, beth oedd diben y wybodaeth yr oeddent wedi dod ar ei thraws.

Ymhlith rhieni, y pwnc sy'n ymwneud ag iechyd pobl ifanc maen nhw'n fwyaf tebygol o fod wedi clywed amdano yw imiwneiddiadau/brechiadau, gyda thri chwarter (75%) o rieni sydd wedi clywed gwybodaeth am iechyd pobl ifanc yn dweud ei fod yn ymwneud â brechiadau. Dilynir hyn gan iechyd meddwl (70%). Ymhlith pobl ifanc, fodd bynnag, iechyd meddwl yw'r mater maen nhw'n fwyaf tebygol o fod wedi clywed amdano (64%), ac yna bwyta'n iach/maeth (51%) ac imiwneiddiadau (51%)

Yn ogystal, mae cyfran debyg o rieni (42%) a phobl ifanc (42%) yn cofio dod ar draws gwybodaeth mewn perthynas â heintiau neu feirysau.

**Ffigur 2: Ac am beth oedd hyn?**





Sylfaen: Y rhai oedd wedi gweld, clywed neu ddarllen unrhyw beth am iechyd pobl ifanc yn ystod y 12 mis diwethaf - Rhieni (139) - Pob Person Ifanc (282)
A2

## 4.3 Cofio cyhoeddusrwydd yn ymwneud â brechu i bobl ifanc

Yna gofynnwyd cwestiwn ar wahân i'r rhai na soniodd am frechiadau uchod ynghylch a oeddent wedi clywed neu ddarllen unrhyw beth am imiwneiddiadau pobl ifanc yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae Ffigur 3 yn seiliedig ar yr holl ymatebwyr ac mae'n cynnwys atebion i'r cwestiwn hwn ynghyd ag unrhyw sôn am imiwneiddiadau a drafodwyd uchod ar gyfer Ffigur 2. Yn gyffredinol, mae mwyafrif helaeth y rhieni (94%) a'r bobl ifanc (88%) yn dweud eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am imiwneiddiadau i bobl ifanc yn ystod y 12 mis diwethaf.

**Ffigur 3: Ydych chi wedi gweld, clywed neu ddarllen unrhyw beth am frechlynnau i bobl ifanc yn ystod y 12 mis diwethaf? Am 'frechlynnau' rydym yn golygu bod pobl ifanc yn cael brechiad i'w hamddiffyn rhag salwch.**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
A2/A3


Wrth edrych ar ganlyniadau yn ôl demograffeg allweddol, nid oes unrhyw wahaniaethau sylweddol yn ôl is-grwpiau ymhlith rhieni. Ymhlith pobl ifanc, mae'r is-grwpiau canlynol yn llai tebygol o fod wedi dod ar draws gwybodaeth am frechiadau: dynion (84%), y rhai sy'n byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (82%), y rhai nad y Gymraeg neu'r Saesneg yw eu prif iaith (76%), a'r rhai 16+ mlwydd oed nad ydynt mewn cyflogaeth neu mewn rhaglenni addysg/hyfforddiant (75%).

Yna gofynnwyd i'r rhai a oedd yn cofio dod ar draws cyhoeddusrwydd ar frechu i bobl ifanc pa frechiad yr oedd y wybodaeth yr oeddent wedi'i gweld neu ei chlywed yn ymwneud ag ef. (gweler Ffigur 4).

O ystyried bod cyfnod y gwaith maes yn cyd-daro â'r broses barhaus o gyflwyno'r brechiad COVID-19, yn ôl y disgwyl, y brechlyn mae’r rhieni a phobl ifanc yn fwyaf tebygol o fod wedi gweld neu glywed gwybodaeth amdano yw'r brechlyn COVID-19, gyda'r mwyafrif helaeth o rieni (96%) a phobl ifanc (94%) yn dweud eu bod nhw wedi gweld rhywbeth am y brechlyn hwn. Dilynir hyn gan y brechlyn ffliw, gyda thua 1 o bob 3 rhiant (35%) a chwarter y bobl ifanc (25%) yn dweud eu bod wedi clywed am hyn. Fodd bynnag, mae gwybodaeth am y brechlyn ffliw yn torri drwodd i raddau llawer is na gwybodaeth am y brechiad COVID-19 (gwahaniaeth -61 pwynt canran yng nghyfran y rhieni sydd wedi clywed am y brechlyn COVID-19 o gymharu â'r brechlyn ffliw a gwahaniaeth o 69 pwynt canran ymhlith pobl ifanc).

Ymhlith pobl ifanc, mae'r rhai rhwng 11 ac 16 mlwydd oed yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi dod ar draws gwybodaeth am y brechlyn ffliw (33%, o'i gymharu â 25% yn gyffredinol). Mae hyn yn cyfateb i'r grwpiau oedran o bobl ifanc sydd wedi cael cynnig brechlyn ffliw am ddim yn gyffredinol, sydd i gyd yn blant (o 2 flwydd oed) a phobl ifanc hyd at (ac yn cynnwys) y rhai ym mlwyddyn ysgol 11. Er gwaethaf hyn, mae cyfran y bobl ifanc 11 i 16 mlwydd oed sydd wedi clywed neu wedi gweld rhywbeth am y brechlyn ffliw yn gymharol isel.

**Ffigur 4: Am ba frechiad oedd y wybodaeth?**





Sylfaen: Y rhai sydd wedi gweld, clywed neu ddarllen unrhyw beth am frechu/imiwneiddio - Rhieni (214) a Phobl Ifanc (396)
A5

Yna gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi clywed neu wedi gweld rhywbeth am frechu yn ystod y 12 mis diwethaf beth yr oeddent yn ei gofio fwyaf am yr hyn roedden nhw wedi'i weld neu ei glywed mewn cwestiwn agored. Yna cafodd yr ymatebion eu codio yn themâu a dangoswyd y rhain yn Ffigur 5.

Dywedodd y rhan fwyaf o rieni fod y wybodaeth yr oeddent wedi'i gweld yn ymwneud â'r brechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw ar gael i blant a phobl ifanc (40%). Dilynir hyn gan wybodaeth am bwysigrwydd brechu plant a phobl ifanc/hysbysebion yn perswadio pobl ifanc i gael eu brechu (18%).

Ni allai cyfran sylweddol o bobl ifanc (30%) gofio beth oedd diben y wybodaeth yr oeddent wedi'i gweld am frechu. Er hynny, y themâu mwyaf cyffredin a gafodd eu crybwyll gan y rhai a allai gofio yw: gwybodaeth am bwysigrwydd brechu plant a phobl ifanc/hysbysebion yn perswadio pobl ifanc i gael eu brechu (27%), a gwybodaeth am y brechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw ar gael i blant a phobl ifanc (17%).


**Ffigur 5: A beth ydych chi'n ei gofio fwyaf am yr hyn y gwnaethoch chi ei weld neu ei glywed? Beth oedd yn ei ddweud/beth wnaethoch chi ei ddysgu amdano?**




Sylfaen: Y rhai sydd wedi gweld, clywed neu ddarllen unrhyw beth am frechu/imiwneiddio - Rhieni (214) a Phobl Ifanc (396)
A6 – cwestiwn agored

Yna gofynnwyd i ymatebwyr p’un a oedd y wybodaeth yr oedden nhw wedi'i gweld o blaid neu yn erbyn brechiadau. Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 6. Yn galonogol, mae tua thri chwarter y rhieni (77%) a phobl ifanc (77%) a oedd wedi gweld gwybodaeth yn dweud ei fod o blaid brechu. Mae un o bob 10 rhiant (10%) a phobl ifanc (10%) wedi gweld cymysgedd o wybodaeth o blaid ac yn erbyn brechu, ac mae 7% o rieni a 5% o bobl ifanc yn dweud nad oedd y wybodaeth maen nhw wedi'i gweld o blaid nac yn erbyn imiwneiddiadau. Mae 4% o rieni a 5% o bobl ifanc wedi dod ar draws gwybodaeth yn erbyn brechu. Mae'r gweddill yn ansicr neu'n methu cofio (3% o rieni a phobl ifanc).

**Ffigur 6: Yn gyffredinol, oedd y wybodaeth a welsoch chi...?**




Sylfaen: Y rhai sydd wedi gweld, clywed neu ddarllen unrhyw beth am frechu/imiwneiddio - Rhieni (214) a Phobl Ifanc (396)
A7

Mae rhieni rhwng 31 a 35 mlwydd oed yn fwy tebygol o fod wedi gweld gwybodaeth yn erbyn imiwneiddiadau (12%), yn ogystal â rhieni nad ydynt wedi gweld unrhyw gyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru (12%), a'r rhai sy'n byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (11%).


O edrych ar hyn o safbwynt pobl ifanc, mae'r rhai rhwng 18 a 25 mlwydd oed yn fwy tebygol o fod wedi dod ar draws gwybodaeth yn erbyn brechu (7%). Mae hyn hefyd yn berthnasol i: ddynion (7%), pobl ifanc sy'n byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (9%), a phobl ifanc nad ydynt wedi cael y brechlyn COVID-19 ac nad ydynt yn bwriadu gwneud hynny (12%).

Yna gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi clywed neu wedi gweld rhywbeth am frechiadau ble roedden nhw wedi dod ar draws y wybodaeth hon (gweler Ffigur 7). I rieni, teledu (34%), taflenni'r GIG (28%) a Facebook (26%) yw'r ffynonellau gwybodaeth mwyaf cyffredin, ac yna gwefan y GIG (20%).

I bobl ifanc, mae teledu (31%) a gwefan y GIG (22%) hefyd ymhlith y ffynonellau gwybodaeth amlycaf am frechu. Fodd bynnag, i bobl ifanc, mae'r teulu hefyd yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth (22%).

O edrych ar ffynonellau gwybodaeth cyffredinol o'r canlyniadau hyn, ar gyfer rhieni a phobl ifanc ceir gwybodaeth am frechiadau yn fwyaf cyffredin gan weithwyr proffesiynol/lleoliadau gofal iechyd ac ar-lein, gyda ffynonellau ar-lein yn cael eu crybwyll ychydig yn fwy cyffredin gan bobl ifanc (54%, o gymharu â 52% o rieni) a gweithwyr proffesiynol/lleoliadau gofal iechyd yn cael eu nodi ychydig yn fwy cyffredin gan rieni (51%, o gymharu â 49% o bobl ifanc). Mae cyfryngau traddodiadol hefyd yn ffynhonnell wybodaeth sy’n cael ei chrybwyll gan gyfran ychydig yn uwch o rieni (43%) na phobl ifanc (38%). Fodd bynnag, mae pobl ifanc 10 pwynt canran yn fwy tebygol na rhieni o sôn am gyfryngau cymdeithasol fel ffynhonnell wybodaeth am frechu (45% o bobl ifanc, o gymharu â 35% o rieni).

**Ffigur 7: A ble wnaethoch chi weld neu glywed hyn?**




Sylfaen: Y rhai sydd wedi gweld, clywed neu ddarllen unrhyw beth am frechu/imiwneiddio - Rhieni (214) a Phobl Ifanc (396)
A4
*Ni ddangosir bod codau o dan 10% yn hwyluso darllen

O edrych ar safbwynt y wybodaeth maen nhw'n dod ar ei draw yn ôl ffynhonnell, mae tablau 1 a 2 isod yn dangos bod gwybodaeth a dderbynnir drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn llai tebygol na'r cyfartaledd o gyfleu negeseuon o blaid brechu ymhlith rhieni ac yn fwy tebygol o gyfleu cymysgedd o negeseuon o blaid ac yn erbyn brechu ymhlith pobl ifanc. Yn ogystal,

mae canlyniadau ar gyfer pobl ifanc yn nhabl 2 yn dangos bod gwybodaeth a geir drwy'r rhyngrwyd a thrwy gylch cymdeithasol hefyd yn fwy tebygol o gyfleu cymysgedd o negeseuon o blaid ac yn erbyn brechu.

**Tabl 1: Yn gyffredinol, oedd y wybodaeth wnaethoch chi ei gweld/ei chlywed....yn ôl ffynhonnell (Rhieni)**

| | CYFANSWM | O blaid brechu | Yn erbyn brechu | Ddim o blaid nac yn erbyn | Cymysgedd o wybodaeth o blaid ac yn erbyn brechu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb: rhyngrwyd** | 52% | 50% | 62% | 62% | 60% |
| **Crynodeb: lleoliad/gweithiwr gofal iechyd proffesiynol** | 51% | 52% | 52% | 47% | 41% |
| **Crynodeb: cyfryngau traddodiadol** | 43% | 44% | 16% | 34% | 53% |
| **Crynodeb: cyfryngau cymdeithasol** | 35% | **<u>31%</u>** | 62% | 49% | 51% |
| **Crynodeb: taflenni a hysbysebion** | 32% | 35% | 0% | 20% | 36% |
| **Crynodeb: cylch cymdeithasol** | 26% | 25% | 22% | 14% | 42% |
| **Crynodeb: yn yr ysgol** | 16% | 19% | 0% | 5% | 10% |

Mae'r ffigurau a danlinellwyd yn dangos gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol o gymharu â'r cyfanswm ar lefel hyder o 95%

**Tabl 2: Yn gyffredinol, oedd y wybodaeth wnaethoch chi ei gweld/ei chlywed....yn ôl ffynhonnell (Rhieni)**

| | CYFANSWM | O blaid brechu | Yn erbyn brechu | Ddim o blaid nac yn erbyn | Cymysgedd o wybodaeth o blaid ac yn erbyn brechu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb: rhyngrwyd** | 54% | 52% | 48% | 59% | **<u>78%</u>** |
| **Crynodeb: lleoliad/gweithiwr gofal iechyd proffesiynol** | 49% | 49% | 53% | 61% | 46% |
| **Crynodeb: cyfryngau cymdeithasol** | 45% | 44% | 48% | 45% | **<u>61%</u>** |
| **Crynodeb: cyfryngau traddodiadol** | 38% | 38% | 19% | 22% | 49% |
| **Crynodeb: cylch cymdeithasol** | 36% | 35% | 23% | 47% | **<u>50%</u>** |
| **Crynodeb: taflenni a hysbysebion** | 34% | 36% | 22% | 28% | 25% |
| **Crynodeb: yn yr ysgol** | 22% | 23% | 11% | 34% | 15% |

Mae'r ffigurau a danlinellwyd yn dangos gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol o gymharu â'r cyfanswm ar lefel hyder o 95%

# 5. Ymwybyddiaeth wedi'i hysgogi o'r holl frechiadau sydd ar gael

## 5.1 Cyflwyniad


Er mwyn deall ymwybyddiaeth o'r rhaglenni brechu COVID-19 a brechu rhag y ffliw ar gyfer pobl ifanc yn eu cyd-destun, mesurwyd ymwybyddiaeth o'r holl frechiadau sydd ar gael i bobl ifanc.

## 5.2 Ymwybyddiaeth o'r brechiadau sydd ar gael i bobl ifanc

Mae Ffigur 8 yn dangos ymwybyddiaeth rhieni a phobl ifanc o'r brechiadau sydd ar gael i bobl ifanc. Mae'n werth nodi i rieni gael eu holi am eu hymwybyddiaeth o'r brechlynnau sydd ar gael i bobl ifanc 11 i 16 mlwydd oed (gan mai dim ond rhieni pobl ifanc 11 i 16 mlwydd oed wnaeth gwblhau arolygon) tra gofynnwyd i bobl ifanc am eu hymwybyddiaeth o'r brechlynnau sydd ar gael i bobl ifanc 11 i 25 mlwydd oed (gan fod pobl ifanc rhwng 11 a 25 mlwydd oed wedi cymryd rhan yn yr arolwg).

Y brechlyn COVID-19 yw'r brechiad mae rhieni (85%) a phobl ifanc (86%) yn fwyaf ymwybodol ohono. Dilynir hyn gan y brechlyn ffliw (66% o rieni a 57% o bobl ifanc). I'r gwrthwyneb, brechlyn MenACWY yw'r brechiad gyda'r lefel isaf o ymwybyddiaeth o’r cyfan a restrir yn Ffigur 8 (mae 35% o rieni a 27% o bobl yn ymwybodol bod y brechlyn hwn ar gael i bobl ifanc).

**Ffigur 8: Pa frechiadau ydych chi’n meddwl sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer pobl ifanc 11-16 mlwydd oed? / Pa frechiadau ydych chi’n meddwl sydd ar gael ar hyn o bryd i bobl ifanc 11-25 mlwydd oed?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
V1
*Mae geiriad rhai opsiynau wedi'i gwtogi at ddibenion siartio

Mae'r is-grwpiau canlynol o rieni yn llai tebygol o fod yn ymwybodol bod y brechlyn COVID-19 ar gael i bobl ifanc: Rhieni rhwng 18 a 35 mlwydd oed (72%), y rhai sydd â phlant 11 i 12

mlwydd oed (74%), rhieni nad ydynt yn grefyddol (80%) a'r rhai sy'n byw mewn cwintel amddifadedd 3 (76%, y cwintel lleiaf difreintiedig yw 1 a'r mwyaf difreintiedig yw 5). Ymhlith pobl ifanc, mae'r canlynol yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o'r brechlyn COVID-19: y rhai rhwng 18 a 25 mlwydd oed (81%), y rhai sy'n cael eu hystyried yn glinigol agored i niwed (76%), pobl ifanc anabl (76%), a phobl ifanc 16+ mlwydd oed nad ydynt mewn addysg na chyflogaeth (73%).

O ran y brechlyn ffliw, mae'r is-grwpiau canlynol o rieni yn llai tebygol o fod yn ymwybodol ei fod ar gael i bobl ifanc: Rhieni rhwng 18 a 35 mlwydd oed (51%) a rhieni plant 15 i 16 mlwydd oed (57%). Yn ogystal, mae pobl ifanc gwyn (57%) a'r rhai sy'n byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn llai tebygol o fod yn ymwybodol bod y brechlyn ffliw ar gael i bobl ifanc (46%).

# 6. Agweddau cyffredinol tuag at frechu

## 6.1 Cyflwyniad


Mae'r adran hon yn archwilio'r agweddau sydd gan rieni a phobl ifanc tuag at frechu yn gyffredinol, gan gynnwys eu canfyddiadau o ba mor ddifrifol yw'r clefydau mae'r brechlynnau ar gyfer pobl ifanc yn amddiffyn yn eu herbyn, yn ogystal â diogelwch canfyddedig brechiadau.

## 6.2 Difrifoldeb canfyddedig clefydau

Gofynnwyd i rieni ystyried pa mor ddifrifol yr oeddent yn credu y byddai i'w plentyn/plant pe baent yn contractio unrhyw un o'r clefydau mae'r rhaglen brechu ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau yn eu hamddiffyn rhagddynt.

Ystyrir bod yr holl glefydau yn Ffigur 9 yn ddifrifol iawn neu'n weddol ddifrifol gan o leiaf 55% o rieni, gyda'r tri chanser a ddangosir yn cofrestru'r sgorau 'difrifol iawn' uchaf: canser y pen a'r gwddf (88%) canser gwenerol (88%), a chanser ceg y groth (86%). Dilynir hyn gan septisemia (85%) a llid yr ymennydd (80%). I'r gwrthwyneb, y clefydau sy'n cael eu hystyried yn llai difrifol yw: y frech goch (nid y frech Almaenig) (mae 32% yn ystyried bod hwn yn ddifrifol iawn), COVID-19 (31%), dafadennau gwenerol (28%), a'r ffliw, gyda dim ond 14% o rieni o'r farn y byddai'n 'ddifrifol iawn' pe bai eu plentyn/plant yn cael y ffliw.

**Ffigur 9: Pa mor ddifrifol ydych chi'n meddwl y byddai i'ch plentyn/ plant chi pe baent yn cael y clefydau canlynol? (Rhieni)**




Sylfaen: Pob Rhiant (230)
V3


Mae gwahaniaethau mewn canfyddiadau o ddifrifoldeb clefydau yn ôl ffactorau economaidd-gymdeithasol, gyda rhieni sy'n byw yn y cwintel mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o ddweud nad yw nifer o'r clefydau hyn yn ddifrifol.

O edrych ar hyn o safbwynt pobl ifanc (Ffigur 10), mae o leiaf 45% yn ystyried bod pob clefyd yn ddifrifol iawn neu'n weddol ddifrifol. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, yn wahanol i rieni, fod ymwybyddiaeth pobl ifanc o rai clefydau braidd yn isel. Er enghraifft, nid yw 32% yn gwybod pa mor ddifrifol y byddai pe baent yn cael difftheria, nid yw 20% yn siŵr pa mor ddifrifol y byddai pe baent yn cael tetanws, mae 19% yn ansicr ynghylch difrifoldeb polio, ac mae 18% yn ansicr ynghylch difrifoldeb clwy'r pennau.

Er hynny, fel gyda rhieni, y clefydau sydd fwyaf tebygol o gael eu rhestru fel rhai difrifol iawn gan bobl ifanc yw'r tri chanser a restrir: canser y pen a'r gwddf (79%) canser gwenerol (78%), a chanser ceg y groth (75%). Dilynir hyn gan septisemia (68%) a llid yr ymennydd (55%). Y ffliw yw'r clefyd sy'n cael ei ystyried yn lleiaf difrifol, gyda dim ond 16% o bobl ifanc yn dweud y byddai'n ddifrifol iawn pe baent yn ei gael. Er fod COVID-19 wedi dod tuag at waelod y rhestr o ran difrifoldeb i rieni, i bobl ifanc ystyrir bod COVID-19 yn fwy difrifol na nifer o glefydau eraill y mae brechlynnau'n amddiffyn rhagddynt. Mae tri o bob 10 (31%) o bobl ifanc yn dweud y byddai cael COVID-19 yn ddifrifol iawn iddynt. Er bod y gyfran hon yr un fath â chyfran y rhieni a oedd yn ystyried COVID-19 yn ddifrifol iawn (31%), ar gyfer pobl ifanc ystyrir bod COVID-19 yn fwy difrifol na'r frech goch (mae 26% yn graddio hyn yn ddifrifol iawn), clwy'r pennau (mae 25% yn dweud y byddai cael hyn yn ddifrifol iawn),

dafadennau gwenerol a difftheria (mae 29% yn nodi bod y clefydau hyn yn ddifrifol iawn yn y drefn honno).

**Ffigur 10: Pa mor ddifrifol ydych chi'n meddwl y byddai i chi pe byddech chi'n cael y clefydau canlynol? (Pobl Ifanc)**




Sylfaen: Pob Person Ifanc (457)
V3

Mae mewnwelediadau ansoddol yn dangos, er bod y rhan fwyaf o bobl ifanc cymwys wedi cael brechlyn ffliw, nad yw'r ffliw yn cael ei ystyried yn salwch difrifol iawn ac felly nid oes ymdeimlad o frys ymhlith rhieni i frechu eu plant yn ei erbyn:

> *"Dydw i ddim yn gwybod, oherwydd chefais i erioed [y brechlyn ffliw] fel plentyn. Fe ges i'r ffliw ac fe ddes i drosto. Felly dydw i ddim yn deall beth yw'r pwynt ei gael".* Merch, 41, Gwyn Prydeinig
>
> *"'Os byddwn ni'n ei golli efallai y bydd rhai rhieni'n dweud, 'fe wnawn ni ei roi'r flwyddyn nesa'".* Gwryw, 48, Gwyn Prydeinig


Yna gofynnwyd i rieni pa mor ddifrifol y byddai i gymdeithas pe bai eu plentyn/plant yn cael pob un o'r clefydau mae'r rhaglen frechu pobl ifanc yn amddiffyn rhagddynt (gweler Ffigur 11).

Ystyrir bod yr holl glefydau a restrir yn ddifrifol iawn neu'n weddol ddifrifol i gymdeithas ar gyfer o leiaf 43% o rieni, gyda rwbela a COVID-19 yn dod ar frig y rhestr o ran difrifoldeb i gymdeithas (mae 76% yn dweud yn y drefn honno y byddai'n ddifrifol iawn neu'n weddol ddifrifol i gymdeithas pe bai eu plentyn/plant yn cael y clefydau hyn). Dilynir hyn gan y frech goch (74%), polio (70%), a chlwy'r pennau (70%). I'r gwrthwyneb, ystyrir mai'r tri chanser a

restrir yw'r clefydau lleiaf difrifol i gymdeithas yn ôl rhieni: canser gwenerol (45%), canser ceg y groth (43%), a chanser y pen a'r gwddf (43%).

Mae'r ffliw yn dod ar ganol y rhestr o ran difrifoldeb i gymdeithas, gyda 62% o rieni'n dweud y byddai'n weddol ddifrifol neu'n ddifrifol iawn i gymdeithas pe bai eu plentyn yn cael y ffliw.

**Ffigur 11: A pha mor ddifrifol ydych chi'n meddwl y byddai i gymdeithas pe bai eich plentyn/plant yn cael y clefydau canlynol?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230)
V4

Yn yr un modd, gofynnwyd i bobl ifanc pa mor ddifrifol yr oeddent yn credu y byddai i gymdeithas pe bydden nhw’n cael pob un o'r clefydau mae'r brechlynnau ar gyfer pobl ifanc yn amddiffyn rhagddynt (gweler Ffigur 12).


Ystyrir COVID-19 fel y clefyd mwyaf difrifol i gymdeithas i bobl ifanc, gyda dros dri chwarter (77%) yn dweud y byddai cael y clefyd hwn yn ddifrifol iawn neu'n weddol ddifrifol i gymdeithas (dywedodd 45% y byddai'n ddifrifol iawn). Dilynir hyn gan rwbela a polio, gyda 59% o bobl ifanc yn dweud yn y drefn honno y byddai cael y clefydau hyn yn ddifrifol i gymdeithas. Mae tetanws (47%) a dafadennau gwenerol (45%) yn cael eu hystyried fel y clefydau lleiaf difrifol i gymdeithas yn ôl pobl ifanc.

Daw'r ffliw tua chanol y rhestr o ran difrifoldeb i gymdeithas, gyda dros hanner (53%) yn dweud y byddai'n ddifrifol iawn neu'n weddol ddifrifol i gymdeithas pe baent yn cael y ffliw.

Fel gyda difrifoldeb i unigolion, mae'n werth nodi bod pobl ifanc yn fwy tebygol na rhieni o ddweud nad ydynt yn gwybod pa mor ddifrifol y byddai i gymdeithas pe byddent yn cael y clefydau hyn, gyda'r sgorau'n amrywio rhwng 30% ac 20% ymhlith pobl ifanc ar gyfer y rhan

fwyaf o glefydau, ac ymhlith rhieni mae sgorau ddim yn gwybod yn tueddu i fod ar 14% neu'n is.

**Ffigur 12: Pa mor ddifrifol ydych chi'n meddwl y byddai i gymdeithas pe byddech chi'n cael y clefydau canlynol? (Pobl Ifanc)**




Sylfaen: Pob Person Ifanc (457)
V4


Ymhlith pobl ifanc, mae'r rhai nad ydynt yn ymddiried yn y brechlyn COVID-19 yn fwy tebygol o ddweud na fyddai'n ddifrifol i gymdeithas pe baent yn cael coronafeirws (31%). Mae hyn hefyd yn berthnasol i ymatebwyr anabl (28%).

Mae Ffigur 13 yn dangos difrifoldeb canfyddedig y clefydau ar gyfer y person ifanc ac ar gyfer cymdeithas ymhlith rhieni a phobl ifanc, gan grynhoi canlyniadau Ffigurau 9 i 11.

I rieni a phobl ifanc, mae'r tri chanser a restrir (canser y pen a'r gwddf, canser gwenerol a chanser ceg y groth) yn cael eu hystyried ymhlith y rhai mwyaf difrifol i'r person ifanc ond y lleiaf difrifol i gymdeithas: mae tua 9 o bob 10 rhiant a pherson ifanc yn dweud y byddai'r clefydau hyn yn ddifrifol iawn neu'n weddol ddifrifol i bobl ifanc ond mae llai na hanner yn dweud y byddent yn ddifrifol i gymdeithas. Mae septisemia a llid yr ymennydd hefyd yn cael eu hystyried yn arbennig o ddifrifol i bobl ifanc ond yn llai felly i gymdeithas. I'r gwrthwyneb, COVID-19 a'r ffliw yw'r ddau glefyd sy'n cael eu hystyried yn fwy difrifol i gymdeithas nag i bobl ifanc ymhlith rhieni a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae'r bwlch rhwng canfyddiadau o ddifrifoldeb y ffliw a COVID-19 i'r person ifanc o'i gymharu â chymdeithas yn llawer is na'r bwlch mewn canfyddiadau pan ofynnir iddynt am y tri chanser a restrir (canser y pen a'r gwddf, canser gwenerol a chanser ceg y groth) a septisemia a llid yr ymennydd: 50 pwynt canran neu fwy o fwlch mewn canfyddiadau o ddifrifoldeb canserau i'r unigolyn o'i gymharu â chymdeithas, 22 pwynt canran neu fwy o fwlch mewn canfyddiadau o ddifrifoldeb septisemia

a llid yr ymennydd ar gyfer yr unigolyn yn erbyn cymdeithas, o'i gymharu â bwlch o 13 pwynt canran neu lai mewn canfyddiadau o ddifrifoldeb COVID-19 a'r ffliw i'r unigolyn o'i gymharu â chymdeithas. Mae hyn ymhlith rhieni a phobl ifanc.

**Ffigur 13: Pa mor ddifrifol ydych chi'n meddwl y byddai.... pe byddech chi'n cael y clefydau canlynol?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
V3/V4

## 6.3 Barn ar ddiogelwch brechiadau i bobl ifanc


Yn dilyn difrifoldeb canfyddedig y clefydau, gofynnwyd i rieni a phobl ifanc am eu barn mewn perthynas â diogelwch brechiadau pobl ifanc. Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 14.

Mae tua 8 o bob 10 rhiant yn cytuno bod y rhan fwyaf o frechlynnau naill ai'n ddiogel iawn neu'n peri risg fach yn unig: Dywedodd 88% hynny pan ofynnwyd iddynt am y brechiad atgyfnerthu ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau, 86% am y brechlyn MMR, 84% am y brechlynnau HPV a MenACWY yn y drefn honno, ac 81% am y brechlyn ffliw. Fodd bynnag, mae cyfran y rhieni sy'n cytuno bod y brechlyn COVID-19 yn ddiogel iawn neu'n achosi risg fach yn unig yn is nag ar gyfer brechlynnau eraill, gyda 6 o bob 10 (65%) o rieni'n dweud bod y brechlyn COVID-19 naill ai'n ddiogel iawn neu'n peri risg fach yn unig. Mae chwarter (26%) y rhieni'n dweud bod COVID-19 yn peri risg ganolig i uchel, y sgôr risg canolig i uchel uchaf o unrhyw un o'r brechlynnau a restrir.

Ymhlith pobl ifanc, mae mwy na 6 o bob 10 yn cytuno bod y rhan fwyaf o'r brechlynnau ar gyfer pobl ifanc naill ai'n ddiogel iawn neu'n peri risg fach yn unig (69% ar gyfer y brechlyn ffliw, 68% ill dau ar gyfer y brechiad atgyfnerthu ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau a'r brechlyn HPV, a 66% ill dau ar gyfer y brechlyn MenACWY a'r brechlyn MMR). Mae'r sgorau hyn ychydig yn is nag ar gyfer rhieni, ac mae hyn oherwydd bod pobl ifanc yn fwy tebygol na rhieni o ateb ddim yn gwybod ac i raddau llai oherwydd bod pobl ifanc yn fwy tebygol o ddweud bod y brechlynnau'n peri risg ganolig i risg uchel. Fel gyda rhieni, mae pobl ifanc hefyd o'r farn mai'r brechlyn COVID-19 yw'r lleiaf diogel o'r brechlynnau a restrir, gyda dros hanner (58%) y bobl ifanc yn dweud bod y brechlyn COVID-19 naill ai'n ddiogel iawn neu'n peri risg fach yn unig, a thraean (33%) yn dweud bod y brechlyn hwn yn peri risg ganolig i risg uchel.

Mae'r cyfrannau o rieni a phobl ifanc sy'n credu bod y brechlyn ffliw yn peri risg uchel i ganolig yn debyg, 20% o bobl ifanc a 14% o rieni.

**Ffigur 14: Pa mor ddiogel ydych chi'n teimlo'n bersonol yw pob un o'r brechlynnau hyn?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
V5

Mae rhieni sy'n byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn fwy tebygol o ystyried bod y rhan fwyaf o'r brechlynnau ar gyfer pobl ifanc yn peri risg ganolig i uchel. At hynny, mae rhieni nad yw eu plentyn/plant wedi cael y brechlyn ffliw ac nad ydynt yn bwriadu iddynt ei gael yn fwy tebygol o ddweud bod y brechlyn ffliw yn peri risg ganolig i risg uchel (53%). Yn yr un modd, mae rhieni nad yw eu plentyn/plant wedi cael y brechlyn COVID-19 ac nad ydynt yn bwriadu iddynt ei gael yn fwy tebygol o ddweud bod y brechlyn COVID-19 yn peri risg ganolig i risg uchel (67%).

Ymhlith pobl ifanc, mae'r rhai rhwng 18 a 25 mlwydd oed yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud bod pob brechlyn yn peri risg ganolig i uchel. Mae hyn hefyd yn wir am bobl ifanc sydd wedi gweld gwybodaeth nad oedd o blaid brechu (yn erbyn, cymysgedd o blaid ac yn erbyn, neu ddim o blaid nac yn erbyn).


O ran y brechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw, mae pobl ifanc sy'n byw yn y cwintel mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o ddweud bod y ddau frechlyn hyn yn peri risg ganolig i uchel

(41% ar gyfer brechlyn COVID-19 a 31% ar gyfer y brechlyn ffliw). Fel y gwelwyd gyda rhieni, mae pobl ifanc nad ydynt wedi cael y brechlynnau ffliw a brechlyn COVID-19 ac nad ydynt yn bwriadu eu cael yn fwy tebygol o ddweud bod y brechlynnau hyn yn peri risg ganolig i uchel. Mae hyn hefyd yn wir am bobl ifanc nad ydynt yn ymddiried yn y brechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw.

Yna gofynnwyd i ymatebwyr a ydynt yn credu bod brechlynnau sy'n waeth i bobl ifanc na'r clefydau gwirioneddol maen nhw’n amddiffyn rhagddynt. Mae mwyafrif y rhieni (61%) a phobl ifanc (61%) yn dweud bod pob brechlyn yn peri risg is o gymharu â'r clefydau maen nhw’n amddiffyn rhagddynt. Mae tua 1 o bob 7 (15%) o rieni a chyfran debyg o bobl ifanc (13%) yn ansicr a oes imiwneiddiadau sy'n waeth na'r clefydau maen nhw’n amddiffyn yn eu herbyn. Mae'r gweddill yn credu bod brechlynnau'n waeth na'r clefydau maen nhw’n amddiffyn rhagddynt (26% o bobl ifanc a 24% o rieni).

Brechlyn COVID-19 yw'r imiwneiddiad mwyaf tebygol o gael ei ystyried yn fwy peryglus na'r clefyd ei hun, gyda thua 1 o bob 5 rhiant (20%) a phobl ifanc (19%) yn dweud hyn. Mae llai nag 1 o bob 10 hefyd yn credu bod y brechiad ffliw yn waeth na'r clefyd ei hun (6% o rieni a 5% o bobl ifanc).

**Ffigur 15: Ydych chi'n meddwl bod unrhyw frechlynnau sy'n waeth i'ch plentyn/plant na'r salwch/clefyd gwirioneddol? Os felly, pa rai? Ydych chi'n meddwl bod unrhyw frechlynnau sy'n waeth i chi na'r salwch/clefyd gwirioneddol? Os felly, pa rai?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
V6
*Mae geiriad rhai opsiynau wedi'i gwtogi at ddibenion siartio

Mae rhieni nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth am y brechlyn COVID-19 ac nad ydynt yn gwybod ble i ddod o hyd iddo yn fwy tebygol o ystyried bod y brechlyn COVID-19 yn fwy peryglus na'r clefyd ei hun (41%). Gellir gweld y patrwm hwn hefyd ar gyfer y brechlyn ffliw ond nid yw'r canlyniad ar gyfer y ffliw yn arwyddocaol. Yn ogystal, mae rhieni sy'n grefyddol yn fwy tebygol o ystyried y brechlyn COVID-19 (28%) yn fwy peryglus na'r clefydau maen nhw'n amddiffyn rhagddynt. Mae rhieni sy'n dweud nad yw eu plentyn/plant wedi cael y brechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw ac nad ydynt yn bwriadu iddynt gael y brechlynnau hyn hefyd yn fwy tebygol o fod yn amheus ynghylch diogelwch y brechlynnau hyn (mae 32% yn dweud bod y brechlyn ffliw yn fwy peryglus na'r clefyd ac mae 69% yn dweud bod y brechlyn COVID-19 yn fwy peryglus na'r feirws ei hun).

Ymhlith pobl ifanc, mae'r rhai rhwng 18 a 25 mlwydd oed yn fwy tebygol o ddweud bod y brechlyn COVID-19 yn fwy peryglus na'r clefyd ei hun (22%), fel y mae'r rhai rhwng 16+ mlwydd oed sydd mewn cyflogaeth (24%). Mae hyn hefyd yn wir am bobl ifanc sy'n byw yn y cwintel mwyaf difreintiedig (31%), y rhai sy'n byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (29%), y rhai sydd wedi gweld gwybodaeth nad yw o blaid brechu (28%), y rhai nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth am y brechlyn COVID-19 ac nad ydynt yn gwybod ble i ddod o hyd iddo (35%), a'r rhai nad ydynt wedi cael y brechlyn COVID-19 ac nad ydynt yn bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol (50%).

O ran y brechlyn ffliw, mae pobl ifanc sydd mewn cyflogaeth yn fwy tebygol o ddweud bod y brechlyn ffliw yn fwy peryglus na'r clefyd (9%).

# 7. Y brechlyn ffliw

## 7.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y brechlyn ffliw. Mae'n cynnwys ymwybyddiaeth o'r brechlyn ffliw sy'n cael ei gynnig i bobl ifanc ymhlith rhieni a phobl ifanc eu hunain, a pha mor wybodus mae rhieni a phobl ifanc teimlo am y brechlyn ffliw. Mae'r adran hon hefyd yn ystyried y lefelau sy'n manteisio ar frechlyn y ffliw yn ogystal â chymhellion a rhwystrau rhag manteisio arno, ac agweddau cyffredinol tuag at y brechlyn i bobl ifanc.

## 7.2 Ymwybyddiaeth o'r brechlyn ffliw


Er mwyn mesur ymwybyddiaeth o'r brechlyn ffliw ar gyfer pobl ifanc, gofynnwyd i rieni a phobl ifanc 11 i 16 mlwydd oed a oeddent yn ymwybodol bod y brechlyn ffliw bellach yn cael ei gynnig i bob plentyn (o 2 flwydd oed) a phobl ifanc hyd at (ac yn cynnwys) y rhai ym mlwyddyn ysgol 11. Gofynnwyd cwestiwn ychydig yn wahanol i bobl ifanc rhwng 17 a 25 mlwydd oed gan nad yw pob person ifanc o'r oedrannau hyn yn cael cynnig brechlyn ffliw am ddim. Felly, gofynnwyd i'r rhai rhwng 17 a 25 mlwydd oed a oeddent yn ymwybodol bod pobl ifanc rhwng 17 a 25 mlwydd oed yn gymwys i gael brechlyn ffliw am ddim os oes ganddynt gyflwr iechyd hirdymor penodol, yn ofalwyr, yn feichiog, yn gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol (yn darparu gofal uniongyrchol) neu'n byw gyda rhywun sydd â system imiwnedd sydd wedi'i pheryglu. Dangosir y canlyniadau i rieni a'r canlyniadau cyfunol ar gyfer pobl ifanc yn Ffigur 16.

Mae'r mwyafrif llethol o rieni (80%) yn dweud eu bod yn ymwybodol bod y brechlyn ffliw ar gael i bobl ifanc, gyda 2 o bob 10 yn dweud naill ai nad ydynt yn ymwybodol (18%) neu eu bod yn ansicr (2%).

Yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc hefyd yn ymwybodol o gymhwysedd i gael y brechlyn ffliw (63%). Y rhai 11 i 16 mlwydd oed yw'r rhai mwyaf tebygol o fod yn ymwybodol o'r brechlyn ffliw (66%) ond nid yw'r canlyniad hwn yn ystadegol sylweddol uwch o gymharu â grwpiau oedran eraill. Fodd bynnag, y rhai rhwng 18 a 25 mlwydd oed yw'r rhai lleiaf tebygol o fod yn ymwybodol o'r brechlyn ffliw (36%). Mae hyn i'w ddisgwyl, fodd bynnag, gan nad yw brechlynnau ffliw ar gael i bawb yn y grŵp oedran hwn.

At ei gilydd, nid yw 3 o bob 10 (32%) o bobl ifanc yn ymwybodol bod y brechlyn ffliw ar gael i bobl ifanc ac mae 5% yn ansicr.

**Ffigur 16: Mae pob plentyn (o 2 flwydd oed) a phobl ifanc hyd at (ac yn cynnwys) y rhai ym mlwyddyn ysgol 11 bellach yn gymwys i gael brechlyn ffliw am ddim. Cyn heddiw, a oeddech chi’n ymwybodol o hyn? / Mae pobl ifanc rhwng 17 a 25 mlwydd oed yn gymwys i gael brechlyn ffliw am ddim os oes ganddynt rai cyflyrau iechyd hirdymor, os ydynt yn ofalwyr, yn feichiog, yn gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol neu'n byw gyda rhywun sydd â system imiwnedd sydd wedi'i pheryglu. Cyn heddiw, a oeddech chi’n ymwybodol o hyn?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
U1/U1aa

Mae rhieni plant 15 i 16 mlwydd oed yn fwy tebygol o beidio â bod yn ymwybodol o'r brechlyn ffliw sy'n cael ei gynnig i bobl ifanc (29%), felly hefyd rhieni anabl (34%).


Ymhlith pobl ifanc, mae'r is-grwpiau canlynol yn llawer mwy tebygol o ddweud nad ydynt yn ymwybodol o'r brechlyn ffliw:

- Ymatebwyr gwyn (32%)
- y rhai nad ydynt yn grefyddol (36%)
- dynion (38%)
- y rhai nad ydynt wedi gweld unrhyw gyhoeddusrwydd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (41%)
- y rhai sy'n byw yng nghwintel amddifadedd 2 (43%, y cwintel lleiaf difreintiedig yw 1 a'r mwyaf difreintiedig yw 5)
- y rhai sydd wedi dod ar draws cymysgedd o wybodaeth o blaid ac yn erbyn brechu (49%)

Yna gofynnwyd i rieni a phobl ifanc 11 i 16 mlwydd oed a oeddent yn gwybod bod y brechlyn ffliw yn cael ei gynnig yn gyffredinol i blant a phobl ifanc hyd at flwyddyn ysgol 11 fel chwistrell trwyn yn hytrach na phigiad (gweler Ffigur 17).

Mae tua 4 o bob 5 rhiant (85%), a phobl ifanc 11 i 16 mlwydd oed (76%), yn ymwybodol bod y brechlyn ffliw yn cael ei gynnig fel mater o drefn i bobl ifanc fel chwistrell trwyn yn hytrach na phigiad. Nid yw 13% o rieni ac 16% o bobl ifanc 11 i 16 mlwydd oed yn ymwybodol o hyn ac nid yw'r gweddill yn gwybod (1% o rieni a 9% o bobl 11 i 16 oed).

**Ffigur 17: Cynigir y brechlyn ffliw i blant a phobl ifanc (hyd at flwyddyn ysgol 11) yng Nghymru fel chwistrell trwyn (nid pigiad). Cyn heddiw, a oeddech chi’n ymwybodol o hyn?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc 11-16 Mlwydd Oed (195)
U1a

Ymhlith pobl ifanc 11 i 16 mlwydd oed, mae'r rhai nad ydynt wedi gweld unrhyw gyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn fwy tebygol o ddweud nad ydynt yn ymwybodol bod y brechlyn ffliw yn cael ei gynnig i blant a phobl ifanc fel chwistrell trwyn (24%). Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfleu hyn i bobl ifanc ar draws amrywiaeth o sianelau, yn enwedig o gofio bod grwpiau ffocws ansoddol yn datgelu bod chwistrellau trwyn yn cael eu ffafrio fel dull gweinyddu dros bigiadau. Felly, gallai rhoi gwybod i bobl ifanc bod y brechlyn ffliw yn cael ei gynnig fel chwistrell trwyn gynyddu'r nifer sy'n manteisio arno.

> *"Cefais y chwistrell trwyn hefyd ac roedd yn well na'r pigiad gan ei fod yn gyflymach".*
> Gwryw, 13, Gwyn Prydeinig

> *"Gallaf gael y brechlynnau drwy chwistrell trwyn os oes arnaf fi ofn nodwyddau".*
> Gwryw, 12, Gwyn Prydeinig


## 7.3 Gwybodaeth am y brechlyn ffliw


Mae Ffigur 18 yn dangos lefelau cytuno gyda chyfres o ddatganiadau ymhlith rhieni a phobl ifanc. Mae'r datganiadau hyn yn mesur faint o wybodaeth mae ymatebwyr yn teimlo sydd ganddynt am y brechlyn ffliw a faint maen nhw’n ymddiried yn y wybodaeth hon.

Mae tua 8 o bob 10 rhiant yn teimlo bod ganddynt ddigon o wybodaeth i ddewis p’un a yw eu plentyn/plant yn cael y brechlyn ffliw ai peidio (80% yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno), gyda chyfran debyg (83%) yn dweud eu bod yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth am y brechlyn ffliw ar gyfer eu plentyn/plant. Mae'r ymddiriedaeth yn y wybodaeth a ddarperir am y brechlyn ffliw i bobl ifanc hefyd yn uchel, gydag 80% o rieni'n dweud eu bod yn ymddiried yn y wybodaeth hon. Mae tua 3 o bob 4 (77%) o rieni yn cytuno eu bod yn gwybod sut mae'r brechlyn ffliw i blant yn gweithio. Mae lefelau anghytuno â'r datganiadau hyn yn isel, gydag 1 o bob 10 neu lai o rieni'n anghytuno'n weithredol â phob datganiad.

Ymhlith pobl ifanc, mae lefelau cytuno â'r datganiadau hyn yn is nag ar gyfer rhieni. Mae hyn oherwydd sgorau anghytuno a niwtral ychydig yn uwch. Mae tua 6 o bob 10 yn cytuno bod ganddynt ddigon o wybodaeth i ddewis a ydynt am gael y brechlyn ffliw ai peidio neu eu bod yn gwybod ble i ddod o hyd i'r wybodaeth hon (62% yn y drefn honno). Mae cyfran debyg (65%) yn teimlo eu bod yn ymddiried yn y wybodaeth a roddwyd iddynt am y brechlyn ffliw. Mae tua 1 o bob 7 yn anghytuno'n weithredol â'r datganiadau hyn. Er hynny, mae safbwyntiau ynghylch gwybodaeth am y brechlyn ffliw wedi'u pegynnu yn fwy: tra bod hanner (51%) y bobl ifanc yn cytuno eu bod yn gwybod sut mae'r brechlyn ffliw yn gweithio; mae cyfran debyg naill ai'n anghytuno â hyn (23%), ddim yn cytuno nac yn anghytuno (19%), neu'n ansicr (6%).

**Ffigur 18: Allwch chi ddweud wrthym ni i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
P1

Mae pobl ifanc rhwng 18 a 25 mlwydd oed yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o anghytuno eu bod yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth am y brechlyn ffliw (19%).

Pan ddaw'n fater o ymddiried yn y wybodaeth a ddarperir am y brechlyn ffliw, mae pobl ifanc nad ydynt wedi cael y brechlyn ffliw ac nad ydynt yn bwriadu ei gael yn fwy tebygol o anghytuno eu bod yn ymddiried yn y brechlyn ffliw (32%). Mae hyn hefyd yn berthnasol i bobl ifanc sy'n byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (23%).

Ymhlith rhieni, mae'r rhai sy'n anabl yn fwy tebygol o ddweud nad ydynt yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth am y brechlyn ffliw ar gyfer eu plentyn/plant (17%). Yn yr un modd, mae rhieni anabl yn llai tebygol o ymddiried yn y wybodaeth a roddwyd iddynt am y brechlyn ffliw ar gyfer eu plentyn/plant (16%).

Mae dadansoddiad atchweliad yn dangos bod ymddiried yn y wybodaeth a ddarperir am y brechlyn ffliw ymhlith pobl ifanc yn sbardun pwysig o ran manteisio ar yr imiwneiddiad hwn tra bod diffyg ymddiriedaeth yn y wybodaeth a ddarperir yn sbardun i wrthod y brechlyn ffliw.


## 7.4 Manteisio ar y brechlyn ffliw

Mae saith o bob 10 (71%) o rieni yn dweud bod eu plentyn/plant wedi cael brechlyn ffliw am ddim tra bod ychydig dros chwarter (28%) yn dweud i'r gwrthwyneb. Nid yw'r 1% sy'n weddill yn gwybod p'un a yw eu plentyn wedi cael ei frechu rhag y ffliw ai peidio.

O ran pobl ifanc, mae rhaniad mwy cyfartal rhwng y rhai sydd wedi cael y brechlyn ffliw a'r rhai nad ydynt wedi cael y brechlyn ffliw. Mae bron i hanner (49%) y bobl ifanc yn dweud eu bod wedi cael brechlyn ffliw am ddim, gyda chyfran debyg (45%) yn nodi i'r gwrthwyneb. Nid yw'r 6% sy'n weddill yn gwybod a ydynt wedi cael y brechlyn ffliw ai peidio.

Fel y gellir disgwyl, mae pobl ifanc 11 i 16 mlwydd oed - sy'n fwy tebygol o fod ym mlynyddoedd ysgol 7 i 11 - yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod wedi cael brechlyn ffliw am ddim (64%) tra bod y gwrthwyneb yn wir am y rhai mewn grwpiau oedran hŷn. Er enghraifft, mae'r rhai rhwng 18 a 25 mlwydd oed yn llawer llai tebygol o ddweud eu bod wedi cael brechlyn ffliw am ddim (40%), sy'n adlewyrchu'r ffaith nad yw'r brechlyn ffliw ar gael i bawb yn y grŵp oedran hwn.

**Ffigur 19: A yw eich plentyn/plant wedi cael brechlyn ffliw am ddim? / Ydych chi wedi cael brechlyn ffliw am ddim?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
U3

Mae rhieni plant 15 i 16 mlwydd oed yn fwy tebygol o ddweud nad yw eu plentyn/plant wedi cael brechlyn ffliw am ddim (36%), fel y mae'r rhai nad ydynt wedi gweld gwybodaeth am iechyd pobl ifanc yn ystod y 12 mis diwethaf (36%), y rhai sy'n credu bod brechlynnau sy'n waeth na'r afiechydon maen nhw'n amddiffyn rhagddynt (48%) a'r rhai nad ydynt wedi gweld unrhyw gyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru (44%).

Ar wahân i'r gwahaniaethau oedran a nodwyd uchod, mae'r grwpiau canlynol o bobl ifanc yn fwy tebygol o beidio â chael brechlyn ffliw am ddim:

- Ymatebwyr gwyn (47%)
- y rhai nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhai sy'n agored iawn i niwed yn glinigol (50%)
- ymatebwyr nad ydynt yn grefyddol (50%)
- merched (53%)
- y rhai nad ydynt wedi gweld unrhyw wybodaeth am iechyd pobl ifanc yn ystod y 12 mis diwethaf (53%)
- y rhai nad ydynt yn ymddiried yn y brechlyn ffliw (65%)

Mae mewnwelediadau ansoddol yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl ifanc 11 i 15 mlwydd oed (a'u ffrindiau a'u cyfoedion) wedi cael brechlyn ffliw am ddim ac yn ystyried bod hyn yn gadarnhaol i amddiffyn eu hunain ac eraill. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o bobl ifanc rhwng 18 a 25 mlwydd oed wedi cael brechlyn ffliw am ddim oherwydd nad ydynt yn gymwys, ac mae eu barn ynghylch a ddylai pobl ifanc gael brechlyn rhag y ffliw yn gymysg:

> *"Rwy'n credu bod hynny'n beth da oherwydd mae'n helpu i ymladd unrhyw glefyd ffliw sy'n mynd o gwmpas".* Gwryw, 21, Gwyn Prydeinig


> *"Mae'n gallu bod yn iawn i'r ysgol gan fy mod bob amser yn arfer mynd yn sâl pan oeddwn i'n arfer dechrau yn yr ysgol oherwydd bod rhywun wedi cael y ffliw. Felly ydw, rydw i'n credu y bydd yn gadarnhaol."* Merch, 23, Gwyn Prydeinig

> *"Dydw i ddim yn gwybod beth i'w deimlo am hynny ac yn yr un modd mae'n dibynnu ar gryfderau imiwnedd pobl. Doeddwn i byth yn rhy sâl yn ystod yr ysgol felly fyddwn i ddim ei angen."* Merch, 23, Gwyn Arall

Gofynnwyd i rieni a gymerodd ran yn yr arolwg meintiol nad yw eu plant wedi cael brechlyn ffliw am ddim a ydynt yn bwriadu iddynt ei gael yn y dyfodol (gweler Ffigur 20). Mae tua chwarter (27%) y rhieni nad yw eu plentyn/plant wedi cael eu brechu rhag y ffliw yn dweud eu bod yn bwriadu i'w plentyn/plant gael y brechlyn hwn yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae cyfran fwy (47%) yn dweud nad ydynt yn bwriadu i'w plentyn/plant gael y brechlyn hwn. Nid yw'r 26% arall o rieni yn gwybod.

O edrych ar hyn o safbwynt pobl ifanc, mae barn wedi'i rhannu'n fwy cyfartal ymhlith y rhai sy'n bwriadu cael y brechlyn ffliw yn y dyfodol a'r rhai nad ydynt yn bwriadu ei gael: Mae 38% o bobl ifanc nad ydynt wedi cael brechlyn ffliw am ddim yn dweud eu bod yn bwriadu ei gael yn y dyfodol, gyda'r un gyfran (35%) yn nodi i'r gwrthwyneb. Nid yw'r 26% sy'n weddill o bobl ifanc yn gwybod.

**Ffigur 20: Fe wnaethoch chi ddweud nad yw eich plentyn/plant wedi cael brechlyn ffliw am ddim. A ydych chi'n bwriadu iddynt gael y brechiad hwn yn y dyfodol? / Fe wnaethoch chi ddweud nad ydych chi wedi cael brechlyn ffliw am ddim. Ydych chi'n bwriadu cael y brechiad hwn yn y dyfodol neu ar ôl i chi ddod yn gymwys?**





Sylfaen: Rhieni nad yw eu plentyn/plant wedi cael brechlyn ffliw am ddim (68) a Phobl Ifanc nad ydynt wedi cael brechlyn ffliw am ddim (190)
U4

## 7.5 Lleoliadau a ffefrir i gael y brechlyn ffliw

Mae'r mwyafrif llethol o rieni plant sydd wedi cael brechlyn ffliw am ddim yn dweud bod eu plentyn wedi cael y brechlyn ffliw yn yr ysgol (84%).

Ymhlith pobl ifanc, mae'r rhan fwyaf o'r rhai rhwng 11 ac 16 mlwydd oed wedi cael y brechlyn ffliw yn yr ysgol (78%), gyda grwpiau oedran hŷn yn fwy tebygol o fod wedi'i gael mewn practis meddyg teulu (mae 48% o'r rhai rhwng 18 a 25 mlwydd oed sydd wedi cael brechlyn ffliw yn dweud eu bod wedi'i gael mewn practis meddyg teulu). Defnyddiwyd gweddill y lleoliadau a restrir yn Ffigur 21 gan lai nag 1 o bob 10 o bobl ifanc a oedd wedi cael brechlyn ffliw am ddim.

**Ffigur 21: Ble cafodd eich plentyn/plant eu brechlyn ffliw? / Ble gawsoch chi eich brechlyn ffliw?**





Sylfaen: Y rhai sydd wedi cael y brechlyn ffliw/eu plentyn/plant wedi cael brechlyn rhag y ffliw - Rhieni (159) a Phobl Ifanc (236)
LX

Yna gofynnwyd i'r holl ymatebwyr am eu dewisiadau o ran lleoliadau i gael y brechlyn ffliw (gweler Ffigur 22). I rieni, yr ysgol yw'r lleoliad a ffefrir o bell ffordd (60%), ac yna practis meddyg teulu (14%).

Ymhlith pobl ifanc 11 i 16 mlwydd oed, yr ysgol yw'r lleoliad a ffefrir i gael y brechlyn ffliw (46%). Ac ymhlith y rhai rhwng 18 a 25 mlwydd oed, practis meddyg teulu yw'r lleoliad a ffefrir i gael y brechlyn ffliw (49%).

**Ffigur 22: Ac os gallech chi ddewis, ble fyddai'n well gennych chi i'ch plentyn/plant gael brechlyn ffliw? / Ac os gallech chi ddewis, ble fyddai'n well gennych chi gael brechlyn ffliw?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
L2

Mae grwpiau ffocws ansoddol yn cadarnhau mai'r ysgol hefyd yw'r lleoliad a ffefrir i gael brechlynnau ymhlith y rhai 11 i 16 mlwydd oed a'u rhieni. Canfuwyd mai llythyrau o'r ysgol oedd y brif ffordd mae pobl ifanc 11 i 16 mlwydd oed a'u rhieni'n cael gwybod am y brechiadau a gynigir i bobl ifanc ac ystyrir bod yr ysgol yn trefnu'r brechiad yn gyfleus. Fodd bynnag, soniodd un rhiant y gallai trefnu brechiadau fod yn anoddach i'r rhai sy'n dewis dysgu eu plant gartref:

> *"Rwy'n credu efallai na fydd gan bobl sy'n dysgu eu plentyn gartref y gallu i wneud y trefniant cywir i'w plentyn gael y brechlynnau. Pe na bai'r ysgol yn eu trefnu ac yn gwneud y gwaith caled i gyd, yna byddai'n anoddach".* Gwryw, 53, Prydeinig


## 7.6 Rhwystrau a chymhellion i fanteisio ar y brechlyn ffliw

Gofynnwyd i'r lleiafrif o rieni (30) a ddywedodd nad oedd eu plentyn/plant wedi cael y brechlyn ffliw ac nad ydynt yn bwriadu iddynt ei gael yn y dyfodol am eu rhesymau dros benderfynu na ddylai eu plentyn/plant gael y brechlyn hwn (gweler Ffigur 23). Y rheswm amlycaf a roddwyd gan rieni dros blant ddim yn cael y brechlyn ffliw yw ymddiriedaeth yn

system imiwnedd y plentyn/plant (53%). Dilynir hyn gan y plentyn/plant ddim eisiau cael y brechlyn ffliw (20%). Nodwyd gweddill y rhesymau gan lai nag 1 o bob 5 rhiant nad yw eu plentyn/plant wedi cael y brechlyn ffliw ac nad ydynt yn bwriadu iddynt ei gael. Mae'r rhain yn cynnwys: cred nad oes angen brechiadau i aros yn iach (18%), canfyddiad nad yw'r ffliw yn salwch digon difrifol i’w gwneud yn ofynnol cael brechlyn (18%), a phryderon ynghylch sgil-effeithiau (15%). Mae un o bob 7 (14%) o rieni plant nad ydynt wedi cael y brechlyn ffliw ac nad ydynt yn bwriadu iddynt ei gael yn dweud mai'r rheswm am hynny yw nad yw eu plentyn/plant wedi cael cynnig y brechlyn ffliw eto.

Yn yr un modd, gofynnwyd i bobl ifanc nad oeddent wedi cael y brechlyn ffliw ac nad ydynt yn bwriadu ei gael am eu rhesymau dros ddewis peidio â chael y brechlyn hwn. Fel gyda rhieni, mae'r prif reswm a roddir gan bobl ifanc am beidio â chael y brechlyn ffliw yn ymwneud ag ymddiriedaeth yn eu system imiwnedd (38%). Dilynir hyn gan gred nad yw'r ffliw yn ddigon difrifol i ofyn am frechlyn (26%). Yn ogystal, cyfeiriodd tua 1 o bob 5 o bobl ifanc nad ydynt wedi cael ac nad ydynt yn bwriadu cael y brechlyn ffliw at bryderon am sgil-effeithiau (24%) a diffyg ymddiriedaeth yn y brechlyn (20%). Mae tua un o bob 6 (18%) o bobl ifanc nad ydynt wedi cael ac nad ydynt yn bwriadu cael y brechlyn ffliw yn dweud nad yw wedi cael ei gynnig iddynt, ac mae 11% yn dweud nad ydynt yn gymwys i gael brechlyn ffliw am ddim.

**Ffigur 23: Rydych chi wedi dweud nad yw eich plentyn/plant wedi cael y brechlyn ffliw ac nad ydych yn bwriadu iddynt ei gael. A allech chi ddweud wrthym ni pam y gwnaethoch chi benderfynu na ddylai eich plentyn/plant gael y brechlyn? / Rydych wedi dweud nad ydych chi wedi cael y brechlyn ffliw ac nad ydych yn bwriadu gwneud hynny. A allech chi ddweud wrthym ni pam y gwnaethoch chi benderfynu peidio â chael y brechiad?**





Sylfaen: Y rhai nad ydynt wedi cael y brechiad ffliw ac nad ydynt yn bwriadu cael/y rhai nad yw eu plentyn/plant wedi cael y brechiad ffliw ac nad ydynt yn bwriadu iddyn nhw ei gael - Rhieni (30) a

Phobl Ifanc (66)
U5

Mae'r rhan fwyaf o rieni a gymerodd ran yn yr arolwg meintiol nad yw eu plentyn/plant wedi cael y brechlyn ffliw ac nad ydynt yn bwriadu iddynt ei gael yn dweud na fyddai unrhyw beth yn eu hannog i gael brechlyn ar gyfer eu plentyn/plant (61%). Nid yw 16% yn gwybod beth fyddai'n eu hannog. A dim ond lleiafrifoedd bach a roddodd awgrymiadau o bethau a fyddai'n eu hannog i frechu eu plentyn rhag y ffliw. Mae'r awgrymiadau hyn yn cynnwys: cael pigiad yn hytrach na'r chwistrell trwyn (6%), cael mwy o wybodaeth am ddiogelwch y brechlyn ffliw (4%), a chael eu talu i'w plentyn gael y brechlyn ffliw (4%).

Yn yr un modd â rhieni, mae mwyafrif y bobl ifanc nad ydynt wedi cael y brechlyn ffliw ac nad ydynt yn bwriadu ei gael yn dweud na fyddai unrhyw beth yn eu hannog i gael y brechlyn ffliw (30%) neu nad ydynt yn gwybod beth fyddai'n eu hannog i wneud hynny (37%). Fodd bynnag, mae bron i 2 o bob 10 yn dweud yr hoffent gael rhagor o wybodaeth am ddiogelwch y brechlyn ffliw (17%). Byddai llai nag 1 o bob 10 (7%) yn dweud y byddai cael eu talu yn eu hannog i gael eu brechu rhag y ffliw. Mae lleiafrif bach (3%) yn dweud y byddent yn fodlon cael eu brechu pe baent yn gwybod y byddai'r ffliw yn achosi perygl i'w bywydau.

**Ffigur 24: Beth fyddai'n eich annog i gael brechlyn ffliw ar gyfer eich plentyn/plant? / Beth fyddai'n eich annog chi i gael brechlyn ffliw?**




Sylfaen: Y rhai nad ydynt wedi cael y brechiad ffliw ac nad ydynt yn bwriadu cael/y rhai nad yw eu plentyn/plant wedi cael y brechiad ffliw ac nad ydynt yn bwriadu iddyn nhw ei gael - Rhieni (30) a Phobl Ifanc (66)
U6


Archwiliwyd y cymhellion i gael y brechlyn ffliw ymhlith y rhai sy'n dweud eu bod nhw (neu eu plentyn) wedi cael y brechlyn ffliw neu eu bod yn bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol (gweler Ffigur 25).

Ymhlith rhieni a phobl ifanc mae'r thema amddiffyn yn dod i'r amlwg yn gryf, gyda 61% o rieni plant sydd wedi cael neu a fydd yn cael y brechlyn ffliw yn dweud eu bod am wneud hynny i amddiffyn eu plentyn, a 34% yn dweud eu bod am frechu eu plentyn/plant i amddiffyn pobl eraill. Yn yr un modd, mae bron i hanner (49%) y bobl ifanc sydd wedi cael neu sy'n bwriadu cael y brechlyn ffliw yn cyfeirio at awydd i amddiffyn eu hunain, ac mae tua 1 o bob 3 (34%) yn dweud eu bod am amddiffyn eraill. At hynny, mae cyfrannau sylweddol o rieni (54%) a phobl ifanc (44%) yn credu mai cael y brechlyn ffliw yw'r peth arferol neu'r peth iawn i'w wneud.

Mae cyd-benderfyniad hefyd yn ffactor a grybwyllir ar gyfer cael y brechlyn gan rieni a phobl ifanc: mae tua 1 o bob 5 rhiant (18%) yn dweud bod eu plentyn/plant eisiau cael y brechlyn ffliw pan ofynnwyd iddynt am eu rhesymau dros frechu eu plentyn/plant yn erbyn y ffliw. Mae cyfran debyg o bobl ifanc (19%) yn dweud eu bod wedi cael neu yn cael y brechlyn ffliw oherwydd bod eu rhieni wedi dweud wrthynt am wneud hynny.

Yn wir, mae 38% o bobl ifanc sydd wedi cael neu sy'n bwriadu cael y brechlyn ffliw yn dweud eu bod eu rhieni, gweithwyr iechyd proffesiynol, y Llywodraeth, athrawon neu ffrindiau/cyfoedion wedi dweud wrthynt am wneud hynny. Mae rhieni hefyd yn dyfynnu argymhellion i gael y brechlyn ffliw - naill ai gan ysgolion, gweithwyr iechyd proffesiynol neu'r Llywodraeth - fel rheswm dros ddymuno i'w plentyn/plant gael eu brechu, ond mae'r gyfran hon yn is nag ar gyfer pobl ifanc (27% o rieni, o gymharu â 38% o bobl ifanc).

**Ffigur 25: Pam wnaethoch chi benderfynu cael y brechlyn ffliw / Pam ydych chi'n bwriadu cael y brechlyn ffliw?**





Sylfaen: Rhieni y mae eu plant wedi cael neu maen nhw'n bwriadu iddynt gael y brechlyn ffliw (179) a Phobl Ifanc sydd wedi cael neu sy'n bwriadu cael y brechlyn ffliw (308)
UX

## 7.7 Agweddau tuag at y brechlyn ffliw

Mae canfyddiadau o'r brechlyn ffliw yn gadarnhaol ar y cyfan, gydag o leiaf 6 o bob 10 rhiant yn cytuno'n gyffredinol â'r datganiadau wedi'u geirio'n gadarnhaol a restrir yn Ffigur 26. Mae bron i 8 o bob 10 rhiant yn ymddiried yn y brechlyn ffliw (77%) ac yn credu mai cael y brechlyn ffliw yw'r peth iawn i'w wneud ar gyfer eu plentyn/plant (78%). At hynny, mae tua thri chwarter yn credu mai brechu eu plentyn/plant yn erbyn y ffliw yw'r peth iawn i'w wneud i'w plant (75%) ac i gymdeithas (72%). Mae sgorau anghytuno yn isel, a'r sgôr anghytuno uchaf ar gyfer y datganiad wedi'i eirio'n gadarnhaol yw ar gyfer rhieni'n credu ei bod yn arferol i bobl o oedran eu plentyn/plant gael y brechlyn ffliw (12% yn anghytuno'n gyffredinol).

Gan droi at y datganiadau gyda safbwyntiau negyddol, mae dros hanner (56%) y rhieni'n anghytuno eu bod yn pryderu am gynhwysion y brechlyn ffliw, a dim ond 16% sy'n cytuno â hyn. Fodd bynnag, o'i gymharu â'r datganiad hwn, mae rhieni'n fwy tebygol o ddweud eu bod yn pryderu am sgil-effeithiau'r brechlyn ffliw, gyda 29% yn cytuno â hyn (a 48% yn anghytuno).

**Ffigur 26: Allwch chi ddweud wrthym ni i ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno gyda’r datganiadau canlynol? (Rhieni)**





Sylfaen: Pob Rhiant (230)
P2
*Nid yw’r ffigurau ar gyfer ‘ddim yn gwybod’ yn cael eu dangos er mwyn hwyluso’r darllen

Mae dadansoddiad pellach yn dangos bod rhieni sy'n pryderu am sgil-effeithiau a chynhwysion posibl y brechlyn ffliw yn fwy tebygol o ddweud nad yw eu plentyn/plant wedi cael y brechlyn ffliw ac nad ydynt yn bwriadu iddynt ei gael yn y dyfodol.

Gan symud ymlaen i archwilio canfyddiadau o'r brechlyn ffliw ymhlith pobl ifanc, mae mwyafrif yn cytuno â'r datganiad wedi'i eirio'n gadarnhaol a ddangosir yn Ffigur 27 er i raddau llai na rhieni. Mae dros 6 o bob 10 person ifanc yn ymddiried yn y brechlyn ffliw (67%) ac yn credu bod y brechlyn ffliw wedi'i brofi'n briodol (66%). Mae cyfran debyg (63%) yn credu mai cael y brechlyn ffliw yw'r peth iawn i'w wneud i gymdeithas. Mae dros hanner hefyd yn cytuno bod eu rhieni'n credu mai cael y brechlyn ffliw yw'r peth iawn i'w wneud (59%) ac mai cael y brechlyn ffliw yw'r peth iawn i'w wneud drostyn nhw eu hunain (57%). Mae'r sgorau anghytuno uchaf ar gyfer "Mae'n arferol i bobl fy oedran i gael y brechlyn ffliw" (mae 20% yn anghytuno a 48% yn cytuno).

O edrych ar y datganiadau sydd wedi'u geirio'n negyddol, mae cyfran fwy o bobl ifanc yn anghytuno na chytuno eu bod yn teimlo dan bwysau i gael y brechlyn ffliw (53% yn anghytuno a 21% yn cytuno). Yn yr un modd, mae 46% yn anghytuno eu bod yn pryderu am gynhwysion y brechlyn ffliw, o'i gymharu â 21% sy'n cytuno â hyn. Fodd bynnag, o ran pryderon ynghylch sgil-effeithiau'r brechlyn ffliw, mae'r sgôr anghytuno (37%) yn fwy tebyg i'r sgôr cytuno (30%), sy'n awgrymu bod gan 3 o bob 10 (30%) o bobl ifanc bryderon am sgil-effeithiau posibl y brechlyn ffliw.

**Ffigur 27: Allwch chi ddweud wrthym ni i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol? (Pobl Ifanc)**




Sylfaen: Pob Person Ifanc (457)
P2

Mae'r grwpiau canlynol o bobl ifanc yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn poeni am sgil-effeithiau posibl y brechlyn ffliw:

- y rhai sy'n byw yn y cwintel mwyaf difreintiedig (39%)
- y rhai nad ydynt wedi cael y brechlyn ffliw ac nad ydynt yn bwriadu gwneud hynny (49%)

Mae dadansoddiad atchweliad yn cadarnhau bod pryder ymhlith pobl ifanc am sgil-effeithiau'r brechlyn ffliw yn sbardun i wrthod y brechlyn hwn, tra bod diffyg pryder am hyn yn gysylltiedig â manteisio ar y brechlyn ffliw.

# 8. Y brechiad COVID-19

## 8.1 Cyflwyniad


Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y brechlyn COVID-19, yn dilyn strwythur tebyg i'r adran flaenorol o amgylch y brechlyn ffliw. Mae'n cynnwys ymwybyddiaeth o'r brechlyn COVID-19 sy'n cael ei gynnig i bobl ifanc ymhlith rhieni a phobl ifanc eu hunain, a pha mor wybodus mae rhieni a phobl ifanc teimlo am y brechlyn COVID-19. Mae'r adran hon hefyd yn ystyried y lefelau sy'n manteisio ar frechlyn COVID-19 yn ogystal â chymhellion a rhwystrau rhag manteisio arno, ac agweddau cyffredinol tuag at y brechlyn COVID-19 i bobl ifanc.

## 8.2 Ymwybyddiaeth o'r brechlyn COVID-19

Mae ymwybyddiaeth o'r ffaith fod brechlyn COVID-19 ar gael i blant 5 i 11 mlwydd oed mewn grwpiau risg a'r holl bobl ifanc 12 mlwydd oed a throsodd yng Nghymru yn uchel, gyda 9 o bob 10 (91%) o rieni a thri chwarter (75%) o bobl ifanc yn dweud eu bod yn ymwybodol o hyn. Mae saith y cant o rieni ac 20% o bobl ifanc yn dweud nad ydynt yn ymwybodol o hyn. Nid yw'r gweddill yn gwybod (2% o rieni a 4% o bobl ifanc).

O'i gymharu â'r brechlyn ffliw, mae ymwybyddiaeth o'r brechlyn COVID-19 yn uwch ymhlith rhieni a phobl ifanc: Mae 80% o rieni yn ymwybodol o'r brechlyn ffliw, o'i gymharu â 91% sy'n ymwybodol bod y brechlyn COVID-19 ar gael i bobl ifanc (gwahaniaeth o 11 pwynt canran). Ac mae 63% o bobl ifanc yn ymwybodol o'r brechlyn ffliw, o'i gymharu â 75% sy'n ymwybodol bod y brechlyn COVID-19 ar gael (gwahaniaeth o 12 pwynt canran).

**Ffigur 28: Mae plant 5 i 11 mlwydd oed mewn grwpiau risg a phob plentyn 12 mlwydd oed a throsodd yng Nghymru bellach yn cael cynnig brechlyn COVID-19 am ddim. Cyn heddiw, a oeddech chi'n ymwybodol o hyn?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
U1b

Mae rhieni sydd ag un plentyn 11 i 16 mlwydd oed yn unig yn fwy tebygol o ddweud nad ydynt yn ymwybodol bod y brechlyn COVID-19 ar gael i bobl ifanc 12 mlwydd oed a throsodd (10%).

Ymhlith pobl ifanc, mae'r grwpiau canlynol yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o beidio â bod yn ymwybodol bod y brechlyn COVID-19 ar gael i bobl ifanc 12 mlwydd oed a throsodd:

- y rhai rhwng 18 a 25 mlwydd oed (26%)
- dynion (24%)
- y rhai nad ydynt yn grefyddol (23%)
- y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, nad ydynt mewn addysg neu hyfforddiant llawn amser (38%)


## 8.3 Gwybodaeth am y brechlyn COVID-19


Mae Ffigur 29 yn dangos lefelau cytuno gyda chyfres o ddatganiadau ymhlith rhieni a phobl ifanc. Mae'r datganiadau hyn yn mesur faint o wybodaeth mae ymatebwyr yn teimlo sydd ganddynt am y brechlyn COVID-19 a faint maen nhw’n ymddiried yn y wybodaeth hon.

Mae tua 7 o bob 10 (72%) o rieni yn cytuno bod ganddynt ddigon o wybodaeth i wneud dewis ynghylch p’un a yw eu plentyn/plant yn cael y brechlyn COVID-19 ai peidio, ac mae cyfran ychydig yn uwch (79%) yn dweud eu bod yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth am y brechlyn COVID-19 ar gyfer eu plentyn/plant. At hynny, mae 6 o bob 10 yn cytuno eu bod yn gwybod sut mae'r brechlyn COVID-19 yn gweithio (66%), gyda chyfran debyg (64%) yn dweud eu bod yn ymddiried yn y wybodaeth a roddwyd iddynt am y brechlyn COVID-19 ar gyfer eu plentyn/plant. Mae tua 2 o bob 10 rhiant yn anghytuno â'r datganiadau hyn, ac eithrio gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth (mae 10% yn anghytuno â hyn). Mae'r sgôr anghytuno uchaf yn ymwneud ag ymddiriedaeth yn y wybodaeth a ddarparwyd am y brechlyn COVID-19, gyda 19% o rieni'n anghytuno eu bod yn ymddiried yn y wybodaeth hon. Mae hyn yn uwch na chyfran y rhieni nad ydynt yn ymddiried yn y wybodaeth a roddwyd iddynt am y brechlyn ffliw (nid yw 7% yn ymddiried yn y wybodaeth a roddwyd iddynt am y brechlyn ffliw, gwahaniaeth o 12 pwynt canran). Yn wir, ymhlith rhieni mae'r holl sgoriau anghytuno ar gyfer y datganiadau sy'n ymwneud â'r brechlyn COVID-19 yn uwch nag ar gyfer y brechlyn ffliw.

Wrth archwilio canlyniadau o safbwynt pobl ifanc, mae mwyafrif yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth am y brechlyn COVID-19 (74%) neu mae ganddynt ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ddylid cael y brechlyn COVID-19 ai peidio (62%). Mae llai na 2 o bob 10 person ifanc yn anghytuno â'r datganiadau hyn (9% a 15% yn y drefn honno). Fodd bynnag, mae anghytuno yn uwch ar gyfer y ddau ddatganiad arall: mae tua 1 o bob 5 yn anghytuno eu bod yn gwybod sut mae'r brechlyn COVID-19 yn gweithio (20%) neu eu bod yn ymddiried yn y wybodaeth a roddwyd iddynt am y brechlyn COVID-19 (17%). Mae dros hanner (57% a 59% yn y drefn honno) yn cytuno â'r datganiadau hyn. Ymhlith pobl ifanc mae'r rhan fwyaf o'r sgorau anghytuno ar gyfer datganiadau am COVID-19 a'r brechlyn ffliw yn debyg. Fodd bynnag, mae cyfran ychydig yn fwy o bobl ifanc nad ydynt yn ymddiried yn y wybodaeth a roddwyd iddynt am y brechlyn COVID-19 o gymharu â'r brechlyn ffliw (17% o gymharu â 13%).

**Ffigur 29: Allwch chi ddweud wrthym ni i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
P1b

Mae rhieni sydd â phlant 11 i 12 mlwydd oed yn fwy tebygol o anghytuno eu bod yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth am COVID-19 i'w plant (20%), fel y mae rhieni 18 i 35 mlwydd oed (19%). Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r rhai sy'n byw yng nghwintel amddifadedd 2 (19%), ac ymatebwyr anabl (26%).

O ran ymddiriedaeth yn y wybodaeth a ddarparwyd am y brechlyn COVID-19, mae'r is-grwpiau canlynol yn fwy tebygol o anghytuno eu bod yn ymddiried yn y wybodaeth hon: rhieni sydd wedi gweld gwybodaeth nad yw o blaid brechu (33%), a'r rhai nad yw eu plentyn/plant wedi cael y brechlyn COVID-19 ac nad ydynt yn bwriadu iddynt ei gael (74%).

Ymhlith pobl ifanc, mae gwrywod yn fwy tebygol o anghytuno eu bod yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth am COVID-19 (12%). Mae hyn hefyd yn wir am: pobl ifanc anabl (19%), y rhai nad ydynt yn ymddiried yn y brechlyn COVID-19 (20%), pobl ifanc sy'n byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (20%) a'r rhai sy'n byw yn y cwintel mwyaf difreintiedig (14%).


Fel y nodwyd gyda\r brechlyn ffliw, mae dadansoddiad atchweliad yn dangos bod ymddiried yn y wybodaeth a ddarperir am y brechlyn COVID-19 ymhlith pobl ifanc yn sbardun pwysig o ran manteisio ar yr imiwneiddiad hwn tra bod diffyg ymddiriedaeth yn y wybodaeth a ddarperir yn sbardun i wrthod y brechlyn COVID-19.

## 8.4 Manteisio ar y brechlyn COVID-19

Mae tua 6 o bob 10 (57%) o rieni yn dweud bod eu plentyn/plant wedi cael brechlyn COVID-19 am ddim tra bod 2 o bob 5 (42%) yn dweud i’r gwrthwyneb. Nid yw'r gweddill (*%) yn gwybod. Mae hyn ychydig yn is na chyfran y rhieni a ddywedodd fod eu plentyn/plant wedi cael y brechlyn ffliw (dywedodd 71% fod eu plentyn/plant wedi cael brechlyn ffliw am ddim).

Ar y llaw arall, mae 7 o bob 10 (72%) o bobl ifanc yn dweud eu bod wedi manteisio ar y cynnig i gael brechlyn COVID-19 am ddim, gydag 1 o bob 4 (26%) yn nodi i'r gwrthwyneb. Nid yw'r 2% sy'n weddill yn siŵr a ydynt wedi cael brechlyn ffliw am ddim. Yn wahanol i rieni, mae cyfran uwch o bobl ifanc yn dweud eu bod wedi cael y brechlyn COVID-19 o'i gymharu â'r brechlyn ffliw (dywedodd 49% eu bod wedi cael brechlyn ffliw am ddim, cyfran o 23 pwynt canran yn is o gymharu â'r rhai sy'n dweud eu bod wedi cael brechlyn COVID-19 am ddim).

**Ffigur 30: A yw eich plentyn/plant wedi cael brechlyn COVID-19 am ddim? / Ydych chi wedi cael brechlyn COVID-19 am ddim?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
U3b

Mae rhieni plant 11 i 12 mlwydd oed yn fwy tebygol o ddweud nad yw eu plentyn wedi cael brechlyn COVID-19 am ddim (65%). Fodd bynnag, gellir disgwyl hyn o ystyried bod y brechlyn COVID-19 ar gael yn gyffredinol i'r rhai 12 mlwydd oed a throsodd felly nid yw pobl ifanc 11 mlwydd oed yn gymwys. At hynny, mae rhieni sy'n credu bod brechlynnau'n waeth na'r afiechydon maen nhw'n amddiffyn rhagddynt hefyd yn fwy tebygol o ddweud nad yw eu plentyn/plant wedi cael brechlyn COVID-19 (60%). Mae hyn hefyd yn wir am: rieni sydd â mwy nag un plentyn 11 i 16 mlwydd oed (49%), rhieni nad ydynt wedi gweld unrhyw gyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru (58%), y rhai nad ydynt yn ymddiried yn y brechlyn COVID-19 (75%), y rhai nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth am y brechlyn COVID-19 neu nad ydynt yn gwybod ble i ddod o hyd iddo (64%), a'r rhai sy'n byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (64%).

Ymhlith pobl ifanc, mae'r rhai rhwng 11 a 15 mlwydd oed yn fwy tebygol o fod wedi cael brechlyn COVID-19 (52%) ond gallwn ddisgwyl i hyn gael ei yrru gan bobl ifanc 11 mlwydd oed nad ydynt yn gymwys. Ar wahân i hyn, mae'r is-grwpiau canlynol o bobl ifanc yn fwy tebygol o ddweud nad ydynt wedi cael brechlyn COVID-19:

- y rhai sy'n byw yn y cwintel mwyaf difreintiedig (34%)
- ymatebwyr Cristnogol (34%)
- y rhai nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth neu nad ydynt yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth am y brechlyn COVID-19 (40%)
- y rhai sydd wedi gweld cymysgedd o wybodaeth o blaid ac yn erbyn brechu (44%)
- y rhai nad ydynt wedi gweld unrhyw gyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru (44%)
- y rhai nad ydynt yn ymddiried yn y brechlyn COVID-19 (54%)

Gofynnwyd i rieni nad yw eu plant wedi cael brechlyn COVID-19 am ddim a ydynt yn bwriadu iddynt ei gael yn y dyfodol (gweler Ffigur 31). Mae bron i 2 o bob 5 (38%) o rieni nad yw eu plentyn/plant wedi cael eu brechu rhag COVID-19 yn dweud eu bod yn bwriadu i'w


plentyn/plant gael y brechlyn hwn yn y dyfodol. Mae tri o bob 10 (30%) yn nodi i'r gwrthwyneb ac nid yw'r gweddill (31%) yn gwybod.

Mae cyfran y rhieni sy'n dweud nad ydynt yn bwriadu i'w plentyn gael COVID-19 yn y dyfodol 12 pwynt canran yn is na'r gyfran sy'n dweud nad ydynt yn bwriadu brechu eu plentyn/plant yn erbyn y ffliw (30% o gymharu â 47%).

O edrych ar hyn o safbwynt pobl ifanc, mae mwyafrif (46%) o'r rhai nad ydynt wedi cael brechlyn COVID-19 yn dweud nad ydynt yn bwriadu ei gael yn y dyfodol. Mae tri o bob 10 (32%) yn nodi i'r gwrthwyneb ac mae'r 22% sy'n weddill yn ansicr.

O'i gymharu â'r ateb sy'n ymwneud â'r brechlyn ffliw, mae cyfran debyg o bobl ifanc nad ydynt wedi cael y brechlyn COVID-19 yn dweud nad ydynt yn bwriadu ei gael yn y dyfodol (-6 phwynt canran o gymharu â'r brechlyn ffliw).

**Ffigur 31: Fe wnaethoch chi ddweud nad yw eich plentyn/plant wedi cael brechlyn COVID-19 am ddim. Ydych chi'n bwriadu i'ch plentyn/plant gael y brechiad hwn yn y dyfodol neu ar ôl iddynt ddod yn gymwys? / Fe wnaethoch chi ddweud nad ydych chi wedi cael brechlyn COVID-19 am ddim. Ydych chi'n bwriadu cael y brechiad hwn yn y dyfodol neu ar ôl i chi ddod yn gymwys?**




Sylfaen: Rhieni nad yw eu plentyn/plant wedi cael brechlyn COVID-19 am ddim (97) a Phobl Ifanc nad ydynt wedi cael brechlyn COVID-19 am ddim (124)
U4b


## 8.5 Lleoliadau a ffefrir i gael y brechlyn COVID-19

Mae'r mwyafrif llethol o rieni plant sydd wedi cael brechlyn ffliw am ddim yn dweud bod eu plentyn wedi cael y brechlyn COVID-19 mewn canolfan frechu (82%). Dilynir hyn gan ganolfan galw heibio (8%).

Yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc (73%) sydd wedi cael brechlyn COVID-19 yn dweud mai canolfan frechu oedd y lleoliad lle cawsant y brechlyn hwn, ac yna canolfan galw heibio (10%).

Cafodd lleoliadau eraill eu crybwyll gan lai na 10% o rieni a phobl ifanc yn y drefn honno.

**Ffigur 32: Ble cafodd eich plentyn/plant eu brechlyn COVID-19? / Ble cawsoch chi eich brechlyn COVID-19?**




Sylfaen: Y rhai sydd wedi cael y brechlyn COVID-19/eu plentyn/plant wedi cael brechlyn rhag y COVID-19 - Rhieni (132) a Phobl Ifanc (321)
LXb


Yna gofynnwyd i'r holl ymatebwyr am eu dewisiadau o ran lleoliadau i gael y brechlyn COVID-19 (gweler Ffigur 33).

I rieni, mae ysgolion (30%), canolfannau brechu (25%), a phractis meddyg teulu (16%) ar frig y rhestr o leoliadau a ffefrir i gael y brechlyn ffliw ac mae 17% yn dweud nad oes ots ganddynt.

Ymhlith pobl ifanc, mae rhai gwahaniaethau yn ôl oedran o ran y lleoliadau a ffefrir i gael y brechlyn COVID-19. Mae'r rhai rhwng 11 ac 16 mlwydd oed yn fwy tebygol o ddewis ysgol fel lleoliad a ffefrir (25%). Ar gyfer grwpiau hŷn (e.e. 18 i 25), fodd bynnag, mae canolfannau brechu ar y brig o ran dewis (42%), ac yna practis meddyg teulu (26%). Yn gyffredinol, nid oes ots gan tua 1 o bob 5 (18%) o bobl ifanc ble maen nhw'n cael y brechlyn COVID-19.

Mae rhai gwahaniaethau o ran lleoliad a ffefrir yn dibynnu ar p’un a ydym yn holi am y ffliw neu'r brechlyn COVID-19. Mae'n well gan y rhan fwyaf o bobl ifanc gael y brechlyn COVID-19 mewn canolfan frechu neu feddygfa, a'r lleoliad a ffefrir i gael y brechlyn ffliw yw ysgolion a phractis meddyg teulu.

**Ffigur 33: Ac os gallech chi ddewis, ble fyddai'n well gennych chi i'ch plentyn/plant gael brechlyn COVID-19? / Ac os gallech chi ddewis, ble fyddai'n well gennych chi gael brechlyn COVID-19?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
L2b

## 8.6 Rhwystrau a chymhellion i fanteisio ar y brechlyn COVID-19

Gofynnwyd i'r lleiafrif o rieni (30) a ddywedodd nad oedd eu plentyn/plant wedi cael y brechlyn COVID-19 ac nad ydynt yn bwriadu iddynt ei gael yn y dyfodol am eu rhesymau dros benderfynu na ddylai eu plentyn/plant gael y brechlyn hwn (gweler Ffigur 34). Mae'r mwyafrif llethol o'r rhieni hyn (74%) yn cyfeirio at gred nad yw'r brechlynnau COVID-19 wedi cael eu profi'n briodol. Dilynir hyn gan bryderon am sgil-effeithiau (64%) ac ymddiriedaeth yn system imiwnedd plant (50%). Mae dau o bob 5 (42%) yn dweud nad ydynt yn ymddiried yn y brechlyn COVID-19. Mae rhesymau amlwg eraill dros beidio â brechu plant yn erbyn COVID-19 yn cynnwys canfyddiad nad yw COVID-19 yn salwch digon difrifol i'w gwneud yn ofynnol cael brechlyn (37%) a rhieni'n dweud nad oedd y plentyn/plant am gael y brechlyn COVID-19 (35%).


O'i gymharu â'r canlyniadau ar gyfer y cwestiwn hwn pan ofynnir iddynt am y brechlyn ffliw, gellir sylwi bod y canfyddiad nad yw brechlynnau'n cael eu profi'n briodol yn fwy amlwg pan

ofynnir iddynt am COVID-19 o gymharu â'r brechlyn ffliw (cyfeiriodd 4% o rieni nad ydynt yn bwriadu brechu eu plentyn rhag y ffliw at ofnau nad yw'r brechlynnau hyn yn cael eu profi'n briodol, o gymharu â 74% o'r rhieni hynny nad ydynt yn bwriadu brechu eu plentyn yn erbyn COVID-19 a nododd y rheswm hwn pan ofynnwyd iddynt am COVID-19).

Yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc nad ydynt wedi cael ac nad ydynt yn bwriadu cael y brechlyn COVID-19 yn dweud mai'r rheswm am hyn yw eu bod yn credu nad yw brechlynnau COVID-19 wedi cael eu profi'n briodol (48%). Dywed cyfrannau tebyg eu bod yn ymddiried yn eu system imiwnedd (46%) ac yn nodi diffyg ymddiriedaeth yn y brechlynnau (44%). Mae rheswm amlwg arall ymhlith pobl ifanc dros beidio â chynllunio i gael y brechlyn COVID-19 yn ymwneud â phryderon ynghylch sgil-effeithiau (43%).

Fel y nodwyd gyda rhieni, mae cyfran y bobl ifanc sy'n cyfeirio at bryderon ynghylch brechlynnau yn cael eu profi'n briodol yn uwch pan ofynnwyd iddynt am COVID-19 o gymharu â'r ffliw (48% o gymharu â 7% a gyfeiriodd at hyn pan ofynnwyd iddynt am y ffliw). Mae sôn am bryderon am sgil-effeithiau hefyd yn fwy cyffredin pan ofynnir iddynt am COVID-19 (cyfeiriodd 24% at sgil-effeithiau pan ofynnwyd iddynt am resymau dros beidio â chael y brechlyn ffliw, o'i gymharu â 43% a gyfeiriodd at y thema hon pan ofynnwyd iddynt am y brechlyn COVID-19), fel y mae sôn am ddiffyg ymddiriedaeth yn y brechlynnau (soniodd 20% am hyn pan ofynnwyd am y brechlyn ffliw, o gymharu â 44% a gyfeiriodd at y thema hon pan ofynnwyd am resymau dros beidio â chael y brechlyn COVID-19).

**Ffigur 34: Rydych chi wedi dweud nad yw eich plentyn/plant wedi cael y brechlyn COVID-19 ac nad ydych yn bwriadu iddynt ei gael. A allech chi ddweud wrthym ni pam y gwnaethoch chi benderfynu na ddylai eich plentyn/plant gael y brechlyn? / Rydych wedi dweud nad ydych chi wedi cael y brechlyn COVID-19 ac nad ydych yn bwriadu gwneud hynny. A allech chi ddweud wrthym ni pam y gwnaethoch chi benderfynu peidio â chael y brechiad?**




Sylfaen: Y rhai nad ydynt wedi cael y brechiad COVID-19 ac nad ydynt yn bwriadu cael/y rhai nad yw eu plentyn/plant wedi cael y brechiad COVID-19 ac nad ydynt yn bwriadu iddyn nhw ei gael - Rhieni

(30) a Phobl Ifanc (55)
U5b

Soniwyd hefyd am sgil-effeithiau fel pryder yn bennaf gan rieni a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws ansoddol:

> *"Ar ôl Covid, roedd pobl yn lledaenu sïon am sgil-effeithiau. Nid wyf wedi rhoi'r brechlyn i'm mab ar hyn o bryd oherwydd dywedodd yr ymgynghorydd wrthyf y byddai'r sgil-effeithiau'n effeithio ar ei ysgyfaint. Roedd gen i bryderon am yr un COVID yn enwedig".* Gofalwr i Ddyn, 13, BAME

> *"Byddai'n dda gwybod cymhareb sgil-effeithiau y gallent eu hachosi fel fy mod i'n gwybod beth i gadw llygad amdano".* Gwryw, 53, Gwyn Prydeinig

Mae grwpiau ffocws ansoddol yn dangos mai rhwystr arall i gael y brechlyn COVID-19 yw'r anfanteision negyddol sy'n gysylltiedig â nodwyddau. Cafodd y thema hon hefyd ei chrybwyll gan 20% o bobl ifanc nad ydynt wedi cael ac nad ydynt yn bwriadu cael y brechlyn COVID-19 (gweler Ffigur 34).

> *"Pan dwi'n meddwl am frechlynnau, dwi'n meddwl am y boen".* Merch, 15, Gwyn

> *"Dwi'n teimlo fel mod i'n mynd 'o na, mae'n rhaid i mi gael y brechlyn' a dwi'n meddwl am y nodwydd".* Merch, 22, Gwyn


Yna gofynnwyd i rieni a gymerodd ran yn yr arolwg meintiol ac a ddywedodd nad oedd eu plentyn/plant wedi cael y brechlyn COVID-19 ac nad ydynt yn bwriadu iddynt ei gael beth fyddai'n eu hannog i frechu eu plentyn/plant yn erbyn COVID-19. Gofynnwyd y cwestiwn hwn hefyd i bobl ifanc nad ydynt wedi cael ac nad ydynt yn bwriadu cael brechlyn COVID-19 yn y dyfodol. Dywedodd y mwyafrif llethol o rieni a phobl ifanc naill ai na fyddai dim yn eu hannog neu nad ydynt yn gwybod.

Mae Ffigur 35 yn dangos y cymhellion i gael y brechlyn COVID-19 ymhlith rhieni plant sydd wedi cael eu brechu neu a fydd yn cael eu brechu ac ymhlith pobl ifanc eu hunain.

I rieni a phlant, amddiffyn yr unigolyn a phobl eraill yw'r prif gymhellion ar gyfer cael y brechlyn COVID-19 (60% ymhlith pobl ifanc a 66% ymhlith rhieni). Teimlad mai cael y brechlyn COVID-19 yw'r peth iawn i'w wneud yw'r trydydd cymhelliant a grybwyllir amlaf ymhlith rhieni (37%) a phobl ifanc (39%). At hynny, soniwyd hefyd am gymdeithasu neu deithio fel cymhelliant i gael y brechlyn COVID-19 gan gyfrannau sylweddol o rieni (29%) a phobl ifanc (33%). Fodd bynnag, mae'r themâu hyn sy'n ymwneud â hamdden yn llai amlwg nag amddiffyn a chredu mai cael y brechlyn COVID-19 yw'r peth iawn i'w wneud neu'r hyn sydd angen ei wneud i drechu'r feirws, ymhlith rhieni a phobl ifanc.

Y prif gymhellion hyn sy'n ymwneud ag amddiffyn neu'r peth iawn hefyd oedd y prif gymhellion dros gael y brechlyn ffliw.

**Ffigur 35: Pam wnaethoch chi benderfynu cael y brechlyn COVID-19? / Pam ydych chi'n bwriadu cael y brechlyn COVID-19?**




Sylfaen: Y rhai nad ydynt wedi cael y brechiad COVID-19 ac nad ydynt yn bwriadu ei gael/y rhai nad yw eu plentyn/plant wedi cael y brechiad COVID-19 ac nad ydynt yn bwriadu iddyn nhw ei gael - Rhieni (168) a Phobl Ifanc (363)
UXb

Mae grwpiau ffocws ansoddol hefyd yn dangos bod amddiffyn eich hun ac eraill yn gymhelliant cryf i gael y brechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw. Soniodd rhieni a phobl ifanc am hyn:

> *"Yn enwedig gyda COVID, doeddwn i ddim eisiau ei gael a'i roi i fy nain a fy nhaid".* Merch, 12, Gwyn
>
> *"Rwy'n credu eu bod [brechlynnau] yn dda oherwydd eu bod yn helpu i gyfyngu ar yr hyn rydych chi'n ei gael o ran salwch".* Merch, 15, Gwyn
>
> *"Rwy'n credu y dylem ni gael y brechlynnau i amddiffyn eraill".* Merch, 22, Gwyn
>
> *"Cyn belled â bod y profion angenrheidiol yn cael eu cynnal a'u bod yn cael eu profi'n drylwyr, maen nhw'n dda am eu bod nhw'n amddiffyn pobl ifanc".* Gwryw, 53, Gwyn Prydeinig
>
> *"Dydw i ddim yn credu ei fod o reidrwydd yn amddiffyn pobl iau, oherwydd nid ydyn nhw mewn perygl [o salwch difrifol o'r ffliw], ond eto os ydych chi'n meddwl am imiwnedd torfol a'r ffaith ei fod yn amddiffyn pobl hŷn yna ydy mae'n dda".* Gwryw, 51, Gwyn Prydeinig

Ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu, ystyrir bod eu hamddiffyn gyda brechlynnau yn arbennig o bwysig:

> *"Mae'r ffaith bod [brechlynnau] yn ataliol, yn enwedig os nad oes gan y person leferydd da, [yn golygu] y gellir eu diogelu oherwydd na fyddent yn gallu siarad am y symptomau [pe baent yn cael COVID-19]".* Gofalwr i fenyw 17 mlwydd oed, BAME

At hynny, soniodd lleiafrif o bobl ifanc mewn grwpiau ffocws ansoddol am normaleiddio fel rheswm dros gael y brechlyn ffliw a'r brechlyn COVID-19:

> *"Ddim yn siŵr mewn gwirionedd [pam y penderfynais gael y brechlyn COVID-19], mae'n normal ei gael oherwydd bod pawb arall yn ei gael".* Merch, 15, Gwyn
>
> *"Fe wnes i ei gael oherwydd ei fod yn normal".* Merch, 15, Gwyn

Soniwyd hefyd am weithgareddau cymdeithasu neu hamdden fel cymhelliant i gael brechlyn COVID-19 gan rai pobl ifanc, er i raddau llai o lawer na'r amddiffyniad a'r normalrwydd:

> *"Roeddem i gyd eisiau i bethau fynd yn ôl i normal ac roeddem i gyd yn chwarae ein rhan i sicrhau bod hyn yn digwydd".* Merch, 24, Gwyn Prydeinig
>
> *"Doeddwn i ddim yn gallu disgwyl i bethau fynd yn ôl i normal, roedd gen i fy nosbarthiadau carate ar-lein am amser hir felly byddai cael y brechlynnau yn golygu y byddai pethau'n mynd yn ôl i normal yn gynt".* Merch, 13, Gwyn Prydeinig

## 8.7 Agweddau tuag at y brechlyn COVID-19


Mae Ffigur 36 yn dangos canfyddiadau rhieni o'r brechlyn COVID-19 ar gyfer plant a phobl ifanc.

Er bod mwyafrif yn cytuno â'r holl ddatganiadau sydd wedi'u geirio'n gadarnhaol, mae sgorau cytuno yn is nag ar gyfer y datganiadau sy'n cyfeirio at y brechlyn ffliw, gan awgrymu bod canfyddiadau o'r brechlyn COVID-19 ychydig yn fwy negyddol na chanfyddiadau o'r brechlyn ffliw. Yn gyffredinol, mae dros 6 o bob 10 rhiant yn credu mai brechu eu plant rhag COVID-19 yw'r peth iawn i'w wneud drostyn nhw (65%) ac i gymdeithas (67%). Mae cyfran debyg (63%) yn cytuno bod eu plentyn/plant yn credu mai cael y brechlyn COVID-19 yw'r

peth iawn i'w wneud. Mae chwech o bob 10 (60%) o rieni hefyd yn dweud eu bod yn ymddiried yn y brechlyn COVID-19. Y datganiad wedi'i eirio'n gadarnhaol gyda'r sgorau anghytuno uchaf yw "Mae'r brechlyn COVID-19 wedi'i brofi'n briodol", gyda chwarter (25%) y rhieni yn anghytuno â hyn (a 55% yn cytuno). Mae hyn yn dangos bod cryn dipyn o waith i'w wneud eto i roi sicrwydd i rieni am ddiogelwch y brechlyn COVID-19.

O ran y datganiadau sydd wedi'u geirio'n negyddol, mae cytuno â'r datganiadau hyn yn uwch nag anghytuno, sy'n awgrymu bod pryderon ynghylch sgil-effeithiau a chynhwysion y brechlyn COVID-19. Felly, mae 2 o bob 5 (40%) o rieni yn cytuno eu bod yn pryderu am gynhwysion y brechlyn COVID-19 (ac mae 32% yn anghytuno). Mae sgôr cytuno ar gyfer pryderon ynghylch sgil-effeithiau hyd yn oed yn uwch na hyn, gyda 6 o bob 10 (61%) o rieni'n dweud eu bod yn poeni am sgil-effeithiau'r brechlyn COVID-19 (a 24% yn anghytuno). Mae'r canlyniadau hyn yn arbennig o wahanol i'r canlyniadau ar gyfer y datganiad hwn mewn perthynas â'r brechlyn ffliw, gyda'r rhai sy'n ymwneud â'r ffliw yn cael sgorau anghytuno uwch na sgorau cytuno, sy'n awgrymu bod llai o rieni'n pryderu am gynhwysion a sgil-effeithiau'r brechlyn ffliw o'i gymharu â'r brechlyn COVID-19.

**Ffigur 36: Allwch chi ddweud wrthym ni i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol? (Rhieni)**




Sylfaen: Pob Rhiant (230)
P2b
*Nid yw'r ffigurau ar gyfer 'ddim yn gwybod' yn cael eu dangos er mwyn hwyluso'r darllen

Mae rhieni plant nad ydynt wedi cael y brechlyn COVID-19 ac nad ydynt yn bwriadu iddynt ei gael yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn poeni am gynhwysion ac sgil-effeithiau'r brechlyn COVID-19. Mae hyn hefyd yn wir am rieni nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth neu nad ydynt yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth am y brechlyn COVID-19 i bobl ifanc.


O edrych ar ganfyddiadau o'r brechlyn COVID-19 ymhlith pobl ifanc, mae lefelau cytuno â'r datganiadau sydd wedi'u geirio'n gadarnhaol am y brechlyn COVID-19 ymhlith pobl ifanc yn debyg i lefelau cytuno â'r datganiadau sydd wedi'u geirio'n gadarnhaol am y brechlyn ffliw. Mae hyn yn wahanol i rieni, sy'n tueddu i fod yn fwy negyddol am y brechlyn COVID-19.

Mae tua 6 o bob 10 o bobl ifanc yn cytuno bod eu rhieni/gwarcheidwaid yn credu mai cael y brechlyn COVID-19 yw'r peth iawn i'w wneud (67%), ac mai cael y brechlyn COVID-19 yw'r peth iawn i'w wneud i gymdeithas (66%). I'r gwrthwyneb, mae'r sgorau anghytuno uchaf ar gyfer y datganiadau sydd wedi'u geirio'n gadarnhaol yn ymwneud â phrofi'r brechlyn COVID-19 yn briodol (mae 24% yn anghytuno a 48% yn cytuno), ac ymddiriedaeth yn y brechlyn COVID-19 (20% yn anghytuno a 54% yn cytuno). Mae hyn yn dangos bod angen gwneud mwy i sicrhau bod pobl ifanc yn ymddiried yn y brechlyn COVID-19 ac i'w sicrhau bod y brechlynnau hyn wedi'u profi'n briodol.

O ran y datganiadau sydd wedi'u geirio'n negyddol, fel y gwelir gyda rhieni, mae gan bob datganiad gytundeb uwch nag anghytundeb neu sgorau cytuno ac anghytuno tebyg, sy'n awgrymu bod pryderon ymhlith pobl ifanc am gynhwysion ac sgil-effeithiau'r brechlyn COVID-19, yn ogystal â theimlad o bwysau i gael y brechlyn COVID-19. Mae mwy na hanner y bobl ifanc (52%) yn cytuno eu bod yn poeni am sgil-effeithiau'r brechlyn COVID-19 (ac mae 22% yn anghytuno). Mae 2 o bob 5 (43%) yn cytuno eu bod yn teimlo dan bwysau i gael y brechlyn COVID-19 (ac mae 33% yn anghytuno). Yn ogystal, mae 1 o bob 3 (32%) yn pryderu am gynhwysion y brechlyn COVID-19 (ac mae 33% yn anghytuno).

Fel y gwelwyd ar gyfer rhieni, mae pobl ifanc hefyd yn fwy tebygol o bryderu am gynhwysion a sgil-effeithiau'r brechlyn COVID-19 na'r brechlyn ffliw.

**Ffigur 37: Allwch chi ddweud wrthym ni i ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno gyda’r datganiadau canlynol? (Pobl Ifanc)**




Sylfaen: Pob Person Ifanc (457)
P2b

Mae pobl ifanc nad ydynt wedi cael y brechlyn COVID-19 ac nad ydynt yn bwriadu iddynt ei gael yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn poeni am gynhwysion (50%) a sgil-effeithiau (65%) brechlyn COVID-19.

Mae dadansoddiad atchweliad yn cadarnhau bod pryder ymhlith pobl ifanc am gynhwysion y brechlyn COVID-19 yn sbardun i wrthod y brechlyn hwn, tra bod diffyg pryder am hyn yn gysylltiedig â manteisio ar y brechlyn COVID-19.

Mae grwpiau ffocws ansoddol yn datgelu mai cyflymder datblygu a chymeradwyo'r brechlynnau COVID-19 i'w defnyddio yw un o'r rhesymau pam mae mwy o bobl yn amheus yn eu cylch:

> *"Mae pa mor gyflym mae hwn wedi'i ddatblygu a'i reoleiddio yn ychwanegu at yr amheuaeth".* Gwryw, 53, Gwyn Prydeinig

At hynny, er bod mwyafrif y bobl ifanc a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws ansoddol yn dweud ei bod yn normal i bobl o'u hoedran gael y brechlyn COVID-19, mae rhai amheuon ymhlith rhieni ynghylch pa mor normal fydd brechlynnau COVID-19 wrth symud ymlaen:

> *"Dydw i ddim yn gwybod, mae'n dibynnu pa mor hir fydd Covid o gwmpas [p’un a fydd brechiadau COVID-19 yn cael eu hystyried yn normal i bobl ifanc]. Fe wnaeth*

*Clefyd y Gwartheg Gwallgof gyrraedd a mynd fel feirws ac fe wnaeth llawer o bobl wnaeth ei ddal fyw".* Merch, 41, Gwyn Prydeinig

*"Rwy'n credu y daw diwedd i'r feirws hwn a dydw i ddim yn gweld pam y dylem barhau i roi brechiadau atgyfnerthu ar gyfer hyn".* Gwryw, 48, Gwyn Prydeinig

*"Mae'n dibynnu ar ddifrifoldeb yr effeithiau [bydd amrywiolion newydd] yn eu cael [o ran a fydd brechiadau COVID-19 yn cael eu hystyried yn normal i bobl ifanc]. Os yw effeithiau COVID-19 yn parhau i fod mor ddifrifol yna dylem barhau â'r brechiad".* Merch, 34, Gwyn Prydeinig

Mae pobl ifanc a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws ansoddol yn credu mai pobl eraill o'u hoedran nhw'n cael y brechlyn COVID-19 a'r brechlyn hwn yn cael ei gynnig yn rheolaidd fydd y prif ffyrdd o'i normaleiddio:

*"Os ydy rhywun yn cael y brechlyn, yna bydd gweddill y bobl yn ei gael hefyd".* Gwryw, 15, Gwyn Prydeinig

*"Os ydyn nhw'n credu y dylid rhoi'r brechlyn yn flynyddol, ymhen amser bydd yn cael ei normaleiddio fel y brechlyn ffliw a'r MOT".* Merch, 23, Gwyn Prydeinig

# 9. Barn ar gyd-weinyddu


## 9.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn archwilio barn rhieni a phobl ifanc ar gyd-weinyddu'r brechlyn ffliw a brechlyn COVID-19, hynny yw a yw'n well ganddynt gael y ddau frechlyn ar yr un pryd, neu ar ddiwrnodau gwahanol (gweler Ffigur 38).

## 9.2 Barn ar gyd-weinyddu

Mae'r farn ymhlith rhieni a phobl ifanc yn gymysg, gyda chyfrannau ychydig yn uwch yn dweud y byddai'n well ganddynt gael y ddau frechlyn ar ddiwrnod gwahanol (40% o rieni a 42% o bobl ifanc) nag ar yr un diwrnod (mae 30% o rieni a 27% o bobl ifanc yn ffafrio gweinyddu'r ddau frechlyn ar yr un pryd). Nid oes ots gan y gweddill neu nid ydynt yn siŵr beth sydd orau ganddynt.

**Ffigur 38: Pe gallai pobl ddewis p'un a ydynt am gael brechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw ar yr un pryd neu ar ddyddiadau gwahanol, beth fyddai orau gennych chi ar gyfer eich plentyn/plant? / Pe gallai pobl ddewis p'un a ydynt am gael brechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw ar yr un pryd neu ar ddyddiadau gwahanol, beth fyddai orau gennych chi?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
C0

Mae pobl ifanc rhwng 18 a 25 mlwydd oed yn fwy tebygol o ffafrio cael y brechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw ar wahanol ddyddiau (47%), fel y mae'r rhai sy'n byw yn y cwintel lleiaf difreintiedig (59%). I'r gwrthwyneb, mae'r rhai yng nghwintel amddifadedd 2 yn fwy tebygol o ffafrio cael y ddau frechlyn ar yr un pryd (36%).

Mae grwpiau ffocws ansoddol yn dangos mai pryderon ynghylch symptomau yw'r prif resymau pam y byddai'n well gan bobl ifanc gael brechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw ar wahanol ddyddiau:

> *"Hoffwn eu cael ar wahân oherwydd pe bai gen i broblem, hoffwn wybod pa un sydd yn ei achosi".* Gwryw, 12, Gwyn Prydeinig
>
> *"Mae'n dibynnu ar yr effeithiau. Roeddwn i'n sâl iawn ar ôl fy ail ddos [COVD-19] ac os byddwn i'n cael ddwbl yr adweithiau, yna byddwn i'n eu cael ar wahân".* Merch, 23, Gwyn Prydeinig

Mae'r rhai y byddai'n well ganddynt gael y ddau frechlyn ar yr un pryd yn dweud y byddai hyn yn fwy cyfleus:

> *"Gyda'i gilydd i'w gael o drosodd".* Gwryw, 21, Gwyn Prydeinig

*"Hoffwn ei gael ar yr un pryd fel bod y cyfan wedi'i wneud ar yr un pryd ac mae'n arbed gorfod mynd yn ôl ar wahanol ddyddiau".* Gwryw, 15, Gwyn Prydeinig

# 10. Prosesau gwneud penderfyniadau

## 10.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn archwilio'r ffyrdd mae pobl ifanc a'u rhieni yn gwneud penderfyniadau ynghylch p'un a yw'r person ifanc yn cael ei frechu ai peidio. Mae'n archwilio i ba raddau mae pobl ifanc yn gallu gwneud penderfyniadau, eu dewisiadau o ran gwneud penderfyniadau, yn ogystal ag unrhyw anghytuno rhwng rhieni a phobl ifanc ar frechiadau ar gyfer yr olaf.


## 10.2 Gallu pobl ifanc wrth ddod i benderfyniad am frechlynnau COVID-19 a ffliw


Mae Ffigur 39 yn dangos i ba raddau mae rhieni'n cytuno bod eu plant yn gallu gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid cael y brechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw ai peidio. Mae hefyd yn dangos barn pobl ifanc ar eu gallu i wneud penderfyniad ynghylch a ddylid cael y brechlynnau hyn ai peidio.

Mae bron i 7 o bob 10 rhiant yn cytuno bod eu plant yn gallu gwneud eu dewis eu hunain ynghylch a ddylid cael y brechlyn COVID-19 (68%) a'r brechlyn ffliw (67%) ai peidio. Mae llai na 2 o bob 10 rhiant yn anghytuno â hyn (18% mewn perthynas â'r brechlyn COVID-19 ac 16% mewn perthynas â'r brechlyn ffliw).

Mae cyfrannau tebyg o bobl ifanc yn cytuno y gallant wneud eu dewis eu hunain ynghylch a ddylid cael y brechlyn COVID-19 (67%) a'r brechlyn ffliw (70%) ai peidio. Mae tua 1 o bob 10 yn anghytuno â hyn (19% mewn perthynas â brechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw yn y drefn honno).

**Ffigur 39: Allwch chi ddweud wrthym ni i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
P1/P1b

Mae pobl ifanc rhwng 18 a 25 mlwydd oed yn fwy tebygol o anghytuno y gallant wneud eu dewis eu hunain ynghylch a ddylid cael y brechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw ai peidio (14% ar gyfer y brechlyn ffliw ac 16% ar gyfer y brechlyn COVID-19).


## 10.3 Caniatâd ar gyfer brechiadau i bobl ifanc 13 mlwydd oed a hŷn

Gofynnwyd i rieni pobl ifanc 13 i 16 mlwydd oed am eu hymwybyddiaeth o'r ffaith y gallai plant a phobl ifanc 13 mlwydd oed a hŷn roi caniatâd ar gyfer y brechlyn os oes problem wrth geisio cael caniatâd gan eu rhieni neu warcheidwaid. Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 40.

Dywed chwech o bob 10 (61%) o rieni eu bod yn ymwybodol y gall pobl ifanc 13 mlwydd oed a throsodd roi eu caniatâd eu hunain ar gyfer brechu. Fodd bynnag, nid yw 39% o rieni plant 13 i 16 mlwydd oed yn ymwybodol o hyn.

Gofynnwyd i bobl ifanc rhwng 13 a 17 mlwydd oed hefyd a ydynt yn ymwybodol y gallent roi caniatâd ar gyfer brechlynnau. Mae dros hanner (57%) y bobl ifanc rhwng 13 a 17 mlwydd oed yn dweud eu bod yn ymwybodol o hyn ond nid yw 43% yn ymwybodol o hyn.

**Ffigur 40: A ydych chi'n ymwybodol y gall plant a phobl ifanc 13 mlwydd oed a hŷn roi caniatâd ar gyfer y brechlyn os oes problem wrth geisio cael caniatâd gan eu rhieni neu warcheidwaid? / Ydych chi'n ymwybodol, os ydych chi'n 13 mlwydd oed neu'n hŷn, y gallwch chi roi caniatâd ar gyfer y brechlyn os oes problem wrth geisio cael caniatâd gan eich rhieni neu warcheidwaid?**




Sylfaen: Rhieni sydd â phlant 13-16 mlwydd oed (176) a Phobl Ifanc 13-17 mlwydd oed (159)
DE1

Mae dynion ifanc 13 i 17 mlwydd oed yn fwy tebygol o beidio â gwybod y gallent roi caniatâd ar gyfer eu brechiadau (54%).


Ymhlith rhieni pobl ifanc 13 i 16 mlwydd oed, mae'r rhai y mae eu plentyn rhwng 15 ac 16 mlwydd oed (51%) a'r rhai nad ydynt wedi gweld unrhyw gyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru (60%) yn fwy tebygol o beidio â gwybod y gallai pobl ifanc 13 mlwydd oed a throsodd roi eu caniatâd eu hunain ar gyfer eu brechiadau.

Gofynnwyd i rieni pobl ifanc 13 i 16 mlwydd oed pwy sy'n penderfynu a yw'r person ifanc yn cael ei frechu ai peidio (gweler Ffigur 41). Mae'r rhan fwyaf o rieni'n dweud mai eu penderfyniad nhw neu benderfyniad y rhiant arall yw p'un a yw'r person ifanc yn cael ei frechu ai peidio (40%) neu ei fod yn benderfyniad ar y cyd rhwng y rhieni a'r plentyn/plant (44%). Dim ond 15% o rieni sy'n dweud mai penderfyniad y person ifanc yn unig yw hwn.

O edrych ar y canlyniadau hyn i bobl ifanc, gallwn weld bod rhai anghysondebau wrth gymharu â'r atebion gan rieni. Mae bron i 2 o bob 5 (38%) o bobl ifanc 13 i 19 mlwydd oed yn dweud mai nhw sydd bob amser wedi gwneud penderfyniad o ran p'un a ydynt yn cael eu brechu ai peidio, sy'n cymharu â 15% o rieni a ddywedodd mai'r person ifanc sydd wedi gwneud y penderfyniad hwnnw bob amser. Yn ogystal, mae 1 o bob 5 (21%) o bobl ifanc yn dweud bod y penderfyniad i gael eu brechu wedi bod yn un ar y cyd, o'i gymharu â 44% o rieni a ddywedodd fod hyn yn wir.

At hynny, mae 1 o bob 3 (33%) o bobl ifanc yn dweud mai'r rhieni sydd bob amser wedi penderfynu p'un a ydynt yn cael eu brechu ai peidio (o gymharu â 40% o rieni a ddywedodd hyn).

**Ffigur 41: A meddwl am y brechlynnau mae eich plentyn/plant wedi cael eu cynnig yn y gorffennol, pa un o'r canlynol sydd fwyaf perthnasol i chi? / A meddwl am y brechlynnau rydych chi wedi cael eu cynnig yn y gorffennol, pa un o'r canlynol sydd fwyaf perthnasol i chi?**




Sylfaen: Rhieni sydd â phlant 13-16 mlwydd oed (176) a Phobl Ifanc 13-19 mlwydd oed (216)
DE2


Ymhlith pobl ifanc, mae gwrywod yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud mai penderfyniad eu rhieni bob amseri yw penderfynu a ydynt yn cael eu brechu ai peidio (42%).

Mae dros 2 o bob 5 (45%) o bobl ifanc rhwng 11 a 19 mlwydd oed yn dweud ei bod yn well ganddynt wneud eu penderfyniad eu hunain ynghylch a ddylent gael eu brechu. Byddai'n well gan un o bob 3 (35%) wneud penderfyniad ar y cyd â'u rhieni, a dim ond lleiafrif (19%) fyddai'n hoffi i'w rhieni fod yr unig benderfynwyr o ran eu brechiadau.

Fodd bynnag, mae Ffigur 42 yn dangos bod rhai amrywiadau barn ynghylch gwneud penderfyniad ar frechiadau yn dibynnu ar oedran yr ymatebwyr. Mae cyfran y rhai y mae'n well ganddynt wneud eu penderfyniad eu hunain yn cynyddu gydag oedran: Hoffai 35% o'r rhai 11 i 15 mlwydd oed wneud eu penderfyniad eu hunain, sy'n cymharu â 57% o'r rhai rhwng 16 a 17 mlwydd oed a 66% o'r rhai rhwng 18 a 19 mlwydd oed. Yn yr un modd, mae'r dewis i gyd-benderfynu neu rieni fod yr unig benderfynwyr hefyd yn gostwng wrth i oedran gynyddu: tra byddai 43% o bobl ifanc 11 i 15 mlwydd oed yn hoffi gwneud penderfyniad ar y cyd â'u rhieni ar frechu, dim ond 14% o'r rhai rhwng 18 a 19 mlwydd oed sy'n cytuno â hyn.

Yn gyffredinol, ymhlith y rhai rhwng 11 a 15 mlwydd oed, gwneud penderfyniad ar y cyd â rhieni yw'r opsiwn a ffefrir ar gyfer caniatâd (43%), ac yna pobl ifanc yn gwneud eu penderfyniad eu hunain (35%). Fodd bynnag, gwneud eu penderfyniad eu hunain yw'r opsiwn a ffefrir o bell ffordd gan y rhai rhwng 16 a 17 mlwydd oed (57%) a 18 i 19 mlwydd oed (66%). Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio leiaf ymhlith pob grŵp oedran yw mai rhieni yw'r unig rai sy'n gwneud penderfyniadau (22% ymhlith y rhai rhwng 11 a 15 mlwydd oed, 9% o'r rhai rhwng 16 a 17 mlwydd oed ac 20% o'r rhai rhwng 18 a 19 mlwydd oed).

**Ffigur 42: A sut y byddech chi'n ffafrio gwneud penderfyniad ynghylch a ddylech chi gael eich brechu ai peidio? (Pobl Ifanc)**




Sylfaen: Pobl Ifanc rhwng 11 a 19 mlwydd oed (276), Pobl Ifanc 11 i 15 mlwydd oed (164), Pobl Ifanc 16 i 17 mlwydd oed (55), Pobl Ifanc 18 i 19 mlwydd oed (57)
DE3

Mae grwpiau ffocws ansoddol yn cadarnhau bod grwpiau oedran iau yn fwy tebygol o fod wedi rhyngweithio â'u rhieni i wneud penderfyniad ynghylch a ddylent gael eu brechu ai peidio, ond mae'r rhan fwyaf o'r rhai rhwng 12 a 15 mlwydd oed yn dal i'w gweld eu hunain fel y sawl sy'n gwneud y penderfyniad terfynol:

> *"Fe wnes i siarad â'm rhieni ychydig ond wedyn fe wnes i wneud y penderfyniad".* Gwryw, 15, Gwyn Prydeinig

> *"Roeddwn i eisiau ei gael [brechlyn COVID-19] felly dywedodd fy rhieni wrthyf fi pan gefais y llythyr o'r ysgol y gallwn i ei gael. Doedd dim rhaid i mi gael trafodaeth am y peth gan fod fy rhieni a minnau yn meddwl yr un peth. Mae fy rhieni'n barchus am fy mhenderfyniad ond roeddwn i'n eithaf sicr ohono".* Merch, 13, Gwyn Prydeinig

Ymhlith rhieni a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws ansoddol, mae rhaniad ymhlith y rhai sy'n dweud eu bod yn gadael i'w plentyn/plant wneud eu meddwl ynghylch a ddylent gael eu brechu ai peidio a'r rhai sy'n ystyried eu hunain fel y penderfynwr yn y pen-draw neu'n dylanwadu ynghylch a ddylai eu plentyn gael ei frechu:

> *"Yn y pen draw, fe wnaethon ni fel rhieni benderfynu y byddan nhw'n cael y brechlyn".* Gwryw, 51, Gwyn Prydeinig

> *"Pe bydden nhw'n dewis rhywbeth gwahanol i fi yna byddwn i'n siarad gyda nhw i'w dylanwadu. Rwy'n bychanu rhwystrau'r nodwydd ac yn gwneud iddo feddwl am y sefyllfa waethaf pe bai'n cael y clefyd".* Merch, 34, Gwyn Prydeinig

> *"Siaradais â fy mab ond gwnaeth ei benderfyniad ei hun".* Gwryw, 48, Gwyn Prydeinig

I bobl ifanc 18+ mlwydd oed, nid yw sgyrsiau gyda rhieni i wneud penderfyniad ar frechu yn gyffredin iawn a phan fyddant yn digwydd nid yw'r rhain yn tueddu i ddylanwadu ar

benderfyniadau. Yn hytrach, y ffordd fwyaf cyffredin o wneud penderfyniad ymhlith pobl ifanc 18+ mlwydd oed yw gwneud eu hymchwil eu hunain:

> *"Fe wnes i fy ymchwil a gwelais fod yr un hwn newydd gael ei ddatblygu a gwelais hefyd ar wefan Sefydliad Iechyd y Byd ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio felly penderfynais gymryd y brechlyn RNA".* Gwryw, 21, Gwyn Prydeinig

> *"Dydw i ddim yn siarad â llawer o bobl a dweud y gwir. Rwy'n siarad yn bennaf â'm partner [sy'n feddyg]. Dydi fy mam ddim yn gwybod fy mod i wedi cael y brechlyn eto ac mae gen i lawer o ffrindiau sydd yn erbyn y brechlyn ond dydw i ddim yn gwrando arnyn nhw".* Merch, 22, Gwyn Prydeinig

Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc rhwng 12 a 15 mlwydd oed a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws ansoddol yn dweud ei bod yn hawdd iddynt wneud penderfyniad ynghylch a ddylid cael y brechlynnau ffliw a COVID-19 ai peidio gan eu bod wedi penderfynu ar ôl cael y llythyr gan yr ysgol. Fodd bynnag, roedd rhai o'r rhai 18+mlwydd oed yn ei chael hi'n anoddach o ystyried y wybodaeth anghyson sydd ar gael:

> *"Hawdd. Cefais y llythyr gan yr ysgol ac fe wnes i gael y brechlyn".* Gwryw, 12, Gwyn Prydeinig

> *"Roedd yn benderfyniad anodd i'w wneud oherwydd bod cymaint o wybodaeth groes am yr holl frechlynnau [COVID-19].* Merch, 23, Gwyn Prydeinig

## 10.4 Anghytuno ar frechu ymhlith pobl ifanc a rhieni


O gofio bod gan rieni rhywfaint o bŵer i wneud penderfyniadau o ran p’un a yw person ifanc yn cael ei frechu ai peidio, mae Ffigur 43 yn ystyried a yw rhieni a phobl ifanc erioed wedi anghytuno â'i gilydd ynghylch p’un a yw'r person ifanc yn cael ei frechu ai peidio.

Dywed tua 8 o bob 10 (82%) o rieni nad ydynt erioed wedi anghytuno â'u plentyn/plant ar unrhyw frechlyn. Fodd bynnag, mae cyfran y bobl ifanc sy'n dweud nad ydynt erioed wedi anghytuno â'u rhieni ar frechiadau 20 pwynt canran yn is nag ar gyfer rhieni (62%).

Yn gyffredinol, mae 16% o rieni'n dweud eu bod wedi anghytuno â'u plant ynglŷn â brechu, sy'n cymharu â 31% o bobl ifanc sy'n dweud eu bod wedi anghytuno â'u rhieni ar ryw adeg ynghylch a ddylent gael brechlyn ai peidio. O edrych ar y canlyniadau hyn yn agosach, mae 1 o bob 5 (21%) o bobl ifanc yn dweud bod eu rhieni ar ryw adeg am iddynt gael brechlyn ond bod yn well ganddyn nhw beidio â gwneud hynny, a dywed 11% eu bod hefyd wedi profi anghytuno i'r cyfeiriad arall, hynny yw, nid yw rhieni am i'r person ifanc gael ei frechu a'r person ifanc yn ffafrio gwneud hynny.

Ymhlith rhieni, mae tua 1 o bob 10 (12%) yn dweud eu bod wedi anghytuno â'u plentyn oherwydd eu bod am i'r plentyn gael ei frechu ond roedd yn well gan y plentyn beidio â gwneud hynny. Dywedodd 5% nad oeddent am i'w plentyn gael ei frechu ar ryw adeg ond bod yn well gan eu plentyn gael ei frechu.

**Ffigur 43: A ydych chi a/neu'r rhiant/gwarcheidwad arall erioed wedi anghytuno â'ch plentyn/plant ynghylch a ddylent gael brechlyn? / Ydych chi a'r naill neu'r llall o'ch rhieni/gwarcheidwaid erioed wedi anghytuno ynghylch a ddylech chi gael brechlyn?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
DE4


Mae rhieni sy'n byw yn y cwintel mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi anghytuno â'u plentyn ar ryw adeg ynghylch brechu oherwydd bod yn well gan y plentyn gael ei frechu ond roedd yn well ganddyn nhw fel rhieni i'r plentyn beidio â chael ei frechu (11%).

O safbwynt pobl ifanc, mae'r rhai rhwng 18 a 25 mlwydd oed yn fwy tebygol o ddweud eu bod am i rieni gael eu brechu ond bod yn well ganddyn nhw beidio â chael eu brechu (27%). Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r rhai nad ydynt yn ymddiried yn y brechlyn COVID-19 (31%) a'r brechlyn ffliw (38%).

Yna gofynnwyd i rieni a phobl ifanc a ddywedodd eu bod wedi anghytuno â'i gilydd pa frechlynnau yr oedden nhw wedi anghytuno yn eu cylch (gweler Ffigur 44).

O bell ffordd, y brechlyn COVID-19 yw'r imiwneiddiad mae rhieni a phobl ifanc yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi anghytuno yn ei gylch, gyda dros 1 o bob 3 rhiant (36%) a phobl ifanc (44%) yn sôn am y brechlyn hwn fel ffynhonnell anghytuno. Soniwyd hefyd am y brechlyn ffliw fel imiwneiddiad mae rhieni a phobl ifanc wedi anghytuno yn ei gylch, er i raddau llai (17% o rieni a 13% o bobl ifanc).

**Ffigur 44: Pa frechlyn/brechlynnau wnaethoch chi anghytuno yn eu cylch?**




Sylfaen: Y rhai sydd wedi anghytuno â rhieni/plant ar frechu - Rhieni (39) a Phobl Ifanc (141)
DE5

# 11. Ffynonellau gwybodaeth i gael gwybod am COVID-19 a brechlynnau ffliw

## 11.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn archwilio'r ffynonellau gwybodaeth mae rhieni a phobl ifanc wedi'u defnyddio i ddod o hyd am frechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw, yn ogystal â faint maen nhw’n ymddiried yn y ffynonellau gwybodaeth hyn.


## 11.2 Ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd

Y ffynonellau gwybodaeth mwyaf cyffredin a ddefnyddir gan rieni i gael gwybodaeth am frechlyn COVID-19 a’r brechlyn ffliw yw gwefan y GIG (49%) a thaflenni'r GIG (33%). Mae'r ffynonellau gwybodaeth hyn hefyd ymhlith y 3 uchaf mae pobl ifanc wedi'u defnyddio eu hunain (36% gwefan y GIG a 25% taflenni'r GIG). Fodd bynnag, mae'r cyfrannau o bobl ifanc sydd wedi defnyddio gwefannau'r GIG a thaflenni'r GIG yn is na chyfran y rhieni sy'n honni eu bod nhw wedi defnyddio'r ffynonellau hyn. I bobl ifanc, teulu yw'r ail ffynhonnell a ddefnyddir fwyaf i gael gwybod am frechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw (29%). Efallai nad yw'n syndod bod teulu'n cael ei grybwyll yn llai cyffredin gan rieni (9%).

At hynny, mae teledu hefyd yn ffynhonnell bwysig ar gyfer gwybodaeth, gyda thua chwarter y rhieni (24%) a phobl ifanc (24%) yn dweud eu bod wedi cael gwybodaeth am y brechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw o'r sianel hon.

Er mai ffynonellau rhyngrwyd a ffynonellau sy'n ymwneud â darparwyr neu leoliadau gofal iechyd yw'r rhai a ddefnyddir amlaf gan rieni a phobl ifanc, mae'n amlwg bod y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio'n fwy cyffredin gan bobl ifanc na rhieni i gael gwybod am frechlynnau COVID-19 a brechlynnau ffliw (mae 38% o bobl ifanc yn dweud eu bod wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, o gymharu â 17% o rieni). Ymhlith pobl ifanc, y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a grybwyllir amlaf yw TikTok (14%), Facebook (14%), Instagram (14%). I rieni, Facebook yw'r platfform cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir amlaf i gael gwybodaeth am frechlynnau (11%).

**Ffigur 45: Pa un o'r canlynol ydych chi wedi'i ddefnyddio cyn heddiw i gael gwybodaeth am frechlyn COVID-19 neu'r brechlyn ffliw ar gyfer eich plentyn/plant? / Pa un o'r canlynol ydych chi wedi'i ddefnyddio cyn heddiw i gael gwybodaeth am frechlyn COVID-19 neu'r brechlyn ffliw?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
I1 - *Ni ddangosir codau o dan 10% er mwyn hwyluso darllen


## 11.3 Ymddiriedolaeth mewn ffynonellau gwybodaeth

Er mwyn deall i ba raddau mae rhieni'n ymddiried yn y wybodaeth maen nhw’n dod ar ei thraws drwy wahanol ffynonellau, dangoswyd y rhestr o ffynonellau i gyfranogwyr yr arolwg y gwnaethon nhw ddweud eu bod wedi'u defnyddio i gael gwybodaeth am frechlyn COVID-19 a'r brechlynnau ffliw a gofynnwyd iddynt nodi i ba raddau maen nhw’n ymddiried ynddyn nhw (gweler Ffigur 46).

Y ffynonellau gwybodaeth canlynol sydd â'r sgorau 'ymddiried yn fawr' uchaf: meddygon/nyrsys/fferyllwyr/CIC (79%), taflenni'r GIG (69%), gwasanaeth ffôn Galw Iechyd Cymru 111/Galw Iechyd Cymru (68%), a gwefan y GIG (65%).

I'r gwrthwyneb, Facebook a chyfryngau cymdeithasol yn gyffredinol yw'r ffynonellau mae rhieni'n ymddiried ynddynt leiaf, gydag 16% o rieni sydd wedi defnyddio Facebook yn dweud eu nad ydynt yn ymddiried ynddo ryw lawer neu ddim o gwbl, a 13% yn dweud hynny ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol yn gyffredinol. Er hynny, mae'n werth nodi bod 25% o rieni sydd wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gael gwybodaeth am frechlynnau yn dweud eu bod yn ymddiried yn y ffynhonnell hon yn fawr, gyda 25% arall yn dweud eu bod yn ymddiried yn y cyfryngau cymdeithasol i ryw raddau a 34% yn dweud eu bod yn ymddiried yn y ffynhonnell hon rywfaint. Yn gyffredinol, mae 84% o rieni sydd wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn dweud eu bod yn ymddiried yn y wybodaeth ar y llwyfannau hyn o leiaf i ryw raddau.

**Ffigur 46: A faint ydych chi'n ymddiried yn y wybodaeth a roddir i chi o'r ffynonellau hyn? (Rhieni)**




Sylfaen: Rhieni sydd wedi defnyddio pob adnodd (meintiau sylfaen mewn cromfachau)
I2
*Nid yw’r labeli ar gyfer ‘ddim yn gwybod’ yn cael eu dangos er mwyn hwyluso’r darllen
*Dim ond canlyniadau ar gyfer adnoddau a ddefnyddiwyd gan o leiaf 10% o'r ymatebwyr yng nghwestiwn I1 a ddangosir

Gofynnwyd i bobl ifanc hefyd i ba raddau maen nhw’n ymddiried yn y ffynonellau gwybodaeth yr oedden nhw wedi'u defnyddio i gael gwybod am frechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw (Ffigur 47).

Fel y gwelwyd gyda rhieni, ffynonellau gwybodaeth sy'n ymwneud â darparwyr neu leoliadau gofal iechyd yw'r rhai mae pobl ifanc yn ymddiried ynddynt fwyaf hefyd, mae dros hanner y rhai sydd wedi defnyddio'r ffynonellau canlynol yn dweud eu bod yn ymddiried yn fawr

ynddynt: rhywun mewn meddygfa (69%), gwefan y GIG (67%), meddygon/nyrsys/fferyllwyr/HCWs (61%), a thaflenni'r GIG (58%).


Ar wahân i'r ffynonellau hyn sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, mae pobl ifanc hefyd yn ymddiried yn fawr mewn teuluoedd ac athrawon neu staff ysgol o ran cael gwybodaeth am frechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw, gyda 56% a 44% yn dweud eu bod yn ymddiried yn fawr mewn gwybodaeth o'r sianeli hyn.

Yn debyg i rieni, y rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol yw'r ffynonellau lleiaf dibynadwy ymhlith pobl ifanc. Mae tua 1 o bob 4 (26%) o bobl ifanc sydd wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gael gwybod am y brechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw yn dweud nad ydynt yn ymddiried llawer neu ddim o gwbl mewn gwybodaeth ar y llwyfannau hyn, gyda chyfran debyg (19%) yn dweud hynny am y rhyngrwyd yn gyffredinol. Er hynny, mae'n werth nodi bod dros 7 o bob 10 o bobl ifanc sydd wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol a ffynonellau rhyngrwyd yn ymddiried yn y rhain o leiaf i ryw raddau (80% ar gyfer y rhyngrwyd a 73% ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol), hyd yn oed os yw'r sgorau 'ymddiried yn fawr' yn isel (11% ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a 29% ar gyfer y rhyngrwyd).

Mae pobl ifanc sy'n wrywod yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod yn ymddiried yn y cyfryngau cymdeithasol yn fawr (16%), fel y mae'r rhai sy'n byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (20%). Mae'r rhai nad ydynt wedi gweld unrhyw wybodaeth am frechu yn ystod y 12 mis diwethaf hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn ymddiried yn y cyfryngau cymdeithasol yn fawr (23%). Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cael gwybodaeth wedi'i rheoleiddio am frechu ar gyfryngau cymdeithasol gan fod y llwyfannau hyn yn cael eu defnyddio'n helaeth gan bobl ifanc. At hynny, fel y gwelsom yn adran gyntaf yr adroddiad hwn ynghylch ymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd, roedd pobl ifanc a welodd wybodaeth am frechu ar gyfryngau cymdeithasol yn fwy tebygol o ddweud bod y wybodaeth hon yn cynnwys cymysgedd o negeseuon o blaid ac yn erbyn brechu. Mae grwpiau ffocws ansoddol hefyd yn dangos bod pobl ifanc yn aml yn dod ar draws gwybodaeth am frechlynnau ar gyfryngau cymdeithasol hyd yn oed pan nad ydynt yn chwilio amdani:

> *"Fel arfer rwy'n edrych ar y newyddion [i gael gwybodaeth am frechlynnau] ac yn cael gwybodaeth yn oddefol o drafodaethau o'm cwmpas a hefyd oddi ar y cyfryngau cymdeithasol".* Merch, 21, Gwyn

**Ffigur 47: A faint ydych chi'n ymddiried yn y wybodaeth a roddir i chi o'r ffynonellau hyn? (Pobl Ifanc)**




Sylfaen: Pobl Ifanc sydd wedi defnyddio pob adnodd (meintiau sylfaen mewn cromfachau)
I2
*Nid yw'r labeli ar gyfer 'ddim yn gwybod' yn cael eu dangos er mwyn hwyluso'r darllen
*Dim ond canlyniadau ar gyfer adnoddau a ddefnyddiwyd gan o leiaf 10% o'r ymatebwyr yng nghwestiwn I1 a ddangosir

## 11.4 Ffynonellau gwybodaeth mae ymatebwyr yn debygol o'u defnyddio yn y dyfodol


Mae Ffigur 48 yn dangos y ffynonellau y byddai rhieni a phobl ifanc yn eu defnyddio pe baent am gael gwybod mwy am frechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw.

Er mwyn cael gwybodaeth am frechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw yn y dyfodol, byddai rhieni a phobl ifanc yn ymgynghori'n bennaf â ffynonellau gofal iechyd, yn fwyaf nodedig gwefan y GIG (60% o rieni a 49% o bobl ifanc). Dilynir hyn gan daflenni'r GIG (28% o rieni a 26% o bobl ifanc). Mae ffynonellau eraill sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn cynnwys: GIG 111 / Gwasanaeth ffôn uniongyrchol y GIG (28% o rieni a 19% o bobl ifanc), rhywun mewn meddygfa fel nyrs, meddyg neu dderbynnydd (20% o rieni a 15% o bobl ifanc), meddygon/nyrsys/fferyllwyr/HCWs (23% o rieni a 21% o bobl ifanc), a rhywun mewn fferyllfa (10% o rieni a 15% o bobl ifanc).

Ar wahân i'r sianeli hyn sy'n ymwneud â gofal iechyd, mae cyfrannau sylweddol o rieni a phobl ifanc yn dweud y byddent yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau rhyngrwyd gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol os oeddent am gael gwybod mwy am frechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw yn y dyfodol (68% o rieni a 60% o bobl ifanc).

I bobl ifanc, mae teulu hefyd yn ffynhonnell wybodaeth bwysig, gyda 15% yn dweud y byddent yn defnyddio eu teulu fel ffynhonnell wybodaeth pe baent am gael gwybod mwy am frechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw yn y dyfodol.

**Ffigur 48: Os oeddech chi eisiau gwybod mwy am frechlyn COVID-19 neu'r brechlyn ffliw ar gyfer eich plentyn/plant, ble fyddech chi'n chwilio am ragor o wybodaeth? / Os oeddech chi eisiau gwybod mwy am frechlyn COVID-19 neu'r brechlyn ffliw, ble fyddech chi'n chwilio am ragor o wybodaeth?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
I3 - *Ni ddangosir codau o dan 10% er mwyn hwyluso darllen

Mae rhieni sy'n credu bod brechlynnau sy'n waeth na'r salwch maen nhw'n amddiffyn yn ei erbyn yn fwy tebygol o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn y dyfodol pe baent am gael gwybod mwy am frechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw (21%). Mae hyn hefyd yn wir am rieni anabl (17%), y rhai sy'n cael eu hystyried yn rhai sy'n agored iawn i niwed yn glinigol (21%), y rhai sy'n byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (17%), a'r rhai yng nghwintel amddifadedd 3 (14%).

Ymhlith pobl ifanc, mae'r rhai rhwng 18 a 25 mlwydd oed yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud y byddent yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn y dyfodol i gael gwybod mwy am frechlyn COVID-19 a'r brechlyn ffliw (17%). Mae ymatebwyr o gefndiroedd BAME hefyd yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn y dyfodol i ddysgu mwy am y brechlynnau (26%), fel y mae'r rhai nad y Gymraeg neu Saesneg yw eu prif iaith (31%) a'r rhai sy'n cael eu hystyried yn agored iawn i niwed yn glinigol (27%).

# 12. Ymwybyddiaeth a safbwyntiau ar gyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru

## 12.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn dadansoddi ymwybyddiaeth rhieni a phobl ifanc o gyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â'r brechlyn ffliw a'r brechlyn COVID-19 i bobl ifanc. Yna mae'n archwilio sianeli lle mae ymatebwyr wedi dod ar draws cyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ogystal â barn am ddeunyddiau cyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## 12.2 Ymwybyddiaeth o gyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yna dangoswyd cyfres o daflenni Iechyd Cyhoeddus Cymru a negeseuon cyfryngau cymdeithasol i rieni a phobl ifanc ar y ffliw a brechiad COVID-19 a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld y rheini cyn cymryd rhan yn yr arolwg.

Mae'r deunyddiau a ddangoswyd i rieni a phobl ifanc wedi'u cynnwys yn Ffigur 49. Dangoswyd yr holl daflenni a negeseuon cyfryngau cymdeithasol i'r rhieni, tra dangoswyd taflenni a negeseuon cyfryngau cymdeithasol gwahanol i bobl ifanc yn dibynnu ar eu hoedran. Dangoswyd o leiaf un daflen brechlyn COVID-19 ac un daflen brechlyn ffliw o leiaf un neges ar y cyfryngau cymdeithasol i'r holl bobl ifanc.


**Ffigur 49: Taflenni a negeseuon cyfryngau cymdeithasol a ddangoswyd i ymatebwyr**




L1

Yn gyffredinol, mae dros 6 o bob 10 rhiant (66%) a phobl ifanc (61%) yn dweud eu bod wedi gweld o leiaf un o'r taflenni neu neges ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn cymharu â thua 3 o bob 10 rhiant (31%) a phobl ifanc (35%) nad ydynt wedi gweld unrhyw gyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nid yw'r gweddill yn gwybod neu'n methu cofio (3% o rieni a 4% o bobl ifanc).

**Ffigur 50: Ydych chi wedi gweld unrhyw un o'r taflenni neu'r negeseuon cyfryngau cymdeithasol hyn cyn heddiw?**





Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
L1

Mae pobl ifanc 11 i 15 mlwydd oed yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud nad ydynt wedi gweld unrhyw gyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru (45%), fel y mae gwrywod (40%),

a'r rhai nad ydynt yn ymddiried yn y brechlyn COVID-19 (44%). Mae pobl ifanc yng nghwintelau amddifadedd 2 (47%) a 4 (49%) hefyd yn llai tebygol o fod wedi gweld cyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae Ffigur 51 yn dangos y ffynonellau lle mae rhieni a phobl ifanc wedi dod ar draws cyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae Facebook (36% o rieni a 19% o bobl ifanc) a chanolfannau brechu (32% o rieni a 34% o bobl ifanc) yn dod ar frig y rhestr o sianeli lle mae ymatebwyr wedi gweld cyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dilynir hyn gan wefan y GIG (19% o rieni ac 11% o bobl ifanc) a meddygfeydd (13% o rieni a 18% o bobl ifanc).

**Ffigur 51: Ble wnaethoch chi weld hyn?**




Sylfaen: Pawb sydd wedi gweld unrhyw hysbysebion - Rhieni (152) a Phobl Ifanc (274)
L2x
*Ni ddangosir bod codau o dan 10% yn hwyluso darllen


## 12.3 Barn am gyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Ffigur 52 yn dangos barn rhieni a phobl ifanc am daflenni Iechyd Cyhoeddus Cymru a negeseuon cyfryngau cymdeithasol ar frechlyn COVID-19 a’r brechlyn ffliw.

Mae bron i 7 o bob 10 rhiant yn fodlon ar y cyfan â thaflenni Iechyd Cyhoeddus Cymru a negeseuon cyfryngau cymdeithasol (67%). Hefyd, mae cyfrannau tebyg yn fodlon ar faint o wybodaeth ar y deunyddiau hyn (69%), y dyluniad/cynllun (74%) a pha mor hawdd yw deall y wybodaeth (74%). Mae anfodlonrwydd ymhlith rhieni yn isel, gyda 4% o rieni neu lai yn dweud bod unrhyw un o'r agweddau hyn naill ai'n wael iawn neu'n weddol wael.

Mae pobl ifanc hefyd yn gadarnhaol ar y cyfan am gyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda thua 6 o bob 10 yn dweud eu bod yn fodlon yn gyffredinol (61%) a chyfrannau tebyg yn mynegi boddhad o ran y dyluniad/cynllun (63%), faint o wybodaeth a ddarperir ar ddeunyddiau Iechyd Cyhoeddus Cymru (65%), a pha mor hawdd yw deall y wybodaeth (67%). Fel gyda rhieni, mae anfodlonrwydd ymhlith pobl hefyd yn isel, gyda 6% neu lai yn dweud bod unrhyw un o'r agweddau a restrir uchod naill ai'n wael iawn neu'n weddol wael.

**Ffigur 52: Yn gyffredinol, pa mor dda neu wael yw'r elfennau canlynol o'r taflenni/negeseuon cyfryngau cymdeithasol?**




Sylfaen: Pob Rhiant (230) a Phob Person Ifanc (457)
L3

Mae pobl ifanc rhwng 18 a 25 mlwydd oed yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod yn anfodlon ar y cyfan â thaflenni Iechyd Cyhoeddus Cymru a negeseuon cyfryngau cymdeithasol ar frechiadau COVID-19 a brechiadau ffliw (7%).

Mae rhieni gwrywaidd yn fwy tebygol o fod yn anfodlon ar y cyfan â deunyddiau cyhoeddusrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru (9%), fel y mae ymatebwyr Cristnogol (9%), a'r rhai sy'n byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (12%). Mae anfodlonrwydd â deunyddiau Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn uwch ymhlith rhieni sy'n drwgdybio

brechlynnau a'r rhai sy'n dweud nad yw eu plentyn wedi cael y brechlyn ffliw na'r brechlyn COVID-19 ac nad ydynt yn bwriadu iddynt gael y rhain.

Dangoswyd detholiad o'r taflenni a ddangosir yn Ffigur 49 i gyfranogwyr yn y grwpiau ffocws ansoddol. Ymhlith pobl ifanc a rhieni, mae safbwyntiau cymysg am y taflenni gyda rhai'n dweud bod y taflenni'n edrych yn llawn gwybodaeth ac yn briodol i'w hoedran ac eraill yn dweud eu bod yn edrych yn ddiflas ac nad ydynt yn apelio:

> *"Mae'n lliwgar ac mae pawb yn edrych yn hapus felly mae hyn yn gwneud i chi fod eisiau ei ddarllen". Gwryw, 12, Gwyn Prydeinig*
>
> *"Maen nhw'n llawn gwybodaeth am eu bod wedi'u hysgrifennu gan y GIG".* Gwryw, 15, Gwyn Prydeinig
>
> *"Gwelais daflenni brechu COVID, ond nid y rhai ffliw. Mae'r cyfan yn glir ac nid oes jargon".* Merch, 41, Gwyn Prydeinig
>
> *"Dyma'r tro cyntaf i mi weld y taflenni hyn. Fyddwn i ddim yn cymryd eiliad i edrych arnyn nhw am eu bod nhw'n ddiflas."* Merch, 15, Gwyn Prydeinig
>
> *"Nid yw'n edrych fel rhywbeth y byddwn i'n ei ddarllen oherwydd mae'n edrych yn hynod ddiflas a ffeithiol. Dydyn nhw ddim yn ddifyr iawn".* Merch, 23, Gwyn Prydeinig
>
> *"Nid yw plant yn hoffi darllen gwybodaeth; mae'n debyg y bydden nhw'n ei roi yn syth i mi."* Gwryw, 48, Gwyn Prydeinig

At hynny, roedd pobl ifanc 18 mlwydd oed a throsodd yn meddwl bod y taflenni wedi'u targedu at rieni yn hytrach na phobl ifanc eu hoedran nhw:

> *"Mae'n amlwg bod hwn wedi'i dargedu at bobl sydd â phlant".* Gwryw, 21, Gwyn Prydeinig
>
> *"Dydw i erioed wedi gweld y delweddau hyn ac maen nhw'n edrych fel taflenni i rieni".* Merch, 24, Gwyn Arall

Mae rhai awgrymiadau i wella'r taflenni yn cynnwys, cael lliwiau llachar a mwy nag un lliw fesul taflen, creu mwy o stori, a'i gwneud yn fideo gyda chymeriadau:

> *"Bydd cael mwy o liwiau llachar yn ei wneud yn fwy deniadol".* Merch, 15, Gwyn Prydeinig
>
> *"Yn bendant, cael mwy o liwiau nag un yn unig".* Gwryw, 15, Gwyn Prydeinig
>
> *"Byddai gwneud stori o'r wybodaeth yn ei gwneud yn fwy deniadol."* Merch, 24, Gwyn Prydeinig
>
> *"Byddai ei wneud yn fideo neu ychwanegu cymeriadau cartŵn sy'n esbonio'r cyfan yn ei wneud yn gyfeillgar i blant. Mae'n anodd datblygu rhywbeth ar gyfer pob oedran, er enghraifft bydd gan pobl ifanc 11 mlwydd oed a 16 mlwydd oed ddealltwriaeth wahanol".* Gwryw, 48, Gwyn Prydeinig

Mae ystyriaeth arall a nodwyd gan gyfranogwr mewn grwpiau ffocws ansoddol yn ymwneud â phwysigrwydd sicrhau bod y taflenni ar gael mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg neu Saesneg i'r rhai sydd â'r Gymraeg neu Saesneg fel eu hail iaith:

> *"Byddwn i'n hoffi i'r rhain fod mewn gwahanol ieithoedd gan nad yw ei rhieni'n siarad Saesneg yn dda".* Gofalwr i ferch 17 mlwydd oed, BAME

## 12.4 Awgrymiadau ar gyfer cyfleu gwybodaeth am frechu i bobl ifanc

Cyn dangos taflenni â brand Iechyd Cyhoeddus Cymru, gofynnwyd i bobl ifanc a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws ansoddol ddychmygu eu bod yn gyfrifol am rannu gwybodaeth â phobl ifanc eu hoedran nhw ar frechu a gofynnwyd iddynt feddwl am y wybodaeth y byddent yn ei chynnwys, y fformat a'r sianeli y byddent yn eu defnyddio i gyfleu hyn.

O ran y wybodaeth i'w chynnwys, pwysleisiodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr bwysigrwydd tynnu sylw at fanteision cael y brechlynnau i annog pobl i'w cael:

> *"Byddwn i’n esbonio manteision y brechlynnau a pham y dylech ei gael."* Gwryw, 13, Gwyn Prydeinig

> *"Manteision y brechlyn a'r diben. Rwy'n credu mai dyna oedd y diffyg ar gyfer y brechlynnau COVID, oherwydd bod pobl yn canolbwyntio cymaint ar y pwyntiau negatif".* Merch, 23, Gwyn Prydeinig

Roedd consensws hefyd y byddai'n bwysig ychwanegu gwybodaeth ymarferol fel sut a ble y gall pobl gael y brechlynnau. Roedd pobl ifanc 18+ mlwydd oed yn dueddol o ddweud y byddai'n bwysig cael gwybodaeth sy'n herio hawliadau di-sail am frechlynnau:

> *"Beth yw pryderon mwyaf cyffredin pobl a mynd i'r afael â nhw. Sesiwn chwalu mythau."* Merch, 24, Gwyn Arall

> *"Egluro yn syml pam y datblygwyd y brechlyn covid mor gyflym sy'n rhywbeth sy'n cymell y rhai sydd yn erbyn y brechlyn a’u beirniadaeth. Mae'n bwysig i gorfforaethau fod yn dryloyw am y genhadaeth sydd ganddynt wrth gynhyrchu'r rhain, gan gael gwared ar y syniad bod corfforaethau mawr yn gwneud arian o glefyd".* Gwryw, 21, Gwyn Prydeinig

Roedd y rhan fwyaf o bobl ifanc o oedran ysgol yn debygol o ddweud y byddent yn defnyddio taflenni a/neu bosteri i gyfleu'r wybodaeth hon ac y byddent yn eu rhoi yn yr ysgol neu o'u hamgylch fel y gall pobl o'u hoedran eu gweld (e.e. ychydig y tu allan i'r ysgol neu o fewn ystafelloedd dosbarth). Ystyriwyd bod y cyfryngau cymdeithasol hefyd yn sianel ddigonol i gyfleu gwybodaeth am frechu ymhlith oedolion ifanc 15 neu 15+ mlwydd oed gan fod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn defnyddio'r llwyfannau hyn:

> *"Byddwn yn rhoi'r hysbyseb ar y cyfryngau cymdeithasol yn gyffredinol".* Gwryw, 15, Gwyn Prydeinig

> *"Aeth fy meddwl i hysbysebion cyfryngau cymdeithasol. Snapchat, Twitter a Facebook yn bennaf. Byddwn yn arddangos faint o bobl o'r grŵp oedran hwn sydd eisoes wedi cael y brechlyn ac yn gwneud i chi deimlo, drwy gael y brechlyn hwn y byddwch chi’n amddiffyn pobl o'ch cwmpas, fel eich teulu".* Merch, 21, Gwyn Prydeinig

> *"Cael cyfathrebu yn y cyfryngau cymdeithasol fel bod pobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth oddefol sy'n fyr ac yn llawn gwybodaeth."* Merch, 21, Gwyn Prydeinig

O ran sianeli, roedd cwpl o'r bobl ifanc a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws yn credu y byddai enwogion a dylanwadwyr yn ffordd dda o gael pobl ifanc i feddwl am frechlynnau a'u cael:

*"Mae cael rhywfaint o ffeithluniau neu fideos gyda rhywfaint o sesiynau holi ac ateb ac enwogion mae pobl yn eu dilyn fel dylanwadwyr yn esbonio pam eu bod wedi cael y brechlyn"*. Merch, 22, Gwyn Arall

*"Rwy'n credu a ddylai enwogion ddangos eu cefnogaeth i frechlynnau, yn enwedig yn eu platfform oherwydd bod ganddynt y dylanwad hwnnw ar bobl iau. Oherwydd bod pobl iau yn ceisio cymeradwyaeth gan bobl sydd â dylanwad. Felly, os ydyn nhw (enwogion) yn meddwl bod rhywbeth yn well i gymdeithas yna mae pobl ifanc yn fwy tebygol o'i ddilyn".* Gwryw, 21, Gwyn Prydeinig

## 12.5 Barn ar gyd-gynhyrchu deunyddiau cyhoeddusrwydd

Gofynnwyd i bobl ifanc a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws ansoddol a hoffent gydweithio â Iechyd Cyhoeddus Cymru i greu deunyddiau i roi gwybod i bobl ifanc eu hoedran nhw am frechlynnau. Mynegodd y rhan fwyaf o bobl ifanc barodrwydd i gymryd rhan yn hyn, gan awgrymu mai ar-lein fyddai'r sianel orau iddynt wneud hynny:

*"Ydy, mae'n debygol y byddai gennyf ddiddordeb. Y ffordd orau o gysylltu â mi fyddai drwy e-bost neu ar-lein".* Merch, 22, Gwyn Arall

*"Trwy gael grwpiau fel hyn a fforymau i bobl drafod y pwnc fel hyn. Hoffwn gymedroli'r wybodaeth wael a negyddol sydd ar gael."* Merch, 24, Gwyn Prydeinig

*"Hoffwn gymryd rhan. Byddwn yn esbonio'n well pam rydym ni angen y brechlyn."* Merch, 13, Gwyn Prydeinig

Er hynny, roedd lleiafrif bach o gyfranogwyr mewn grwpiau ffocws yn ddi-hid tuag at gymryd rhan mewn cyd-ddylunio deunyddiau am frechlynnau i bobl ifanc eu hoedran nhw. Fodd bynnag, roeddent yn barod i gymryd rhan pe baent yn cael eu talu i wneud hynny:

*"Na, does gen i ddim yr amser na'r parodrwydd. [...] Pe bawn i'n cael fy nhalu yna byddwn, oherwydd byddai llawer o feddwl yn mynd y tu ôl i hynny".* Merch, 15, Gwyn Prydeinig

## Atodiad 1: Proffil sampl meintiol

Mae'r tablau isod yn crynhoi proffil rhieni a phobl ifanc a gymerodd ran yn yr arolwg meintiol. Pan nad yw atebion o fewn yr un categori yn adio i gyfanswm nifer yr ymatebwyr (230 o rieni a 457 o bobl ifanc), y rheswm am hyn yw bod rhai cyfranogwyr wedi dewis peidio â darparu'r wybodaeth hon.

**Tabl 3: Proffil sampl o bobl ifanc a gymerodd ran yn yr arolwg meintiol**

| | | Maint y sylfaen | % Heb ei bwysoli | % Wedi'i Bwysoli |
|---|---|---|---|---|
| **Bwrdd iechyd** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 122 | 27% | 19% |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 78 | 17% | 22% |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 77 | 17% | 16% |
| | Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg | 69 | 15% | 14% |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 44 | 10% | 12% |
| | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 13 | 3% | 4% |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 54 | 12% | 13% |
| **Cwintel WIMD** | 1 - Lleiaf difreintiedig | 73 | 16% | 19% |
| | 2 | 76 | 17% | 18% |
| | 3 | 103 | 23% | 22% |
| | 4 | 91 | 20% | 20% |
| | 5 - Y mwyaf difreintiedig | 114 | 25% | 22% |
| **Rhywedd** | Gwryw | 227 | 50% | 51% |
| | Benyw | 222 | 49% | 48% |
| | Arall | 6 | 1% | *% |
| **Oedran** | 11-15 | 164 | 36% | 32% |
| | 16-17 | 55 | 12% | 12% |
| | 18-25 | 238 | 52% | 56% |
| **Anabledd** | Ydw | 63 | 14% | 13% |
| | Na | 368 | 81% | 82% |
| **Ethnigrwydd** | Gwyn | 397 | 87% | 95% |
| | BAME | 50 | 11% | 5% |
| **Prif iaith a siaredir gartref** | Saesneg | 401 | 88% | 88% |
| | Cymraeg | 25 | 5% | 7% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Heblaw am y Gymraeg neu Saesneg | 16 | 4% | 2% |
| | | **Maint y sylfaen** | **% Heb ei bwysoli** | **% Wedi'i Bwysoli** |
| **Yn hynod agored i niwed yn glinigol** | Ydw | 49 | 11% | 9% |
| | Na | 370 | 81% | 83% |

**Tabl 4: Proffil sampl o rieni a gymerodd ran yn yr arolwg meintiol**

| | | **Maint y sylfaen** | **% Heb ei bwysoli** | **% Wedi'i Bwysoli** |
|---|---|---|---|---|
| **Bwrdd iechyd** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 52 | 23% | 19% |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 41 | 18% | 22% |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 31 | 13% | 16% |
| | Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg | 40 | 17% | 14% |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 25 | 11% | 12% |
| | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 8 | 3% | 4% |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 33 | 14% | 13% |
| **Cwintel WIMD** | 1 - Lleiaf difreintiedig | 32 | 14% | 19% |
| | 2 | 34 | 15% | 18% |
| | 3 | 44 | 19% | 22% |
| | 4 | 52 | 23% | 20% |
| | 5 - Y mwyaf difreintiedig | 67 | 29% | 22% |
| **Rhywedd** | Gwryw | 64 | 28% | 27% |
| | Benyw | 166 | 72% | 73% |
| | Arall | 0 | 0% | 0% |
| **Oedran** | 18-25 | 1 | *% | 1% |
| | 26-30 | 8 | 3% | 3% |
| | 31-35 | 33 | 14% | 14% |
| | 36-40 | 58 | 25% | 27% |
| | 41-45 | 62 | 27% | 27% |
| | 46-50 | 47 | 20% | 19% |
| | 50+ | 21 | 9% | 9% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y plant** | 1 | 153 | 67% | 66% |
| | Mwy nag un | 77 | 33% | 34% |

| | | Maint y sylfaen | % Heb ei bwysoli | % Wedi'i Bwysoli |
|---|---|---|---|---|
| **Oedran y plentyn/plant** | 11 i 12 | 75 | 33% | 34% |
| | 13 i 14 | 70 | 30% | 34% |
| | 15 i 16 | 85 | 37% | 32% |
| **Anabledd** | Ydw | 36 | 16% | 15% |
| | Na | 191 | 83% | 84% |
| **Ethnigrwydd** | Gwyn | 220 | 96% | 95% |
| | BAME | 10 | 4% | 5% |
| **Prif iaith a siaredir gartref** | Saesneg | 214 | 93% | 93% |
| | Cymraeg | 12 | 5% | 5% |
| | Heblaw am y Gymraeg neu Saesneg | 3 | 1% | 2% |
| **Yn hynod agored i niwed yn glinigol** | Ydw | 34 | 15% | 13% |
| | Na | 189 | 82% | 84% |

## Atodiad 2: Proffil sampl ansoddol

Mae'r tablau isod yn crynhoi proffil rhieni a phobl ifanc a gymerodd ran yn grwpiau ffocws ansoddol.

**Tabl 4: Proffil sampl o bobl ifanc a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws ansoddol**

| | | Nifer y cyfranogwyr | % O'r holl bobl ifanc a gymerodd ran |
|---|---|---|---|
| **Rhywedd** | Gwryw | 7 | 58% |
| | Benyw | 5 | 42% |
| | Arall | 0 | 0% |
| **Oedran** | 11-15 | 4 | 33% |
| | 16-17 | 0 | 0% |
| | 18-25 | 8 | 67% |
| **Anabledd** | Ydw | 0 | 0% |
| | Na | 12 | 100% |
| **Ethnigrwydd** | Gwyn | 12 | 100% |
| | BAME | 0 | 0% |

**Tabl 5: Proffil sampl o rieni a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws ansoddol**

| | | Nifer y cyfranogwyr | % O bob rhiant a gymerodd ran |
|---|---|---|---|
| **Rhywedd** | Gwryw | 3 | 83% |
| | Benyw | 3 | 50% |
| | Arall | 0 | 0% |
| **Oedran** | 34-40 | 1 | 17% |
| | 41-50 | 3 | 50% |
| | 51-60 | 2 | 33% |
| | 60+ | 0 | 0% |
| **Anabledd** | Ydw | 0 | 0% |
| | Na | 6 | 100% |
| **Ethnigrwydd** | Gwyn | 6 | 100% |
| | BAME | 0 | 0% |

**Tabl 6: Proffil enghreifftiol o'r person ifanc a gymerodd ran gyda'i riant/gofalwr yn y grwpiau ffocws ansoddol**

| | | Nifer y cyfranogwyr | % O'r holl bobl ifanc ag anableddau a gymerodd ran |
|---|---|---|---|
| **Rhywedd** | Gwryw | 1 | 50% |
| | Benyw | 1 | 50% |
| | Arall | 0 | 0% |
| **Oedran** | 11-15 | 1 | 50% |
| | 16-17 | 1 | 50% |
| | 18-25 | 0 | 0% |
| **Anabledd** | Ydw | 2 | 100% |
| | Na | 0 | 0% |
| **Ethnigrwydd** | Gwyn | 0 | 0% |
| | BAME | 2 | 100% |

# Atodiad 3: Datganiad o Delerau

### Cydymffurfio â Safonau Rhyngwladol

Mae BMG yn cydymffurfio â gofynion y Safon Ryngwladol ar gyfer Systemau Rheoli Ansawdd (ISO 9001:2015) a'r Safon Ryngwladol ar gyfer Gofynion y Farchnad, barn a gwasanaethau ymchwil cymdeithasol (ISO 20252:2012) a'r Safon Ryngwladol ar gyfer Rheoli Diogelwch Gwybodaeth (ISO 27001:2013).

### Dehongli a chyhoeddi canlyniadau

Mae'r dehongliad o'r canlyniadau fel yr adroddir yn y ddogfen hon yn ymwneud â'r broblem ymchwil ac fe'u cefnogir gan ganfyddiadau empirig y prosiect ymchwil hwn a, lle y bo'n berthnasol, gan ddata arall. Mae'r dehongliadau a'r argymhellion hyn yn seiliedig ar ganfyddiadau empirig ac mae modd eu gwahaniaethu oddi wrth safbwynt a barn bersonol.

Ni fydd BMG yn cyhoeddi unrhyw ran o'r canlyniadau hyn heb ganiatâd ysgrifenedig a gwybodus y cleient.

### Arfer moesegol

Mae BMG yn hyrwyddo ymarfer moesegol mewn ymchwil:  Rydym yn cynnal ein gwaith yn gyfrifol ac yng ngoleuni codau cyfreithiol a moesol cymdeithas.

Rydym yn gyfrifol am gynnal safonau gwyddonol uchel yn y dulliau a ddefnyddir i gasglu a lledaenu data, wrth asesu a lledaenu canfyddiadau'n ddiduedd ac wrth gynnal safonau sy'n gymesur ag uniondeb proffesiynol.

Rydym yn cydnabod bod gennym ddyletswydd gofal i bawb sy'n ymgymryd ag ymchwil ac yn cymryd rhan mewn ymchwil ac rydym yn ymdrechu i ddiogelu cyfranwyr rhag niwed gormodol sy'n codi o ganlyniad i gymryd rhan mewn ymchwil. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyfranogiad cyfranwyr fod mor hyddysg â phosibl ac na ddylai unrhyw grŵp fod o dan anfantais drwy gael ei eithrio rhag cael ei ystyried fel mater o drefn. Bydd yr asiantaeth a'r cleient yn cymryd pob cam digonol i sicrhau bod hunaniaeth pob ymatebydd sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil yn cael ei diogelu.

Gyda mwy na 25 mlynedd o brofiad, mae BMG Research wedi sefydlu enw da am ddarparu ymchwil ac ymgynghoriaeth o ansawdd uchel.

Mae BMG yn gwasanaethu'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan ddarparu mewnwelediad i'r farchnad ac i gwsmeriaid sy'n hanfodol wrth ddatblygu cynlluniau, cefnogi ymgyrchoedd a gwerthuso perfformiad.

Mae arloesi a datblygu wrth wraidd ein busnes i raddau helaeth, a rhoddir cryn sylw i'r defnydd o'r technolegau a'r systemau gwybodaeth diweddaraf i sicrhau bod gwybodaeth am y farchnad ac am gwsmeriaid yn cael ei rhannu'n eang.

BMG Research, Beech House, Greenfield Crescent, Edgbaston, Birmingham, B15 3BE | T . +44(0)121 333 6006 | F . +44(0)121 270 4212
bmgresearch.co.uk | info@bmgresearch.co.uk | Rhif cofrestru'r cwmni 2841970 | Rhif TAW. 580660632